Arolygiaeth Prawf EM

# Arolygiad thematig o'r gwaith a wnaed, a'r cynnydd a wnaed, gan y Gwasanaeth Prawf i leihau nifer yr achosion o gam-drin domestig ac amddiffyn dioddefwyr

Arolygiad gan Arolygiaeth Prawf EF

Gorffennaf 2023

**Cydnabyddiaethau**

Arweiniwyd yr arolygiad hwn gan Arolygydd Prawf EF Noreen Wallace, gyda chefnogaeth tîm o arolygwyr a staff gweithrediadau, ymchwil, cyfathrebu a chorfforaethol. Helen Davies yw’r rheolwr sy'n gyfrifol am y rhaglen arolygu hon. Hoffem ddiolch i bawb a gymerodd ran mewn unrhyw ffordd yn yr arolygiad hwn. Heb eu cymorth a’u cydweithrediad, ni fyddai’r arolygiad wedi bod yn bosib. Cofiwch fod yr enwau yn yr enghreifftiau a roddir gydol yr adroddiad hwn wedi cael eu newid er mwyn diogelu pwy yw’r unigolion dan sylw.

**© Hawlfraint y Goron 2023**

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu anfonwch neges e-bost at psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

ISBN: 978-1-915468-37-6

Mae’r cyhoeddiad hwn ar gael i’w lwytho i lawr yn:

www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation

**Cyhoeddwyd gan:**

Arolygiaeth Prawf EF
Llawr 1af Canolfan Llysoedd Sifil
1 Bridge Street West
Manceinion
M3 3FX

Dilynwch ni ar Twitter @hmiprobation

# Cynnwys

**Cynnwys** ... **3**
**Rhagair** ... **5**
**Ffeithiau am y Cyd-destun** ... **6**
**Prif ganfyddiadau** ... **7**
**Crynodeb gweithredol** ... **8**
**Argymhellion** ... **12**
**1. Cyflwyniad** ... **14**
1.1. Pam y thematig hwn? ... 14
1.2. Cefndir ... 14
1.3. Ymyriadau ... 16
1.4. Nodau ac amcanion ... 17
1.5. Amlinelliad o’r adroddiad ... 18
**2. Polisi, strategaeth ac arweinyddiaeth** ... **19**
2.1. Polisi a strategaeth ... 19
2.2. Arweinyddiaeth genedlaethol ... 21
2.3. Ymyriadau ... 22
2.4. Arweinyddiaeth ranbarthol a PDU ... 24
2.5. Arfogi staff i weithio gyda cham-drin domestig ... 26
2.6. Casgliadau a goblygiadau ... 29
**3. Asesu a chynllunio** ... **30**
3.1. Cyngor i’r llys ... 30
3.2. Cyn rhyddhau ... 31
3.3. Asesiad ... 33
3.4. Cynllunio ... 35
3.5. Rhannu gwybodaeth ... 37
3.6. Casgliadau a goblygiadau ... 40
**4. Cyflawni dedfrydau ac ymyriadau** ... **42**
4.1. Cyflawni dedfrydau ... 42
4.2. Cyflawni ymyriadau ... 44
4.3. Gorfodi ... 48
4.4. Adolygu ... 49
4.5. Rheoli datgeliadau ... 49
4.6. Cefnogi dioddefwyr ... 50
4.7. Gwaith aml-asiantaeth ... 52

4.8. Defnyddio adnoddau cymunedol ........ 53
4.9. Casgliadau a goblygiadau ........ 54
**Cyfeiriadau ........ 56**
**Atodiad 1: Geirfa ........ 57**
**Atodiad 2: Methodoleg ........ 60**
**Atodiad 3: Tablau data ........ 63**

# Rhagair

Mae effaith cam-drin domestig yn sylweddol ac yn bellgyrhaeddol. Amcangyfrifir bod 2.4 miliwn o oedolion wedi dioddef cam-drin domestig ledled Cymru a Lloegr y llynedd, ac mae un o bob saith plentyn yn byw gyda cham-drin domestig ar ryw adeg yn ystod eu plentyndod. Mae cam-drin domestig yn effeithio'n anghymesur ar fenywod, ac amcangyfrifir bod 1.7 miliwn o fenywod wedi dioddef y llynedd. Mae'r rhai sy'n gyfrifol am y cam-drin hwn yn cyfrif am ran sylweddol iawn o lwyth achosion y Gwasanaeth Prawf, gydag oddeutu 30 y cant[1] o'r bobl sydd ar brawf yn cael eu hadnabod fel cyflawnwyr cam-drin domestig ar hyn o bryd neu yn y gorffennol. Pan arolygwyd y pwnc hwn ddiwethaf yn 2018, fe wnaethom adrodd bod gormod o unigolion yn mynd drwy eu dedfrydau heb gael eu herio na'u cefnogi i newid eu hymddygiad camdriniol. Yn bryderus iawn, er gwaethaf rhai datblygiadau cadarnhaol ym maes polisi, nid yw'n ymddangos bod fawr ddim wedi gwella mewn ymarfer, ac mewn rhai ffyrdd, mae pethau wedi dirywio. Dim ond 28 y cant o'r achosion a arolygwyd gennym ar gyfer yr adolygiad hwn oedd wedi cael asesiad digonol a oedd yn dadansoddi'r risgiau o gam-drin domestig pellach, a dim ond 23 y cant oedd wedi cael eu hadolygu'n ddigonol i ystyried newidiadau sylweddol yn yr achos. Mae hyn yn annerbyniol ac yn golygu bod llawer gormod o ddioddefwyr posibl mewn perygl.

Gellir cynnig amrywiaeth o ymyriadau i bobl sydd ar brawf gyda'r nod o'u helpu i wneud newidiadau cadarnhaol yn eu bywydau a'u harfogi i gael perthynas ddiogel ac iach. Fodd bynnag, nid oes digon o bobl yn cael mynediad at yr ymyriadau hyn; dylai 45 y cant o'n sampl achosion fod wedi cael mynediad at ymyriad ond nid oeddent wedi cael hynny. Ar ben hynny, nid oes digon o fonitro ar y cyfraddau atgyfeirio, defnyddio a chwblhau ar gyfer ymyriadau ar lefel genedlaethol er mwyn deall y darlun cyffredinol. Mae'n annerbyniol nad yw gofynion i ymgymryd â rhaglen i gyflawnwyr cam-drin domestig a wnaed fel rhan o'r broses ddedfrydu yn cael eu cyflawni, ond mae hyn yn digwydd mewn llawer o achosion.

Mae prinder staff yn y Gwasanaeth Prawf wedi arwain at lai o ddisgwyliadau o ran lefelau cyswllt sylfaenol â phobl ar brawf, gweithio mewn partneriaeth, a darparu ymyriadau. Mewn achosion cam-drin domestig, mae hyn wedi arwain at ddiffygion sy'n peri pryder yn safon rheoli dedfrydau. Mae staff prawf yn dangos lefelau uchel o ymrwymiad i'w gwaith, gan weithio'n aml yn llawer hirach na'u horiau disgwyliedig, ond mae llwythi achosion uchel yn aml yn eu hatal rhag gallu cwblhau gwaith ystyrlon. Ar ben hynny, nid yw newidiadau diweddar mewn deddfwriaeth drwy *Ddeddf Cam-drin Domestig 2021*, fel cydnabod plant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt fel dioddefwyr ynddynt eu hunain, wedi cael eu hymgorffori mewn ymarfer prawf.

Mae angen gwneud mwy i sicrhau bod cyd-ddealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau ymhlith asiantaethau sy'n gweithio gyda cham-drin domestig, a bod gwybodaeth yn cael ei rhannu i ddiogelu dioddefwyr.

Yn yr arolygiad hwn, rydym yn adrodd ar faterion tebyg i'r rhai rydym wedi'u canfod yn ein rhaglen arolygu graidd ac i'r adolygiadau annibynnol o Droseddau Difrifol Pellach proffil uchel rydym wedi'u cynnal yn ddiweddar. Mae timau prawf yn ei chael hi'n anodd, gyda phrinder staff a niferoedd uchel o staff newydd nad ydynt eto wedi cael y profiad angenrheidiol i weithio'n effeithiol gydag achosion cymhleth ac eto'n gorfod gwneud hynny, gydag ychydig iawn o oruchwyliaeth mewn rhai achosion. Mae ein hargymhellion, os cânt eu dilyn, wedi'u cynllunio i wella ansawdd gwaith cam-drin domestig. Mae'n hanfodol bod y Gwasanaeth yn gweithredu ar y rhain er mwyn gwella'r gwaith o asesu a rheoli dedfrydau y garfan bwysig a pheryglus hon, a'i fod yn gwneud hynny ar frys.



**Justin Russell**
Prif Arolygydd Prawf EF
Gorffennaf 2023

---

[1] Gwybodaeth am ddata llwyth achosion a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Prawf.

# Ffeithiau am y Cyd-destun

### Cam-drin domestig: ystadegau allweddol

| | |
|---|---|
| **2.4 miliwn** | Amcangyfrif o nifer y bobl yng Nghymru a Lloegr 16 oed a hŷn a gafodd eu cam-drin yn y cartref yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022[2]. 1.7 miliwn o fenywod a 699,000 o ddynion. |
| **1,500,369** | Nifer y troseddau a digwyddiadau cam-drin domestig a gofnodwyd gan yr heddlu yng Nghymru a Lloegr yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022[2] |
| **10.4 miliwn** | Amcangyfrif o nifer yr oedolion 16 oed a hŷn sydd wedi profi cam-drin domestig ers eu bod yn 16 oed[2] |
| **22 o bob 100** | Nifer yr oedolion yn y boblogaeth sydd wedi profi cam-drin domestig yn 16 oed a hŷn[2] |
| **134** | Nifer y lladdiadau domestig yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022[3] |
| **12** | Hysbysiadau o Droseddau Difrifol Pellach a dderbyniwyd gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf EF rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021 fel lladdiadau domestig posibl[4] |
| **84** | Menywod ddioddefodd laddiad domestig yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022; cafodd 81 eu lladd gan ddyn dan amheuaeth[3] |

### Plant a cham-drin domestig: ystadegau allweddol

| | |
|---|---|
| **1 o bob 7** | Amcangyfrif o'r plant a phobl ifanc dan 18 oed sydd wedi byw gyda cham-drin domestig ar ryw adeg yn ystod eu plentyndod[5] |

### Y Gwasanaeth Prawf a cham-drin domestig: ystadegau allweddol

| | |
|---|---|
| **240, 674** | Nifer y bobl a reolir gan y Gwasanaeth Prawf[6] |
| **74, 996** | Nifer y bobl sy'n cael eu rheoli gan y Gwasanaeth Prawf y nodwyd eu bod yn neu wedi bod yn gyflawnwr cam-drin domestig[7] |

---

[2] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2022). https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/domesticabuseprevalenceandtrendsenglandandwales/yearendingmarch2022

[3] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2022) https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/homicideinenglandandwales/march2022

[4] Gwybodaeth a ddarperir gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS). Rhoddir hysbysiadau o Droseddu Difrifol Pellach (SFO) pan fydd troseddwr yn cael ei gyhuddo. Ar 30 Medi 2022, roedd 10 o'r 12 hysbysiad hynny wedi arwain at droseddwr yn cael ei ddyfarnu'n euog o laddiad. Yn achos un hysbysiad, bu farw'r troseddwr cyn ei gael yn euog, ac roedd un yn dal i aros am ganlyniad. Mae'r ffigurau'n seiliedig ar ddata am euogfarnau a gynhyrchwyd ar 30 Medi 2022. Mae'r data'n seiliedig ar y flwyddyn y derbyniodd HMPPS yr hysbysiad o'r SFO ac nid ar ddyddiad yr euogfarn. Cafwyd data o systemau technoleg gwybodaeth weinyddol sydd, fel gyda rhai systemau cofnodi mawr, yn destun gwallau posibl wrth fewnbynnu a phrosesu data. Efallai fod rhai achosion na nodwyd eu bod yn laddiad domestig oherwydd gwybodaeth gyfyngedig am y berthynas rhwng y sawl a gyflawnodd y trosedd a'r dioddefwr.

[5] https://www.womensaid.org.uk/information-support/what-is-domestic-abuse/impact-on-children-and-young-people/#:~:text=One%20in%20seven%20(14.2%25),Women's%20Aid%20Annual%20Survey%202017

[6] Ar 30 Medi 2022. https://data.justice.gov.uk/probation


[7] Gwybodaeth am ddata llwyth achosion a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Prawf.


**Staff y Gwasanaeth Prawf: ystadegau allweddol**[8]


| | |
|---|---|
| **4,464** | Nifer y swyddogion prawf cyfwerth ag amser llawn (FTE) band 4 sydd mewn swydd. Mae hyn yn ostyngiad bach o 26 FTE (0.6 y cant) ers 31 Rhagfyr 2021 |
| **6,209** | Nifer y swyddogion gwasanaethau prawf FTE band 3. Mae hyn yn gynnydd o 470 FTE (8.2) yn ystod y flwyddyn ddiwethaf |
| **1,794** | Prinder swyddogion prawf cyfwerth ag amser llawn mewn swyddi o'i gymharu â'r lefel staffio angenrheidiol o 6,258 (29 y cant), ym mis Rhagfyr 2022 |
| **13.1 y cant** | Cyfradd gadael swyddogion gwasanaethau prawf band 3 ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2022 |
| **7.4 y cant** | Cyfradd y swyddogion prawf band 4 a adawodd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2022 |

## Prif ganfyddiadau

**Mae'r siartiau isod yn dangos prif ganfyddiadau ein gwaith arolygu achosion.**




---

[8] https://www.gov.uk/government/statistics/hm-prison-and-probation-service-workforce-quarterly-december-2022

# Crynodeb gweithredol

## Cyd-destun

Roedd ein harchwiliad diwethaf o gam-drin domestig, a gyhoeddwyd yn 2018, yn ystyried gwaith y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol (CRC) o ran cyflawni gwaith cam-drin domestig, rheoli'r achosion risg isel a chanolig o niwed, a darparu ymyriadau. Ers hynny, mae'r gwasanaethau prawf wedi uno, sy'n golygu mai'r Gwasanaeth Prawf sydd bellach yn gyfrifol am reoli achosion pobl sydd ar brawf ar bob lefel risg, a darparu rhaglenni ac ymyriadau achrededig. Ar ben hynny, mae pandemig Covid-19 wedi effeithio ar arferion prawf ac wedi golygu bod angen modelau darparu eithriadol, a oedd yn addasu disgwyliadau ymarfer mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys lleihau cyswllt wyneb yn wyneb a darparu ymyriadau. Mae prinder staff mewn rhai rhanbarthau prawf wedi arwain at addasiadau parhaus i drefniadau rheoli dedfrydau busnes fel arfer o dan y fframwaith blaenoriaethu coch-oren-gwyrdd ar gyfer rheoli dedfrydau. Mae hyn yn addasu disgwyliadau ymarfer i reoli'r galw, gan gynnwys lleihau lefelau cyswllt ac apwyntiadau wyneb yn wyneb, lle nad oes digon o adnoddau staffio i gyflawni yn unol â'r canllawiau arferol.

Er nad yw drwgweithredwyr cam-drin domestig yn cael eu hystyried yn garfan benodol, mae rhai agweddau ar y fframwaith blaenoriaethu ar gyfer rheoli dedfrydau yn effeithio ar waith cam-drin domestig. Dan statws coch, gellir oedi'r gwaith o ddarparu rhaglenni achrededig a chyfeirio staff at waith rheoli dedfrydau neu waith llys. O dan statws oren, mae'r mesurau a awgrymir yn cynnwys peidio â darparu cyswllt swyddogion diogelwch cam-drin domestig (DASO) ar gyfer achosion newydd, lle bo hynny'n briodol, a gohirio Meithrin Perthnasoedd Gwell (BBR). Ar gyfer unedau darparu prawf (PDUs) a nodir fel rhai coch neu oren, gellir lleihau apwyntiadau wyneb yn wyneb, ac eithrio ar gyfer achosion risg uchel neu uchel iawn, terfysgwyr a gafwyd yn euog, pobl ar brawf na allant ddefnyddio ffôn, yr apwyntiad cyntaf ar gyfer pobl sy'n gadael carchar, y rhai yr aseswyd eu bod yn agored iawn i niwed, a'r rhai a fabwysiadwyd gan y cynllun rheoli troseddwyr integredig. Mae'r fframwaith blaenoriaethu ar gyfer rheoli dedfrydau yn cynnwys rhestr o weithgareddau gorfodol, gan gynnwys defnyddio'r adnodd asesu risg ymosod ar briod (SARA[9]) mewn asesiadau cychwynnol neu asesiadau adolygu.

## Methodoleg

Roedd ein gwaith maes yn archwilio gwaith chwe PDU a chafodd ei gwblhau rhwng mis Rhagfyr 2022 a mis Chwefror 2023, ac yna wythnos arall o waith maes i adolygu trefniadau ar lefel genedlaethol.

Bu i ni archwilio dau sampl yn ystod y gwaith maes; y cyntaf oedd sampl o 60 o achosion a ddechreuodd orchymyn neu drwydded chwech i saith mis cyn ein gwaith maes, gyda throseddwr cam-drin domestig neu â fflag hanes o gam-drin domestig ynghlwm wrth eu cofnod. Ar gyfer yr achosion hyn, roeddem wedi arolygu ansawdd y gwaith rheoli achosion ac wedi cyfweld yr ymarferydd prawf, lle bo hynny'n bosibl. Yn ein hail sampl, roeddem wedi edrych ar 83 o achosion lle cofnodwyd bod y person ar brawf wedi dechrau ymyriad gyda'r nod o atal rhagor o droseddau cam-drin domestig rhwng saith a naw mis cyn ein gwaith maes. Roeddem wedi archwilio a oedd yr ymyriad wedi cael ei gyflawni'n llawn ac a oedd unrhyw resymau dros beidio â'i gwblhau. Yn ystod pob wythnos gwaith maes, fe wnaethom gynnal cyfarfodydd ag amrywiaeth o staff, rheolwyr, uwch arweinwyr a phartneriaid gweithredol a strategol. Buom hefyd yn siarad â nifer fach o ddedfrydwyr a phedair menyw a oedd yn derbyn gwasanaethau DASOs. Yn ystod wythnos olaf ein gwaith maes,

---

Mae'r Asesiad Risg o Ymosodiadau ar Briod (SARA) yn adnodd sgrinio sy'n helpu gweithwyr cyfiawnder troseddol proffesiynol i ragweld y tebygolrwydd o ragor o gam-drin domestig.

fe wnaethom gwrdd â'r rhai sy'n gyfrifol am bolisi a strategaeth cam-drin domestig ar lefel genedlaethol.

Fe wnaethom gomisiynu Llais Defnyddwyr i gynnal cyfweliadau lled-strwythuredig o bell gyda phobl ar brawf. Casglodd ymgynghorwyr gyda phrofiad bywyd o'r system cyfiawnder troseddol farn 55 o unigolion a nodwyd fel rhai a oedd yn cyflawni cam-drin domestig ac a oedd wedi cael eu rheoli gan y Gwasanaeth Prawf. Rydym wedi cynnwys enghreifftiau o'r safbwyntiau a gasglwyd gan bobl ar brawf yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn, ac mae copi o'r adroddiad Llais Defnyddwyr llawn ar gael yma.

Mae dadansoddiad manwl o'n methodoleg ar gael yn Atodiad 2.

### Polisi, strategaeth ac arweinyddiaeth

Ers ein harolygiad diwethaf, cafwyd gwelliannau i arweinyddiaeth gwaith cam-drin domestig ar lefel genedlaethol, ac mae polisïau cliriach ar waith yn awr i arwain y gwaith hwn, er bod lle i wella ymhellach. Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS) wedi cyhoeddi fframwaith polisi cam-drin domestig, sy'n darparu canllawiau cynhwysfawr ar reoli gwaith cam-drin domestig. Fodd bynnag, nid yw'r ddogfen hon yn cael ei defnyddio'n rheolaidd gan staff rheng flaen a rheolwyr. Mae'r Gwasanaeth Prawf wedi'i gynnwys yng Nghynllun Taclo Cam-drin Domestig trosfwaol y llywodraeth (Llywodraeth EF, 2022). Fodd bynnag, nid oes ganddo strategaeth cam-drin domestig benodol o hyd sy'n nodi ei ddull o ymdrin â gwaith cam-drin domestig.

Nod y grŵp cyfeirio cam-drin domestig cenedlaethol (NDARG), a gadeirir gan y cyfarwyddwr prawf rhanbarthol dynodedig sy'n arwain cam-drin domestig, yw sbarduno gwelliannau mewn ymarfer cam-drin domestig. Mae cynrychiolwyr o bob rhanbarth yn bresennol yn y grŵp, sydd fel arfer yn cynnwys pennaeth amddiffyn y cyhoedd a'r uwch arweinwyr polisi ar gyfer cam-drin domestig, arweinwyr grŵp gwella gwasanaeth ymarfer prawf effeithiol (EPSIG), ac uwch staff ymyriadau. Mae'r NDARG yn monitro cynnydd rhanbarthol yn erbyn amrywiaeth o gamau gweithredu, gan gynnwys recriwtio gweinyddwyr ychwanegol i gefnogi'r gwaith o ddarparu ymholiadau cam-drin domestig a gwneud mwy o ddefnydd o'r adnodd SARA.

Mae yna gytundeb rhannu gwybodaeth cenedlaethol (ISA) ar waith rhwng y gwasanaethau prawf a'r heddlu sy'n darparu sail ar gyfer pennu trefniadau lleol. Er bod ysbryd y cytundeb yn gadarnhaol o ran cydnabod pwysigrwydd rhannu gwybodaeth, mae bylchau lle gall heddluoedd wrthod ymholiadau os na all y Gwasanaeth Prawf ganfod unrhyw hanes hysbys o drais. Mae'r rhan fwyaf o heddluoedd yn darparu mwy na'r ddarpariaeth a nodir yn yr ISA cenedlaethol drwy drefniadau y cytunwyd arnynt yn lleol; fodd bynnag, mewn rhai heddluoedd, gan gynnwys y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan, er eu bod yn cydymffurfio â'r ISA, nid yw gwybodaeth bwysig mewn rhai achosion ar gael i staff prawf. Yn ein harchwiliadau PDU yn Llundain, roedd 64 y cant yn hepgor ymholiadau cam-drin domestig fel rhan o'r broses asesu. Rhaid gwneud mwy i sicrhau bod staff prawf bob amser yn gofyn am y wybodaeth angenrheidiol a bod trefniadau ar waith i ddarparu ymatebion cynhwysfawr gan yr heddlu sy'n atal materion cam-drin domestig hysbys rhag aros yn guddiedig oddi wrth ymarferwyr prawf.

Mewn theori, mae ystod dda o ymyriadau cam-drin domestig ar gael i fynd i'r afael â gwahanol lefelau risg ac angen, ac i ddarparu ar gyfer pob un sy'n cyflawni cam-drin domestig drwy waith grŵp neu ddarpariaeth un-i-un. Fodd bynnag, yn ymarferol, ychydig iawn o ymyriadau strwythuredig a phecynnau cymorth i ymarferwyr a welsom, ac nid oes dadansoddiad cynhwysfawr wedi'i gwblhau i ddeall faint o ddarpariaeth y dylid ei disgwyl. Er bod rheolwyr rhaglenni'n monitro'r ddarpariaeth BBR ar lefel ranbarthol, ar lefel genedlaethol, nid yw'r gwaith o oruchwylio'r gwaith o ddarparu'r rhaglen achrededig BBR yn ddigonol. O ganlyniad, nid oeddem yn gallu sefydlu cyfran y bobl sydd â gofyniad i gwblhau BBR sy'n gwneud hynny.

Mewn gormod o leoedd, mae llwyth gwaith ymarferwyr yn rhy uchel. Nodwyd bod dau PDU a arolygwyd gennym yn rhai 'coch' o dan y fframwaith blaenoriaethu ar gyfer rheoli dedfrydau[10], ac roedd un yn 'oren'. Pan nad yw PDUs yn gweithredu o dan drefniadau busnes fel arfer, mae'r canllawiau'n aml yn cyfarwyddo staff i leihau'r gwaith o ddarparu ymyriadau a gweithio mewn partneriaeth, sy'n elfennau hanfodol o waith cam-drin domestig effeithiol. Felly, mae'r mesurau hyn yn cael effaith negyddol ar ansawdd y gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn teimlo eu bod wedi cael digon o hyfforddiant a datblygiad i weithio'n effeithiol gyda chyflawnwyr cam-drin domestig; fodd bynnag, roedd ein gwaith arolygu achosion yn codi pryderon ynghylch dyfnder dealltwriaeth ymarferwyr yn y maes hwn. Ar ben hynny, ychydig o gyfleoedd sydd yn bodoli i staff gymryd rhan mewn hyfforddiant aml-asiantaeth i gael mwy o ymwybyddiaeth o gymhlethdod gwaith cam-drin domestig a deall rolau a chyfrifoldebau asiantaethau eraill.

## Asesu a chynllunio

Mae llawer o'n canfyddiadau yn yr arolygiad hwn yn adlewyrchu'r rheini yn ein rhaglen arolygu graidd ddiweddar. Yn rhy aml, gwelsom asesiadau risg o ansawdd gwael yn ymwneud â cham-drin domestig nad oedd yn cynnwys manylion hanfodol neu'n methu â darparu dadansoddiad digonol o'r achos. Ni wnaed digon o ddefnydd o wybodaeth gan asiantaethau eraill nac asesiadau prawf blaenorol, er y nodwyd bod dros hanner ein sampl mewn perygl o ddioddef cam-drin domestig am fwy na phedair blynedd. Daethom i'r casgliad mai dim ond 28 y cant o'r asesiadau yn ein sampl oedd yn darparu dadansoddiad digon clir a thrylwyr o risgiau cam-drin domestig. Er bod nifer yr achosion o gwblhau SARA wedi cynyddu, yn aml nid oedd ganddynt ddadansoddiad digonol i ddarparu asesiad ystyrlon o'r tebygolrwydd o ragor o ymddygiad camdriniol yn y cartref. Nid yw ymarferwyr prawf yn gwerthfawrogi'r adnodd, ac oherwydd ei fod y tu allan i'r system asesu troseddwyr sylfaenol (OASys), nid yw'n cael ei ystyried yn flaenoriaeth. Ac eto, mae SARA yn ffactor dylanwadol allweddol o ran mynediad at ymyriadau cam-drin domestig; os na chaiff ei gwblhau'n gywir, gall arwain at atgyfeiriadau ymyrryd amhriodol.

Dim ond mewn hanner yr achosion trwydded a arolygwyd gennym yr oedd gwaith cyn-rhyddhau i fynd i'r afael â materion cam-drin domestig yn ddigonol. Mewn dwy ran o dair o'r achosion, roedd amodau trwydded priodol ar waith i reoli risgiau cam-drin domestig. Mewn bron i dri chwarter o'r achosion lle'r oedd angen gwneud hynny, roedd y cynllunio'n nodi cyfyngiadau a mesurau i amddiffyn dioddefwyr, fel gorchmynion atal; fodd bynnag, roedd gweithgareddau adeiladol i fynd i'r afael â cham-drin domestig yn cael eu cynnwys yn llai aml. Roedd y cynllunio wrth gefn yn ddigonol mewn llai na hanner yr achosion a arolygwyd gennym. Yn gyffredinol, daethom i'r casgliad mai dim ond mewn 37 y cant o'r achosion yr oedd cynllunio'n mynd i'r afael yn ddigonol â risgiau cam-drin domestig.

Mae gwaith rheoli dedfrydau o ansawdd uchel yn dibynnu ar rannu gwybodaeth yn effeithiol ag asiantaethau eraill, fel yr heddlu a gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant. Yn anffodus, mewn gormod o achosion lle'r oedd angen gwneud hynny, ni fu rhannu gwybodaeth yn briodol gydag asiantaethau eraill a oedd yn ymwneud â rheoli risgiau cam-drin domestig. Er hynny, mae rhai ardaloedd prawf wedi datblygu trefniadau da gyda heddluoedd lleol, gan ganiatáu iddynt dderbyn gwybodaeth ddyddiol am ddigwyddiadau neu arestiadau mewn perthynas â phobl yn eu baich achosion, a oedd yn caniatáu i ymarferwyr wneud penderfyniadau gwybodus am reoli achosion.

## Cyflawni dedfrydau ac ymyriadau

Roedd prinder staff sylweddol mewn rhai Unedau PDU; mewn un PDU, nid oedd ganddynt ond hanner y staff graddfa ymarferwyr y dylent ei gael. O ganlyniad, roedd trefniadau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ar waith i reoli adnoddau, ond roedd y rhain yn cael effaith negyddol ar

[10] Mae'r fframwaith blaenoriaethu ar gyfer rheoli dedfrydau yn fecanwaith sy'n priodoli gradd coch-oren-wyrdd i PDU yn seiliedig ar lefelau staffio a llwyth gwaith.

ansawdd rheoli dedfrydau. Er enghraifft, roedd pobl ar brawf yn cael eu gweld yn rhy anaml, ac roedd gormod o apwyntiadau'n cynnig dim ymyriad ystyrlon i leihau'r risg o ragor o gam-drin domestig. Yn gyffredinol, daethom i'r casgliad mai dim ond mewn 27 y cant o'r achosion a arolygwyd gennym yr oedd gweithredu a chyflawni dedfrydau'n rheoli risgiau cam-drin domestig yn effeithiol. Nid oedd digon o ymholiadau wedi'u gwneud gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol plant a'r heddlu i oleuo'r gwaith o reoli dedfrydau, gan arwain at fylchau yng ngwybodaeth yr ymarferydd am y risgiau yn yr achos. Mewn achosion lle'r oedd gwybodaeth wedi'i chasglu, ni chafodd ei dadansoddi na'i defnyddio'n ddigonol i lywio'r gwaith o reoli achosion. Nid oedd llawer o ymarferwyr prawf yn gwybod llawer am wasanaethau cam-drin domestig arbenigol a allai eu cefnogi yn eu gwaith. Roedd adolygiadau o achosion yn aml yn methu mynd i'r afael â newidiadau mewn ffactorau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig neu wneud addasiadau i waith sy'n mynd rhagddo. Mewn dros hanner yr achosion lle'r oedd angen hynny, nid oedd gwybodaeth wedi'i chasglu gan asiantaethau eraill i lywio'r gwaith adolygu. Yn gyffredinol, fe wnaethom asesu bod yr adolygiad yn canolbwyntio'n ddigonol ar risgiau cam-drin domestig mewn dim ond 23 y cant o'r achosion.

Er gwaethaf ein pryderon am ansawdd cyffredinol yr ymarfer sy'n ymwneud â cham-drin domestig, gwelsom rai enghreifftiau o ymarfer da. Pan oedd timau amlddisgyblaethol arbenigol ar waith, roedd hyn yn galluogi ymarferwyr i gydweithio â'r heddlu a gwasanaethau eraill. Dangosodd ymarferwyr yn y timau hyn ddealltwriaeth well o gymhlethdod cam-drin domestig. Gan fod ganddynt lwyth achosion llai fel arfer, roedd ganddynt yr amser i weithio'n fwy effeithiol gyda phobl ar brawf. Mae gwaith ar y cyd â sefydliadau arbenigol eraill, megis drwy'r prosiect Drive, hefyd wedi arwain at waith effeithiol i leihau cam-drin domestig.

Roedd yr ymarfer ynghylch datgelu gwybodaeth am gam-drin domestig i bartneriaid newydd, pan ddechreuai troseddwr berthynas newydd, yn amrywio'n sylweddol, ac mewn rhai achosion fe wnaethom ei asesu i gynyddu'r risgiau. Lle na wnaed penderfyniadau fel rhan o gyfarfodydd aml-asiantaeth neu drwy'r cynllun datgelu trais domestig (a elwir yn aml yn Gyfraith Clare), ni welsom unrhyw dystiolaeth o ddull systematig o ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â datgeliadau. Nid oedd y canllawiau cenedlaethol a oedd ar waith ar y pryd yn ddigon i gefnogi penderfyniadau neu ddarpariaeth yn ddigonol. Mynegodd ymarferwyr amrywiaeth o safbwyntiau am ddatgelu, gyda rhai yn nodi'n glir nad oeddent yn teimlo ei fod yn rhan o'u rôl, ac eraill yn dweud wrthym eu bod yn rhoi gwybodaeth yn rheolaidd i bartneriaid newydd troseddwyr heb ymgynghori â rheolwyr am gynnwys y wybodaeth hon na sut y gellid ei rhannu'n ddiogel. Pan roedd staff prawf yn gwneud datgeliadau, ni welsom lawer o dystiolaeth bod ystyriaeth wedi'i rhoi i fregusrwydd posibl y sawl a oedd yn derbyn y wybodaeth, nac unrhyw ymdrech i ymgysylltu â'r gwasanaethau a allai eu cefnogi.

Mae cyfleoedd i gefnogi dioddefwyr yn cael eu colli weithiau drwy atgyfeiriadau hwyr i'r gwasanaeth DASO neu fethu â chysylltu ag ymgynghorwyr trais domestig annibynnol (IDVAs). Mae'r gwasanaeth DASO yn cynnig cymorth gwerthfawr i ddioddefwyr a phartneriaid pobl ar brawf sy'n cwblhau BBR ac ymyriadau gwaith grŵp cam-drin domestig eraill. Mae'r llawlyfrau canllaw ar gyfer y gwasanaeth yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd gan eu bod wedi dyddio'n sylweddol, ac mae hyn wedi arwain at ddarpariaeth amrywiol o'r cynllun ledled y wlad a'r angen i roi dull gweithredu mwy cyson ar waith.

# Argymhellion

**Dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF wneud y canlynol:**

1. cyhoeddi strategaeth cam-drin domestig ar gyfer y Gwasanaeth Prawf ac adolygu'r cynnydd yn ei erbyn yn rheolaidd. Dylai'r strategaeth gael ei hysbysu ar sail rhywedd a diwylliant, a sicrhau bod llais y dioddefwr yn cael ei ystyried yn llawn a bod arweinwyr y gwasanaeth prawf yn cymryd rhan lawn mewn ymatebion aml-asiantaeth lleol i gam-drin domestig

2. sicrhau bod pawb sydd ar brawf sydd angen ymyriad yn cael un yn brydlon a chofnodi'n glir unrhyw sail resymegol dros beidio â chyflawni os bydd cynlluniau'n newid, monitro'r gwaith o gyflawni pob ymyriad, a dadansoddi cyfraddau gadael a diffygion yn erbyn yr angen posibl

3. sicrhau bod yr holl ddioddefwyr gwirioneddol a darpar ddioddefwyr cam-drin domestig yn y dyfodol yn cael eu nodi'n gywir, a gweithio gydag asiantaethau eraill, fel yr heddlu, gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant, a gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol, i sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu hamddiffyn a'u hysbysu ym mhob cam o'r broses rheoli dedfrydau

4. sicrhau bod yr holl ymarferwyr a rheolwyr prawf yn gyfarwydd â'r fframwaith polisi cam-drin domestig ac yn gweithio'n unol ag ef

5. sicrhau bod penderfyniadau a wneir o dan y fframwaith blaenoriaethu ar gyfer rheoli dedfrydau ar gyfer statws coch neu oren yn cynnal gwaith partneriaeth a chyflawni ymyriadau i amddiffyn dioddefwyr cam-drin domestig

6. datblygu system gynhwysfawr i reoli ceisiadau am ddatgelu ymddygiad cyflawnwyr yn y gorffennol i bartneriaid newydd mewn perthynas â cham-drin domestig, gan gynnwys gwneud penderfyniadau, darparu a chofnodi, drwy lwybr sy'n darparu cymorth a diogelwch priodol i'r rheini sy'n derbyn gwybodaeth

7. adolygu ei gytundeb rhannu gwybodaeth cenedlaethol gyda Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu, i sicrhau ei fod yn cau'r bwlch presennol sy'n caniatáu i heddluoedd wrthod ymholiadau gan staff prawf am wybodaeth am ddigwyddiadau cam-drin domestig (er enghraifft, galwadau i'r heddlu yn y gorffennol) sy'n ymwneud â pherson dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf

8. sicrhau bod pob DASO wedi'u harfogi'n llawn ar gyfer eu rôl a'u bod wedi'u hyfforddi i safon uchel, gan ddefnyddio hyfforddiant rhyng-asiantaeth a gydnabyddir yn genedlaethol.

**Dylai'r Gwasanaeth Prawf:**

9. gymryd rhan mewn hyfforddiant aml-asiantaeth lleol a digwyddiadau codi ymwybyddiaeth gydag asiantaethau partner. Dylai hyn gefnogi ymarferwyr a rheolwyr prawf i ddatblygu eu dealltwriaeth o gymhlethdod cam-drin domestig, rolau asiantaethau eraill sy'n gallu cynnig cymorth a gwybodaeth wrth reoli achosion cam-drin domestig, a'r newidiadau a gyflwynwyd o dan *Ddeddf Cam-drin Domestig 2021*, sy'n cydnabod plant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt fel dioddefwyr

10. sicrhau bod cyfnewid gwybodaeth yn amserol ac yn gywir yn cael ei gefnogi drwy gytundebau lleol, a rheoli perthynas weithredol gyda'r heddlu, gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant, gwasanaethau i gyflawnwyr, gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol, a sefydliadau perthnasol eraill

11. sicrhau bod pob ymarferwr yn cwblhau asesiadau ac adolygiadau o ansawdd uchel mewn achosion cam-drin domestig sy'n dadansoddi gwybodaeth yn llawn o adnoddau asesu arbenigol, fel yr asesiad risg ymosod ar briod (SARA), a'r holl wybodaeth sydd ar gael gan asiantaethau eraill

12. sicrhau bod darparu dedfrydau ym mhob achos perthnasol o gam-drin domestig yn cynnwys rôl weithredol mewn fforymau amlasiantaethol ac yn defnyddio gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol i sicrhau bod llais y dioddefwr yn cael ei ystyried yn llawn

13. sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau timau rheoli dedfrydau a rhaglenni, gan gynnwys swyddogion diogelwch cam-drin domestig, yn glir. Dylai hyn gynnwys y cyfrifoldeb i baratoi pobl ar brawf i fynychu rhaglenni, i rannu gwybodaeth ac i gefnogi'r gwaith o reoli risg drwy gydol y broses o gyflawni dedfrydau.

# 1. Cyflwyniad

## 1.1. Pam y thematig hwn?

Mae cam-drin domestig yn gyffredin. Mae Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn amcangyfrif bod 1.7 miliwn o fenywod a 699,000 o ddynion dros 16 oed wedi dioddef cam-drin domestig yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022.[11] Mae SafeLives[12] yn adrodd bod tua 4.6 miliwn o fenywod (28 y cant o'r boblogaeth oedolion) wedi dioddef cam-drin domestig ar ryw adeg ers eu bod yn 16 oed. Mewn tua 40 y cant o achosion a arolygwyd gan Arolygiaeth Prawf EM yn ein rhaglen arolygu graidd yn 2022 a 2023 (1,248), roedd pryder bod y person ar brawf yn cyflawni cam-drin domestig..

Roedd ein harolygiad diwethaf o gam-drin domestig (Arolygiaeth Prawf EF, 2018) yn ystyried gwaith CRCs o ran cyflawni gwaith cam-drin domestig a rheoli achosion risg isel a chanolig o niwed. Nodwyd nifer o bryderon. Yn 2021, unodd y gwasanaethau prawf, sy'n golygu bod rheoli achosion pobl ar brawf ar bob lefel risg, a darparu rhaglenni ac ymyriadau achrededig, nawr yn nwylo'r Gwasanaeth Prawf. Fel rhan o'r broses uno, mae ymyriadau newydd, gan gynnwys pecynnau cymorth i'w darparu gan ymarferwyr prawf, wedi cael eu cyflwyno.

Mae ein canfyddiadau cyffredinol mewn arolygiadau PDU hefyd wedi codi pryderon ynghylch ansawdd asesu a rheoli risg, a diffyg darpariaeth dedfrydau effeithiol i gadw pobl yn ddiogel. Roedd yr arolygiad hwn yn caniatáu i ni archwilio'r Gwasanaeth Prawf unedig ac asesu'r cynnydd a wnaed ers 2018 mewn perthynas â gwaith cam-drin domestig.

## 1.2. Cefndir

Roedd *Deddf Cam-drin Domestig 2021* yn darparu diffiniad wedi'i ddiweddaru o gam-drin domestig fel a ganlyn:

Mae ymddygiad person ('A') tuag at berson arall ('B') yn 'gam-drin domestig' os:

a) yw A a B yn 16 oed neu hŷn ac â chysylltiad personol[13] â'i gilydd, ac
b) mae'r ymddygiad yn gamdriniol.

---

[11] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2022) https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/domesticabuseinenglandandwalesoverview/november2022

[12] Elusen ledled y DU sy'n ymroddedig i roi diwedd ar gam-drin domestig. https://safelives.org.uk/policy-evidence/about-domestic-abuse#facts%20and%20stats

[13] At ddibenion y Ddeddf hon, mae dau berson â 'chysylltiad personol' â'i gilydd os yw unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol:
(a) maent yn briod, neu wedi bod yn briod;
(b) maent yn bartneriaid sifil, neu wedi bod yn bartneriaid sifil;
(c) maent wedi cytuno i briodi (p'un a yw'r cytundeb wedi'i derfynu ai peidio);
(d) maent wedi ymrwymo i gytundeb partneriaeth sifil (p'un a yw'r cytundeb wedi'i derfynu ai peidio);
(e) maent mewn perthynas bersonol agos, neu maent wedi bod mewn perthynas bersonol agos â'i gilydd;
(f) mae ganddynt, neu roedd adeg pryd roedd ganddynt, berthynas rhiant yn gysylltiedig â'r un plentyn (gweler is-adran (2));
(g) maent yn perthyn.

Mae ymddygiad yn 'gamdriniol' os yw'n cynnwys unrhyw un o'r canlynol:

a) camdriniaeth gorfforol neu rywiol;
b) ymddygiad treisgar neu fygythiol;
c) ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi;
d) cam-drin economaidd; neu
e) gamdriniaeth seicolegol, emosiynol neu arall.

Nid yw'n gwneud gwahaniaeth a yw'r ymddygiad yn cynnwys un digwyddiad neu ymddygiad.

## Ystadegau allweddol

Mae cam-drin domestig yn aml yn drosedd cudd nad yw'n cael ei riportio i'r heddlu. Felly, dim ond darlun rhannol o wir lefel y cam-drin domestig y gall data a gedwir gan yr heddlu ei ddarparu.

Fodd bynnag, roedd nifer y troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu sy'n ymwneud â cham-drin domestig yng Nghymru a Lloegr yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022 wedi codi 7.7 y cant, i 910,980.[14] Mae hyn yn dilyn y cynnydd a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol ac efallai ei fod yn adlewyrchu gwell cofnodi gan yr heddlu, ochr yn ochr â mwy o riportio gan ddioddefwyr.

Cofnodwyd 134 o laddiadau domestig gan yr heddlu yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022. Mae hyn yn cynrychioli 19 y cant o'r holl laddiadau lle'r oedd y dioddefwr yn 16 oed a hŷn yn ystod y cyfnod hwn. O'r 134 dynladdiad domestig, cafodd 78 o ddioddefwyr eu lladd gan bartner neu gyn-bartner, cafodd 40 eu lladd gan riant, mab neu ferch, a chafodd 16 eu lladd gan aelod arall o'r teulu. Cafodd bron i hanner (46 y cant) yr holl ferched a laddwyd eu lladd mewn lladdiadau domestig. O'r 84 o ddioddefwyr benywaidd, cafodd 81 eu lladd gan ddyn dan amheuaeth.[15]

## Arolygiadau blaenorol ac adolygiadau annibynnol

Roedd ein harolygiad diwethaf ar y pwnc hwn (Arolygiaeth Prawf EF, 2018) yn edrych ar waith y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, a oedd yn gyfrifol am ddarparu ymyriadau cam-drin domestig a rheoli unigolion risg isel a chanolig. Canfu'r arolygiad nad oedd gwaith cam-drin domestig yn agos at fod yn ddigon da, gyda gwaith annigonol yn cael ei wneud gyda phobl a nodwyd fel rhai a oedd yn cyflawni cam-drin domestig, gan adael dioddefwyr mewn perygl o niwed pellach. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at bryderon nad oedd yr holl ymyriadau yn seiliedig ar dystiolaeth ac nad oedd digon o unigolion yn cwblhau rhaglen achrededig BBR. Roedd llwyth gwaith ymarferwyr prawf hefyd yn broblemus ac roedd gormod o staff yn rheoli achosion cymhleth heb y wybodaeth a'r profiad i wneud hynny'n effeithiol. Roedd arolygiadau ardal wedi'u targedu ar y cyd o'r ymateb amlasiantaeth i ddiogelu plant sy'n byw gyda cham-drin domestig yn dangos nad oedd gwasanaethau prawf bob amser yn cyfrannu'n effeithiol at brosesau diogelu plant; roedd oedi, sylweddol ar adegau, o ran dyddiadau dechrau BBR; nid oedd staff yn cael eu grymuso i reoli achosion cam-drin domestig; ac nid oedd digon yn cael ei wneud gan y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol i amddiffyn dioddefwyr. Ar ben hynny, gwelodd arolygwyr wahaniaethau sylweddol o ran pa mor dda roedd y systemau hyn yn gweithio mewn gwahanol ardaloedd awdurdod lleol (Ofsted et al., 2017).

Roedd ein harchwiliad o'r defnydd o fonitro electronig gan y Gwasanaeth Prawf yn 2022 (Arolygiaeth Prawf EF, 2022) yn tynnu sylw at bryderon nad oedd gwiriadau cam-drin domestig a diogelu bob amser yn cael eu gwneud cyn argymell dedfryd neu ryddhau ar gyrffyw sy'n cael ei

---

[14] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2022) https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/domesticabuseprevalenceandtrendsenglandandwales/yearendingmarch2022#crime-survey-for-england-and-wales

[15] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2022) https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/homicideinenglandandwales/march2022#the-relationship-between-victims-and-suspects

fonitro'n electronig, ac yn galw am newidiadau i'r arfer hwn, er mwyn sicrhau na allai hyn ddigwydd mwyach.

Yn ein rhaglen arolygu graidd, rydym yn ystyried ansawdd y gwaith a wneir gan Unedau PDU, ac mae nifer fawr o'r achosion rydym yn eu harolygu yn cynnwys pryderon am gam-drin domestig. Drwy'r rhaglen hon, rydym wedi gwneud argymhellion yn rheolaidd, gan alw am welliannau o ran ansawdd asesu a rheoli risgiau.

Yn dilyn ein hadolygiad thematig o adolygiadau o Droseddau Difrifol Pellach (SFO) ym mis Mai 2020 (Arolygiaeth Prawf EF, 2020), gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder blaenorol i ni ymgymryd â phroses sicrhau ansawdd newydd. Ers mis Ebrill 2021, rydym wedi bod yn gyfrifol am archwilio a sgorio ansawdd sampl o 20 y cant o'r holl adolygiadau Troseddau Difrifol Pellach a gynhaliwyd gan y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru a Lloegr. Rhwng mis Ebrill 2022 a mis Chwefror 2023, roedd 49 o'r 73 adolygiad rydym wedi'u sicrhau o ran ansawdd yn ymwneud â throseddwr sydd â risg benodol o gam-drin domestig. Canfu ein hadolygiad annibynnol o SFO o achos Damien Bendall, a gafwyd yn euog o lofruddio ei bartner a'i dri phlentyn, a gyhoeddwyd yn 2023 (Arolygiaeth Prawf EF, 2023), fod asesiadau anghywir wedi cael eu gwneud ynghylch y risgiau a berid gan Mr Bendall mewn lleoliad domestig, a gwnaeth argymhellion pellach gyda'r nod o wella'r gwaith o asesu a rheoli risgiau cam-drin domestig. Argymhellodd hefyd y dylid gwneud ymholiadau domestig gorfodol gyda'r heddlu cyn y gellir rhoi unrhyw orchymyn cyrffyw yn y llys neu cyn unrhyw ryddhau o'r ddalfa ar gyrffyw cadw yn y cartref. Yn yr adolygiad hwn, dywedodd y Prif Arolygydd:

**'Mae hwn yn achos sy'n peri pryder mawr ac sy'n codi materion difrifol sy'n ymwneud ag asesu a rheoli risg y Gwasanaeth Prawf o niwed. Mae hwn yn bwnc sydd wedi bod yn destun pryder i ni dro ar ôl tro yn ein harolygiadau lleol ac rwyf wedi gwneud sylwadau arno yn fy adroddiadau blynyddol ac mewn perthynas â SFOau eraill, gan gynnwys un Joseph McCann, y gwnaethom adrodd arnynt yn 2020.'**

Roeddem hefyd wedi nodi pryderon ynghylch sut roedd risgiau i blant yn cael eu hasesu ac wedi gwneud yr argymhellion canlynol y dylai'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf:

- gynnwys adran benodol yn OASys sy'n ymwneud yn benodol ag asesu a chynllunio ar gyfer diogelwch plant, a sicrhau bod natur cyswllt ac effaith y person ar brawf ar fywyd y plentyn wedi cael eu hystyried mewn perthynas â phlant ym mywyd y person heddiw ac yn y dyfodol
- sicrhau bod yr effaith ar ddiogelwch a lles plant yn cael ei hystyried yn ddigonol ym mhob achos.

Cytunodd y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf â'r holl argymhellion a wnaed yn yr adolygiad hwn.

## 1.3. Ymyriadau

Mae'r Gwasanaeth Prawf yn darparu tri math o ymyriad: rhaglenni achredededig, ymyriadau strwythuredig, a phecynnau cymorth i ymarferwyr. Mae'r panel cyngor ac achredu gwasanaethau cywirol (CSAAP) wedi adolygu rhaglenni achredededig. Maen nhw'n rhaglenni gwaith grŵp dwysedd uwch. Mae ymyriadau strwythuredig yn fyrrach na rhaglenni achredededig, ac wedi'u hanelu at y rheini sydd â dosbarthiad risg is; maent hefyd yn cael eu darparu fel arfer drwy sesiynau gwaith grŵp. Gwneir penderfyniadau ynghylch cynigion priodol mewn adroddiadau i'r llys neu gynlluniau dedfryd cychwynnol ar sail y risgiau a aseswyd ar gyfer y person ar brawf a pha mor addas ydynt ar gyfer gwahanol ddulliau o ddarparu. Yn olaf, mae pecynnau cymorth i ymarferwyr wedi'u cynllunio i'w defnyddio gan ymarferwyr prawf ar sail un-i-un. Felly, maent yn fwy hyblyg ac mae modd eu haddasu i gyd-fynd ag anghenion unigol y person sydd ar brawf. Mae'r holl ymyriadau cam-drin domestig yn rhannu'r un sylfaen dystiolaeth ac mae ganddynt ddulliau cyflenwi ategol, sy'n golygu y dylai'r newid fod yn llyfn os oes rhaid i rywun symud o un i'r llall.

### Rhaglenni Achredededig

Yr unig raglen achrededig a gyflwynir yn y gymuned sydd wedi'i hanelu'n benodol at gam-drin domestig yw Meithrin Perthnasoedd Gwell (BBR). Mae hyn yn addas ar gyfer dynion a gafwyd yn euog o drais personol yn erbyn partner benywaidd sy'n peri risg ganolig neu uchel o droseddau tebyg pellach, fel yr aseswyd gan SARA. Fe'i cyflwynir drwy sesiwn 24 gwaith grŵp a phum sesiwn unigol. Yn ystod pandemig Covid-19, defnyddiwyd fformatau darparu gwahanol – er enghraifft, er mwyn gallu darpariaeth un-i-un – ac mae'r rhain yn dal i gael eu defnyddio mewn rhai achosion, i gefnogi'r ddarpariaeth ac i ddiwallu anghenion penodol rhai pobl ar brawf, gan eu galluogi i gwblhau'r rhaglen pan na fyddai'n bosibl o dan y trefniadau gwaith grŵp safonol. Er mwyn i raglen gael ei hachredu i'w defnyddio gan y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, rhaid iddi gael ei chymeradwyo gan y Panel, sy'n adolygu dyluniad rhaglenni, gweithdrefnau a chanfyddiadau sicrhau ansawdd, a gwerthusiadau rhaglenni. Er mwyn parhau i gael achrediad i'w ddefnyddio, rhaid i'r panel adolygu'r rhaglenni yn gyfnodol; ar gyfer BBR, rhoddwyd estyniad i'r achrediad ym mis Tachwedd 2022. Nid yw HMMPS wedi cwblhau gwerthusiad o ganlyniadau BBR o hyd, ac nid oes ganddo unrhyw gynlluniau i wneud hynny.

Fel y nodwyd yn 2018 (Arolygiaeth Prawf EF, 2018), mae'n anodd asesu effeithiolrwydd ymyriadau i leihau cam-drin domestig. Mae mesur effaith ymyriadau'n gymhleth, yn bennaf oherwydd natur gudd cam-drin domestig, ac nid yw bob amser yn arwain at ddigwyddiadau'n cael eu riportio neu ddrwgweithredwyr yn datgelu eu gweithredoedd. Mae Renehan (2020) yn crynhoi:

**'Mewn gair, nid ydym yn gwybod eto beth sy'n gweithio, i bwy, ac o dan ba amgylchiadau. O ganlyniad, yn anffodus, mae effeithiolrwydd rhaglenni gwirfoddol a statudol achrededig yn dal yn ansicr.'**

Mae astudiaethau sy'n canolbwyntio ar gyflwyno BBR wedi tynnu sylw at bryderon ynghylch gallu'r rheini sy'n cyflwyno'r rhaglen i reoli'r datgeliadau trawmatig weithiau, sy'n sail i'w troseddu, y gall dynion eu gwneud yn y grŵp. Mae Renehan (2020) yn ofni y gallai BBR:

**'...ddysgu dynion i reoli eu hemosiynau yn hytrach na'u deall yn llawn.'**

Canfu Hughes (2017) hefyd efallai na fydd effeithiolrwydd y BBR yn cael ei wireddu'n llawn, oherwydd:

**'Er bod BBR yn cynnwys llawer o elfennau therapiwtig, mae ei natur strwythuredig yn gallu tynnu sylw oddi wrth ddatblygu ymarfer staff medrus.'**

## 1.4. Nodau ac amcanion

Yn ogystal â mynd ar drywydd y cynnydd a wnaed ar argymhellion arolygiadau ac adolygiadau blaenorol, ceisiodd yr arolygiad hwn ateb y cwestiynau canlynol:

- A yw'r arweinwyr yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r gwaith o ddarparu gwasanaeth ymatebol, personol o ansawdd uchel i'r holl gyflawnwyr a dioddefwyr cam-drin domestig?
- A yw staff y Gwasanaeth Prawf wedi'u grymuso i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'r holl gyflawnwyr a dioddefwyr cam-drin domestig?
- A oes ystod gynhwysfawr o wasanaethau ac ymyriadau ar waith i ymgymryd â gwaith gydag achosion cam-drin domestig?
- Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cefnogi ymatal rhag ymddygiad cam-drin domestig?
- Sut mae dioddefwyr a'u plant yn cael eu cefnogi a'u hamddiffyn?
- A yw trefniadau â phartneriaid statudol, darparwyr ac asiantaethau eraill yn cael eu sefydlu, eu cynnal a'u defnyddio'n effeithiol i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel?

## 1.5. Amlinelliad o'r adroddiad

| Pennod | Cynnwys |
|---|---|
| 2. Polisi, strategaeth ac arweinyddiaeth | Mae'r bennod hon yn ystyried y trefniadau arwain a llywodraethu cenedlaethol sy'n goruchwylio gwaith cam-drin domestig yn y Gwasanaeth Prawf, gan gynnwys darparu a goruchwylio ymyriadau cam-drin domestig sydd ar gael i bobl ar brawf. Mae'n disgrifio sut mae gwaith cam-drin domestig yn cael ei yrru'n rhanbarthol ac o fewn PDUs. Yn olaf, mae'n adrodd ar y trefniadau hyfforddi a chefnogi cam-drin domestig ar gyfer staff prawf. |
| 3. Asesu a chynllunio | Mae'r bennod hon yn adrodd ar waith y Gwasanaeth Prawf o ran darparu cyngor i'r llys i gefnogi dedfrydu, ansawdd gwaith cyn-rhyddhau, a chynllunio ar gyfer rhyddhau pobl sy'n cwblhau dedfrydau o garchar. Nesaf, mae'n disgrifio ansawdd asesiadau a chynlluniau ar gyfer unigolion sy'n cyflawni cam-drin domestig, ac effeithiolrwydd rhannu gwybodaeth gydag asiantaethau eraill. |
| 4. Cyflawni dedfrydau ac ymyriadau | Mae'r bennod hon yn ystyried pa mor effeithiol y mae dedfrydau'n cael eu cyflawni, gan gynnwys barn pobl ar brawf am eu profiadau a'r gwaith o ddarparu ymyriadau. Mae'n adrodd ar ein canfyddiadau ynghylch gorfodi dedfrydau pan nad yw pobl ar brawf yn cydymffurfio a pha mor dda y cwblheir y gwaith o adolygu gweithgarwch. Mae hefyd yn disgrifio sut y mae'r Gwasanaeth Prawf yn cefnogi dioddefwyr cam-drin domestig. |

# 2. Polisi, strategaeth ac arweinyddiaeth

Yn y bennod hon rydym yn adrodd ar y trefniadau arwain a llywodraethu cenedlaethol sy'n goruchwylio gwaith cam-drin domestig yn y Gwasanaeth Prawf, gan gynnwys darparu a goruchwylio ymyriadau cam-drin domestig sydd ar gael i bobl ar brawf. Rydym yn ystyried sut mae gwaith cam-drin domestig yn cael ei yrru'n rhanbarthol ac o fewn PDUs. Yn olaf, rydym yn edrych ar y trefniadau hyfforddi a chefnogi sydd wedi'u hanelu at arfogi staff prawf i weithio gyda cham-drin domestig.

## 2.1. Polisi a strategaeth

Yn ein harolwg o gam-drin domestig yn 2018 (Arolygiaeth Prawf EF, 2018), roeddem yn bryderus nad oedd gan y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf strategaeth gyffredinol i sbarduno gwaith cam-drin domestig. Fe wnaethom argymell y dylai nodi a lledaenu llwybr effeithiol ac integredig ar gyfer gweithio gyda cham-drin domestig sy'n ystyried yr ystod lawn o gyd-destunau cam-drin domestig a'r angen i amddiffyn dioddefwyr a phlant. Ers hynny, mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi'r Cynllun Taclo Cam-drin Domestig (Llywodraeth EF, 2022), sy'n cynnwys rhai cyfeiriadau lefel uchel at waith prawf. Fodd bynnag, nid oes strategaeth cam-drin domestig sy'n benodol i'r Gwasanaeth Prawf o hyd y gellir mesur cynnydd yn ei herbyn. Ym mis Mawrth 2020, lansiodd HMPPS y fframwaith polisi cam-drin domestig.[16] Mae'r ddogfen hon yn nodi disgwyliadau'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ac yn darparu canllawiau cynhwysfawr ar bob agwedd ar reoli gwaith cam-drin domestig. Fodd bynnag, nid yw'r ddogfen hon wedi cyrraedd yr holl staff angenrheidiol, ac, yn siomedig, yn ystod ein gwaith maes, gwelsom nad oedd llawer o ymarferwyr, rhai rheolwyr a hyd yn oed rai uwch arweinwyr yn ymwybodol o'r fframwaith polisi ac nad oeddent yn ei ddefnyddio'n rheolaidd i lywio eu gwaith.

O fewn grŵp diogelu'r cyhoedd y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, mae'r tîm risg a cham-drin domestig yn canolbwyntio ar bolisi cam-drin domestig a sut mae hyn yn cael ei roi ar waith mewn timau gweithredol. Mae hefyd yn sicrhau bod cysylltiadau priodol yn bodoli rhwng cam-drin domestig a meysydd polisi eraill, fel troseddu rhywiol a Threfniadau Amlasiantaeth ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA). Mae'r tîm hwn hefyd wedi cyfrannu at ddatblygu hyfforddiant wedi'i ddiweddaru ar gam-drin domestig. Mae'n gweithio'n agos gyda'r tîm OASys cenedlaethol, a gyda'i gilydd maent wedi darparu arweiniad ar ymgorffori ffactorau risg o SARA i asesiadau OASys. Yn ein hadolygiad annibynnol o achos Damien Benall (Arolygiaeth Prawf EF, 2023), gwnaethom argymell bod y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yn gwella asesiadau risg, er mwyn sicrhau bod diogelwch a lles plant yn cael eu hystyried yn llawn. Mewn ymateb, mae newidiadau'n cael eu gwneud i'r asesiad OASys, i gefnogi'r gwaith hwn ac i hyrwyddo ystyriaeth lawnach o'r effaith ar blant. Fodd bynnag, mae ein harolygiadau achos yn dangos bod angen i ymarferwyr a rheolwyr prawf ddatblygu'r maes ymarfer hwn ymhellach, er mwyn sicrhau bod effaith cam-drin domestig ar blant yn cael ei hystyried yn llawn bob amser.

**Rhannu gwybodaeth**

Mae Cynllun Taclo Cam-drin Domestig y llywodraeth yn nodi bod angen mwy o gydweithio a chydlynu rhwng sefydliadau ac o fewn sefydliadau oherwydd:

**'Mae ymchwil wedi dangos bod hyn yn hanfodol er mwyn lleihau nifer yr achosion o gam-drin domestig. Pan nad yw sefydliadau'n cydweithio ac yn cydlynu'n fewnol ac yn allanol, collir cyfleoedd i adnabod dioddefwyr a goroeswyr a chyflawnwyr yn gynt. Mae**

[16] Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF. (2022).Fframwaith Polisi Cam-drin Domestig. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1106675/domestic-abuse-pf.pdf.

**hyn hefyd yn helpu i leihau cam-drin. Hefyd, mae rhannu gwybodaeth hanfodol am ddioddefwyr a goroeswyr yn gallu helpu i deilwra a gwella'r cymorth maen nhw'n ei gael.'**

I gefnogi'r llif gwybodaeth rhwng yr heddlu a'r gwasanaethau prawf, mae ISA cenedlaethol[17] wedi'i negodi rhwng y Gwasanaeth Prawf a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu sy'n darparu sail ar gyfer diffinio trefniadau rhwng gwasanaethau prawf lleol a heddluoedd. Er bod ysbryd y cytundeb yn gadarnhaol o ran cydnabod pwysigrwydd rhannu gwybodaeth, mae bylchau lle gall heddluoedd wrthod ymholiadau os na all y Gwasanaeth Prawf ganfod unrhyw hanes hysbys o drais. Mae'r rhan fwyaf o heddluoedd yn darparu mwy na'r ddarpariaeth a nodir yn yr ISA; fodd bynnag, bydd Gwasanaeth Heddlu'r Metropolitan yn gwrthod ymholiadau o'r fath, er mwyn rheoli'r pwysau ar yr adnoddau cysylltiedig. Er bod hyn wedi gwella'n ddiweddar ar gyfer archwiliadau cam-drin domestig sy'n ymwneud â chyrffyw sy'n cael eu monitro'n electronig, mae'n dal yn annerbyniol y gellir gwrthod ceisiadau i'r heddlu am wybodaeth sy'n ymwneud â'r risg y bydd pobl yn cael eu goruchwylio gan y Gwasanaeth Prawf mewn achosion eraill.

O ystyried natur gudd ac eang cam-drin domestig, rydym yn disgwyl i'r Gwasanaeth Prawf wneud ymholiadau gyda'r heddlu ym mhob achos, er mwyn sicrhau bod pob cyfle'n cael ei gymryd i ganfod cam-drin domestig, ac rydym wedi gwneud argymhellion mewn arolygiadau blaenorol ac adolygiadau annibynnol i'r perwyl hwn. Mae canllawiau'r Gwasanaeth Prawf sy'n ymwneud ag ymholiadau y dylid eu gwneud yn y llys yn llai llym ar hyn o bryd ac yn mynnu:

**'Os yw cam-drin domestig yn nodwedd o ymddygiad presennol neu flaenorol, gofynnwch am wybodaeth gan asiantaethau allweddol fel yr heddlu, Gwasanaethau Plant, ac unrhyw asiantaethau partner eraill sydd mewn cysylltiad â'r unigolyn a'r dioddefwr ac sy'n berthnasol iddynt, lle nad yw'r wybodaeth yn hysbys eisoes.'**

Fframwaith Polisi Cam-drin Domestig HMPPS[18]

Mae'r Gwasanaeth Prawf yn cydnabod bod angen gwneud rhagor o welliannau i sicrhau bod ei safon yn cael ei bodloni'n gyson. Ar ôl cyflawni hyn fel mater o drefn, ei nod yw codi disgwyliadau i geisio gwiriadau ym mhob achos. Mae'r Gwasanaeth Prawf wedi darparu cyllid ychwanegol i ranbarthau prawf i recriwtio staff gweinyddol ychwanegol, er mwyn gwella'r broses o gael gwybodaeth gan yr heddlu a gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant. Gall arweinwyr rhanbarthol benderfynu ar y ffordd orau o ddefnyddio'r adnodd hwn yn dilyn trafodaethau gyda heddluoedd lleol a gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant. Nod y rhan fwyaf yw hyfforddi staff i ddefnyddio systemau gwybodaeth yr heddlu ac, felly, gallu cwblhau ymholiadau heb ychwanegu pwysau llwyth gwaith ar heddluoedd. Mae recriwtio staff wedi bod yn araf mewn rhai rhanbarthau, ond mae'r rhan fwyaf nawr yn dechrau llenwi'r rolau hyn.

### Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd

Mae'r cynllun Taclo Cam-drin Domestig yn nodi bod MAPPA yn fecanwaith hanfodol ar gyfer rheoli cyflawnwyr cam-drin domestig. Fodd bynnag, nid yw llawer o gyflawnwyr cam-drin domestig peryglus a mynych yn cael dedfrydau digon hir i'w cymhwyso'n awtomatig ar gyfer rheolaeth MAPPA drwy reolaeth MAPPA categori 1 neu 2. Yn ein harolwg thematig o MAPPA yn 2022 (Arolygiaeth Prawf EF et al., 2022), roeddem wedi ystyried sut roedd categori 3 yn cael ei ddefnyddio i reoli troseddwyr cam-drin domestig risg uchel. Gwelsom nad oedd yn cael ei ddefnyddio'n ddigonol, ac roeddem yn argymell y dylid gwneud atgyfeiriadau MAPPA categori 3 i

---

[17] Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd yr ISA presennol yn cael ei adolygu.
[18] HM Prison and Probation Service. (2022). Domestic abuse policy framework. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1106675/domestic-abuse-pf.pdf.

reoli unigolion sy'n peri risg uchel o gam-drin domestig lle byddai rheolaeth a goruchwyliaeth amlasiantaethol ffurfiol drwy MAPPA yn ychwanegu gwerth at y cynllun rheoli risg. O ganlyniad, mae'r tîm MAPPA cenedlaethol wedi cyhoeddi dogfen drothwy wedi'i diweddaru sy'n cyfarwyddo ymarferwyr i ystyried cam-drin domestig ochr yn ochr â therfysgaeth, troseddu rhywiol a thrais wrth ystyried rheoli MAPPA, ac mae'n darparu senarios achos defnyddiol i gefnogi ymarferwyr. Yn ddiweddar, cynhaliodd tîm MAPPA HMPPS arolwg o gydlynwyr MAPPA, a dywedodd 62 y cant eu bod wedi gweld cynnydd mewn atgyfeiriadau categori 3 ers diweddaru'r canllawiau. Ar ben hynny, mae pennod benodol newydd ar gam-drin domestig ac ystelcio wedi cael ei chynnwys yn y canllawiau MAPPA. Mae hyn yn nodi, yn gyntaf, y dylid nodi pob achos MAPPA awtomatig lle gallai cam-drin domestig neu ystelcio fod yn broblem, ac, yn ail, y dylai pob achos arall lle gallai cam-drin domestig neu ystelcio fod yn broblem gael eu hystyried i'w cyfeirio at MAPPA categori 3 gan yr asiantaeth arweiniol, yn enwedig lle mae trosedd o reolaeth drwy orfodaeth wedi'i chyflawni neu dorri gorchymyn sifil (fel gorchymyn atal) wedi digwydd.

## 2.2. Arweinyddiaeth genedlaethol

Pan arolygwyd cam-drin domestig ddiwethaf yn 2018 (Arolygiaeth Prawf EF, 2018), gwelsom nad oedd dim arweinyddiaeth gydlynol yn cyfeirio gwaith cam-drin domestig. Mae gwelliannau cadarnhaol wedi cael eu gwneud, yn bennaf drwy'r Grŵp Cyfeirio Cam-drin Domestig Cenedlaethol, dan gadeiryddiaeth y cyfarwyddwr prawf rhanbarthol dynodedig sy'n arwain ar gam-drin domestig. Mae'r cylch gorchwyl yn nodi nod y grŵp fel a ganlyn:

**'…gwella ymarfer mewn perthynas â cham-drin domestig [...] drwy nodi blaenoriaethau allweddol, cefnogi'r gwaith o weithredu'r Fframwaith Polisi, sefydlu'r arferion gorau, y gweithdrefnau a'r dysgu o bob cwr o'r wlad, a chyhoeddi prosesau a dogfennau ar Equip i hyrwyddo cysondeb yn y ffordd y caiff cam-drin domestig ei asesu, ei reoli a'i gofnodi ar draws rhanbarthau prawf.'**

Mae cynrychiolwyr o bob rhanbarth yn mynychu'r grŵp, sydd fel arfer yn cynnwys pennaeth amddiffyn y cyhoedd, yn ogystal â'r uwch arweinwyr polisi cenedlaethol ar gyfer cam-drin domestig o grŵp amddiffyn y cyhoedd, arweinwyr EPSIG, y tîm strategaeth busnes a newid, ac uwch staff ymyriadau. Mae dod â'r rheini sy'n gyfrifol am bolisi a darparu gweithredol at ei gilydd yn fforwm cynhyrchiol sy'n cael ei ddefnyddio i ymgynghori ar unrhyw newidiadau arfaethedig mewn polisi cam-drin domestig ac sy'n caniatáu i arweinwyr gweithredol adrodd yn ôl am bryderon am bolisi.

Mae'r grŵp yn dal rhanbarthau'n atebol am eu cynnydd yn erbyn camau gweithredu sy'n ymwneud â cham-drin domestig – er enghraifft, drwy fonitro'r defnydd o'r adnodd SARA, sydd wedi arwain at godi'r gyfradd gwblhau o 49.6 y cant i 67 y cant ar gyfer cyflawnwyr presennol. Ar ben hynny, mae'r Grŵp wedi comisiynu dangosfwrdd cam-drin domestig a fydd, ar ôl ei gwblhau, yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am berfformiad fel cyfraddau cwblhau SARA, ac ymholiadau'r heddlu i gael eu holrhain, a chynnydd yn erbyn nodau'n cael eu mesur yn haws. Ffocws allweddol arall i'r Grŵp yw sbarduno cynnydd o ran recriwtio adnoddau gweinyddol ychwanegol, cefnogi ymholiadau cam-drin domestig gyda'r heddlu a gwasanaethau gofal cymdeithasol plant, a chaniatáu i ranbarthau rannu eu dulliau gweithredu ar gyfer y darn hwn o waith a sut maent wedi goresgyn rhwystrau posibl.

Roedd arweinwyr rhanbarthol cam-drin domestig yn siarad yn gadarnhaol am y grŵp. Roeddent yn gwerthfawrogi'r cyfle i glywed am newidiadau posibl a chynnig eu hadborth, yn ogystal â gallu gofyn cwestiynau i arweinwyr polisi a chlywed gan ranbarthau eraill am eu gwaith. Mae'r grŵp yn darparu rhwydwaith cryf i rannu arferion gorau a syniadau ynghylch cyflawni gwaith cam-drin domestig. Mae'r cyfarwyddwr prawf rhanbarthol dynodedig hefyd yn gweithio'n agos gyda'r arweinydd EPSIG dynodedig ar gyfer cam-drin domestig, ac mae hyn wedi arwain at welliannau o

ran cofnodi ymholiadau cam-drin domestig, er mwyn gallu cynhyrchu data sy'n dangos y ceisiadau a wnaed a'r ymatebion a gafwyd.

Mae'r adnoddau a ddyrannir i gam-drin domestig ar lefel genedlaethol yn gymharol fach, gan ystyried y nifer uchel o achosion o gam-drin domestig yn y llwyth achosion prawf. Serch hynny, mae'r grŵp amlddisgyblaethol sy'n dod at ei gilydd drwy'r NDARG yn defnyddio dull cydweithredol ac yn gweithio'n galed i sbarduno newidiadau cadarnhaol.

## 2.3. Ymyriadau

### Fframwaith Cynnig Effeithiol

Yn 2018, cyflwynodd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol lwyfan digidol y fframwaith cynnig effeithiol (EPF), er mwyn gwella cysondeb a chynigion ymyrryd effeithiol yn y llys. Mae ymarferwyr prawf sy'n gweithio yn y llys yn rhoi manylion unigolyn, gan gynnwys rhyw, oedran, lleoliad daearyddol, anghenion sy'n gysylltiedig â throseddu, a difrifoldeb y trosedd, ac mae'r adnodd yn darparu rhestr o ymyriadau a fyddai'n addas ac ar gael iddynt. Dywedodd y rhan fwyaf o staff prawf yn y llys eu bod yn gwerthfawrogi'r EPF, yn enwedig wrth gwblhau asesiadau ar bobl sy'n byw y tu allan i'r ardal leol; fodd bynnag, roeddent yn dweud ei bod yn cymryd amser hir i'w gwblhau – amser y maent yn ei chael yn anodd dod o hyd iddo, o ystyried amgylchedd prysur gwaith llys. Nododd staff y llys y bu rhai diffygion yn yr adnodd, a allai fod wedi arwain at gynigion amhriodol, ond roedd y tîm a oedd yn gyfrifol am yr adnodd wedi gwneud addasiadau cyflym ar ôl nodi materion. Mae fersiwn arall o'r adnodd, a elwir yn EPF2, nawr ar gael i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ar amodau a allai fod ynghlwm wrth drwydded ar ôl rhyddhau o'r carchar. Mae angen diweddaru rhai agweddau ar yr adnodd, er mwyn sicrhau bod yr iaith a ddefnyddir yn cyd-fynd â fframwaith polisi cam-drin domestig y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf – er enghraifft, defnyddio'r term 'cam-drin domestig' yn hytrach na 'trais domestig', i gefnogi dealltwriaeth ymarferwyr nad oes rhaid ystyried niwed corfforol yn y categori hwn. Yn EPF2, byddai ychwanegu rhagor o gwestiynau ynghylch a yw ymholiadau diogelu a cham-drin domestig wedi cael eu cwblhau ar y cyfeiriad rhyddhau posibl yn adlewyrchu'r cwestiwn tebyg yn yr adnodd llys gwreiddiol. Mae'r ddau fersiwn o'r adnodd EPF yn dibynnu ar gywirdeb yr wybodaeth y mae'r ymarferydd prawf yn ei hychwanegu. Os na chynhwysir gwybodaeth berthnasol, ni fydd yr arf yn nodi'r gofynion dedfrydu neu amodau trwydded mwyaf addas.

### Rhaglenni Achrededig

Drwy ein gwaith maes, fe wnaethom geisio sefydlu cyfran y dynion a gafodd ofyniad dedfryd neu amod trwydded i gwblhau BBR sy'n dechrau'r rhaglen, a faint wedyn sy'n mynd ymlaen i'w chwblhau. Mae rheolwyr rhaglenni rhanbarthol yn monitro'r rhaglenni a gwblheir, ond nid oes data cenedlaethol ar gael. Mae uwch arweinwyr wedi cydnabod bod hyn yn annerbyniol ac maent yn gweithio i fynd i'r afael â'r bwlch hwn fel rhan o ffocws ehangach ar newidiadau i drefniadau'r tîm ymyriadau cenedlaethol. I gael rhywfaint o ddealltwriaeth o'r pwnc hwn, fe wnaethom ofyn am fanylion yr holl ofynion ac amodau BBR a wnaed rhwng 21 Mehefin 2021 a 30 Medi 2022, a oedd yn dangos bod cyfanswm o 6,723 o ofynion neu amodau ar gyfer BBR wedi cael eu gwneud. Adeg tynnu'r wybodaeth hon (dyddiedig 09 Tachwedd 2022), cofnodwyd bod 3,287 o ofynion wedi dechrau, gyda gweddill y rhestr aros yn cynnwys 2,757, gan fod 679 wedi cael eu terfynu am resymau eraill. O'r rhain, roedd 489 (18 y cant) eisoes wedi aros dros 52 wythnos i ddechrau'r rhaglen. Erbyn 09 Tachwedd 2022, roedd cyfanswm o 594 o ofynion BBR a oedd wedi dechrau wedi cael eu terfynu – 187 (31 y cant) oherwydd eu bod wedi cwblhau'r gofyniad yn llwyddiannus, a 407 am amrywiaeth o resymau eraill, gan gynnwys diddymu eu gorchymyn neu drwydded (245) neu roi gorchymyn dedfryd ohiriedig ar waith (95). Oherwydd ôl-groniad o achosion BBR o ganlyniad i bandemig Covid-19 a phrinder staff mewn rhai rhanbarthau, roedd y Gwasanaeth Prawf yn gweithredu proses rheoli galw ar gyfer BBR. Roedd hyn yn blaenoriaethu achosion risg uchel dros y rheini â risg is ac yn golygu na fyddai pawb a gafodd ofyniad BBR yn cael cyfle i'w gwblhau, ac yn

hytrach cael cynnig opsiwn arall naill ai drwy ymyriad strwythuredig neu drwy ddarparu'r Pecyn Cymorth Sgiliau ar gyfer Perthnasoedd (SRT) unigol. Unwaith eto, nid oedd data cenedlaethol ar gael i roi sicrwydd bod ymyriadau amgen wedi cael eu darparu ym mhob achos lle na fyddai BBR ar gael.

Mae'r diffyg trosolwg a chraffu ar BRR yn genedlaethol yn peri pryder mawr ac nid yw'n rhoi llawer o sicrwydd bod pobl ar brawf yn cael cynnig y cyfle i gwblhau ymyriadau angenrheidiol neu gyflawni gorchmynion y llys.

## Ymyriadau strwythuredig

Ar ôl uno'r gwasanaethau prawf, ymrwymodd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF i resymoli'r gyfres o ymyriadau a oedd ar gael. Cyn i'r gwasanaethau prawf gael eu huno, roedd CRCs wedi datblygu nifer o ymyriadau dwysedd is y gellid eu darparu yn ystod diwrnodau gofyniad gweithgaredd adsefydlu (RAR). Yn ein harolwg blaenorol, mynegwyd pryder nad oedd yr holl ymyriadau hyn yn seiliedig ar dystiolaeth. Yn ystod yr arolygiad presennol, roeddem yn falch o weld bod pob un o'r ymyriadau strwythuredig cymeradwy wedi cael eu profi yn erbyn yr egwyddorion a ddefnyddiwyd gan CSAAP. Roedd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi hefyd wedi cynnull y panel ymyriadau effeithiol cenedlaethol (NEIP) i asesu'r hyn sy'n cael ei alw'n 'ymyriadau strwythuredig' erbyn hyn. Y tri ymyriad strwythuredig sydd ar gael sy'n targedu cam-drin domestig yn benodol oedd Perthnasoedd Cam Wrth Gam, Llwybrau Cadarnhaol a Mwy, a Help. Mae Perthnasoedd Cam wrth Gam a Llwybrau Cadarnhaol a Mwy yn cynnwys cyfanswm o 10 sesiwn ac maent ar gael i ddynion a menywod, sydd naill ai wedi bod mewn perthynas heterorywiol neu berthynas o'r un rhyw. Mae Help yn cynnwys 15 sesiwn a dim ond i ddynion y mae ar gael. Yn ogystal, mae Datblygu Pendantrwydd i Fenywod mewn Perthynas ar gael i fenywod. Mae'r canllawiau ar gyfer pennu ymyriadau priodol yn dangos bod y grŵp targed ar gyfer ymyriadau strwythuredig yn cynnwys pobl yr aseswyd eu bod yn peri risg isel yn ôl eu SARA. Os yw'r risg yn ganolig neu'n uwch yn ôl SARA, dylai BBR fod yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio. Fodd bynnag, os nad yw'r person yn addas ar gyfer BBR, gellir ystyried yr ymyriad strwythuredig os bodlonir meini prawf eraill. Nid oes dadansoddiad wedi cael ei gynnal yn genedlaethol i bennu cyfran y llwyth achosion prawf y byddai disgwyl iddo gael ei atgyfeirio i'r BBR nac i ymyriadau strwythuredig. Er bod data ar gael y gellid ei ddefnyddio fel man cychwyn ar gyfer y gwaith hwn, dywedwyd wrthym fod cymhlethdod y systemau cofnodi a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Prawf yn golygu na ellir gwybod gydag unrhyw sicrwydd a yw rhywun eisoes wedi cwblhau ymyriad neu a ydynt yn anaddas am unrhyw reswm.
Mae Tabl 1 yn dangos data a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Prawf, sy'n rhoi manylion nifer yr atgyfeiriadau i bob un o'r ymyriadau strwythuredig ar gyfer cam-drin domestig ers 1 Ebrill 2022 (ar 13 Chwefror 2023) a nifer yr achosion a gwblhawyd.

*Tabl 1*

| | Help | Llwybrau Cadarnhaol a Mwy | Perthnasoedd Cam wrth Gam |
|---|---|---|---|
| Nifer a gyfeiriwyd | 249 | 210 | 1,696 |
| Nifer a gofnodwyd fel rhai a gwblhawyd | 71 | 7 | 199 |

## Pecynnau cymorth

Cafodd y SRT ei ddiweddaru a'i ail-lansio ym mis Mai 2022. Mae wedi cael ei gymeradwyo gan y NEIP. Roedd wedi bod ar gael i'w ddefnyddio yn flaenorol wrth i bandemig Covid-19 ddechrau. Mae'r deunyddiau o'r pecyn cymorth yn cyd-fynd â'r ymyriadau strwythuredig a'r BBR. Felly, os bydd amgylchiadau person ar brawf yn newid wrth ddarparu un math o ymyriad a bod yn rhaid eu newid i un arall, ni ddylai hyn olygu bod yn rhaid defnyddio dull newydd gyda nhw, a byddai'r dysgu

sydd eisoes wedi'i gwblhau yn ategol. Mae 35 o ymarferion yn y pecyn cymorth, gyda deunyddiau fideo wedi'u hanimeiddio i gefnogi pwyntiau dysgu'r sesiynau. Mae'r rheini sy'n gyfrifol am y pecyn cymorth yn cydnabod bod diffyg Wi-Fi dibynadwy ym mhob swyddfa brawf wedi bod yn rhwystr i'w ddefnyddio, er bod atebion ar gael. Mae datblygwyr y pecyn cymorth yn gweithio tuag at sicrhau bod y pecyn cymorth ar gael drwy raglen ffôn symudol, a fyddai'n dileu'r angen am Wi-Fi ac yn darparu data mwy dibynadwy ar ddefnydd. Mae'r trefniadau cofnodi cymhleth yn system rheoli achosion nDelius yn golygu nad yw'n bosibl penderfynu'n ddibynadwy faint o bobl ar brawf sy'n elwa o'r SRT.

Mae'r pecyn cymorth hwn wedi'i gynllunio i ymarferwyr ddewis sesiynau i ddiwallu anghenion y person sydd ar brawf; felly, nid oes yna nifer penodol o sesiynau a phenderfyniadau ynghylch a yw'r ymyriad wedi'i gwblhau yn ôl disgresiwn yr ymarferydd prawf. Roedd data a ddarparwyd i ni fel rhan o'r arolygiad hwn yn dangos, ar 11 Tachwedd 2022, bod 3,724 o achosion lle'r oedd yr ymarferydd wedi atgyfeirio ar gyfer SRT rhwng 21 Medi 2021 a 30 Medi 2022. Adeg yr adroddiad, roedd 2,862 o achosion wedi'u nodi fel rhai 'gweithredol' ar gyfer SRT, gyda 554 ohonynt heb unrhyw sesiynau wedi'u cofnodi, a 589 gydag un yn unig, ac mewn llawer o achosion yn cael eu cynnal fisoedd yn gynharach, a ddim yn dangos eu bod yn cael eu darparu'n weithredol ar hyn o bryd. Roedd cyfanswm o 149 wedi cofnodi bod SRT wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, o'r rhain, nid oedd 26 wedi cofnodi sesiynau yn erbyn y ddarpariaeth, a dim ond un sesiwn oedd gan 22 ohonynt, ac nid oedd hynny'n awgrymu bod ymyriadau'n cael eu darparu'n gynhwysfawr. Roedd 56 arall wedi cofnodi rhwng dwy a phum sesiwn, roedd gan 36 rhwng chwech a 10, ac roedd gan naw fwy na 10 sesiwn. Nid oes sicrwydd ansawdd ffurfiol ar gyfer y SRT; disgwylir y bydd rheolwyr yn ystyried hyn yn eu goruchwyliaeth arferol.

Adeg lansio'r SRT yn wreiddiol, nid oedd adnodd ar gael i ddarparu hyfforddiant i gefnogi ymarferwyr i ddefnyddio'r deunyddiau; mae sesiynau briffio cenedlaethol wedi cael eu darparu ers hynny ac mae'r recordiadau o'r rhain ar gael.

**Gwasanaethau adsefydlu wedi'u comisiynu (CRS)**

O dan ddarpariaeth CRS, gall ymarferwyr prawf gyfeirio unigolion drwy'r llwybr 'lles personol – teulu a phobl eraill arwyddocaol' at ddarparwyr a gomisiynir, i'w cefnogi i ddatblygu neu gynnal perthnasoedd teuluol cadarnhaol ac osgoi perthnasoedd niweidiol. Mae canllawiau ar gyfer atgyfeiriadau'n awgrymu y gellir defnyddio hyn i gefnogi cydymffurfiaeth â rhaglenni gwirfoddol neu orfodol sy'n canolbwyntio ar y teulu neu berthynas, er nad oeddem yn eu gweld yn cael eu defnyddio fel hyn. Mae'r data sydd ar gael o'r rhanbarthau y buom yn ymweld â nhw yn dangos niferoedd isel yn cael eu cyfeirio at y gwasanaethau hyn, a dim ond un achos a oedd wedi cael ei gyfeirio o'n prif sampl o 60 o achosion.

## 2.4. Arweinyddiaeth ranbarthol a PDU

Cyfarwyddwyr prawf rhanbarthol sy'n penderfynu ar y trefniadau llywodraethu ar gyfer gwaith cam-drin domestig yn eu rhanbarth. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd, pennaeth amddiffyn y cyhoedd sy'n gyfrifol am gam-drin domestig. Mae strwythurau o fewn rhanbarthau'n amrywio; mae gan rai fwrdd cam-drin domestig penodol neu grŵp agored i niwed o ran amddiffyn y cyhoedd, sy'n sbarduno ymarfer yn y rhanbarth, yn lledaenu unrhyw newidiadau, ac yn ystyried materion hyfforddi. Nid oedd fforwm cam-drin domestig penodol mewn ardaloedd eraill, ac roedd y tîm arweinyddiaeth rhanbarthol yn rhannu disgwyliadau ymarfer â phenaethiaid y PDU er mwyn eu lledaenu, ac roedd hyn hefyd yn gweithio'n dda. Nid oedd y model penodol a ddefnyddiwyd yn effeithio ar ansawdd ymarfer cam-drin domestig yn y rhanbarth. Y ffactor allweddol oedd a oedd cam-drin domestig yn cael ei archwilio a'i drafod yn strategol, boed hynny drwy gyfarfod cam-drin domestig penodol neu

fel elfen o'r uwch dîm arwain rhanbarthol. Mewn rhanbarthau lle gwelsom lywodraethu clir, ni waeth beth oedd y strwythur, fel arfer gwelsom fod ymarferwyr yn fwy gwybodus a chyfredol. I'r gwrthwyneb, mewn ardaloedd lle gwelsom yr arferion o'r ansawdd gwaelaf, ni welsom unrhyw dystiolaeth o ddull strategol o wella gwaith cam-drin domestig. Yn aml, y rhain hefyd oedd y mannau yr effeithiwyd fwyaf arnynt gan brinder staff, a oedd yn sicr yn hawlio llawer o ffocws uwch arweinwyr.

| Enghraifft o ymarfer da – Cymru |
| --- |
| Cafodd bwrdd cam-drin domestig Cymru ei lansio yn 2022. Nod y grŵp yw pennu cyfeiriad gwaith cam-drin domestig yng Nghymru a chyflawni'r strategaeth cam-drin domestig. Mae'n adolygu cyfathrebiadau a chamau gweithredu gan yr NDARG a glasbrint Llywodraeth Cymru ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais difrifol (VAWDASV). Mae cylch gorchwyl y bwrdd yn cynnwys gwaith archwilio i sicrhau bod PDUs yn gweithredu'r fframwaith polisi cam-drin domestig. Mae trefn lywodraethu'r grŵp yn glir, gyda'r pennaeth gweithrediadau'n cadeirio'r grŵp ac yn adrodd yn ôl i uwch dîm arwain Cymru, a'r pennaeth diogelu'r cyhoedd yn cysylltu â'r NDARG, i sicrhau bod cysylltiadau rhanbarthol a chenedlaethol yn gryf. Mae aelodau'r bwrdd yn cynnwys arweinwyr dysgu a datblygu, ymyriadau, gwasanaethau seicoleg, y tîm ansawdd a pherfformiad rhanbarthol, ac uwch reolwr cymorth gweithredol o bob PDU, sy'n golygu bod pob agwedd ar waith cam-drin domestig yn cael eu cynrychioli yn y grŵp. Mae dyluniad y grŵp hwn yn sicrhau bod ffocws clir ar gam-drin domestig yng Nghymru, ac mae cofnodion a chamau gweithredu cyfarfodydd yn dangos bod y grŵp yn chwilio'n gyson am gyfleoedd i ddeall ansawdd y ddarpariaeth cam-drin domestig a nodi meysydd i'w gwella. |

Mae Cynllun Taclo Cam-drin Domestig y llywodraeth (Llywodraeth EF, 2022) yn nodi:

**'Dylai ardaloedd lleol fod â'r ymyriadau iawn yn eu lle ar gyfer cyflawnwyr. Un ffordd y byddwn yn sicrhau hyn yw drwy rymuso ardaloedd lleol i ddatblygu eu strategaethau cyflawnwyr eu hunain ac asesiadau o anghenion ar gyfer ymyriadau.'**

Byddem yn disgwyl i uwch arweinwyr y gwasanaeth prawf fod wrth galon y trafodaethau hyn, i gefnogi cydweithio aml-asiantaeth a datblygu cynlluniau lleol i fynd i'r afael â cham-drin domestig. Gwelsom fod yr holl PDUs a arolygwyd gennym yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd partneriaeth lleol ynghylch cam-drin domestig. Fodd bynnag, mewn rhai, a oedd wedi cael eu nodi fel safleoedd coch oherwydd niferoedd staffio isel, er mwyn rheoli adnoddau, dim ond y rheini yr oedd ganddynt ddyletswydd statudol i'w mynychu yr oeddent yn cymryd rhan ynddynt, a oedd yn effeithio ar effeithiolrwydd rhai cynlluniau amlasiantaethol. Ar ben hynny, mae rhai PDUs yn cynnwys nifer o awdurdodau lleol ac felly mae'n rhaid iddynt fynychu cyfarfodydd ym mhob un; yn Henffordd, Swydd Amwythig a Telford, er enghraifft, mae gan arweinwyr dair set o gyfarfodydd i'w mynychu, sy'n rhoi pwysau mawr ar eu hamser.

Dywedodd arweinwyr strategol sy'n gyfrifol am bennu dulliau awdurdodau lleol o fynd i'r afael â cham-drin domestig wrthym fod cyfraniadau gan y Gwasanaeth Prawf yn hanfodol i ddatblygu trefniadau cadarn. Roedd y rhan fwyaf o'r partneriaid strategol yn teimlo bod ymgysylltu â'r Gwasanaeth Prawf wedi bod yn symlach ers uno gwasanaethau. Fodd bynnag, dywedodd llawer eu bod yn ymwybodol o'r gofynion ar uwch arweinwyr prawf oherwydd prinder staff. Roedd partneriaid yn canmol cyfraniadau arweinwyr y gwasanaeth prawf drwy gadeirio grwpiau neu is-grwpiau pwysig, neu drwy ddarparu data a gwybodaeth. Yn gyffredinol, roedd cynrychiolaeth mewn cyfarfodydd partneriaeth ar y lefel briodol er mwyn gallu gwneud penderfyniadau. Roedd rhai awdurdodau lleol yn cydnabod bod y strwythurau cyfarfod lleol yn rhoi pwysau trwm ar wasanaethau prawf ac, mewn rhai achosion, y byddai'n fuddiol uno neu symleiddio cyfarfodydd er mwyn sicrhau bod asiantaethau partner yn mynychu cymaint â phosibl. Dywedwyd wrthym, pan oedd cynrychiolwyr prawf wedi gorfod tynnu'n ôl o gyfarfodydd anstatudol oherwydd maint y llwyth

gwaith, bod y rhesymau wedi cael eu cyfleu; serch hynny, roedd partneriaid yn teimlo eu bod wedi colli eu mewnbwn.

Yn y rhan fwyaf o PDUs, gwelsom fod uwch swyddog prawf yn gyfrifol am gam-drin domestig; mewn eraill, roedd un ar gyfer pob swyddfa. Roedd disgwyliadau'r rôl arweiniol hon yn amrywio yn dibynnu ar drefniadau yn y PDU neu'r rhanbarth. Er enghraifft, roedd disgwyl i rai roi cyfrif am ddata perfformiad mewn perthynas â cham-drin domestig, tra nad oedd gan eraill y disgwyliad hwn a theimlent fod y rôl wedi'i hanelu'n fwy at fod yn bwynt cyswllt ar gyfer ymholiadau staff. Mewn rhai ardaloedd, roedd arweinydd yr SPO yn mynychu cyfarfodydd partneriaeth allanol, fel is-grwpiau cam-drin domestig awdurdodau lleol; mewn eraill, roedd pennaeth y PDU yn bresennol ym mhob cyfarfod partneriaeth bron. Oherwydd diffyg Uwch Swyddogion Prawf mewn swydd, mewn rhai PDUs nid oedd arweinydd cam-drin domestig dynodedig gan nad oedd capasiti i wneud unrhyw beth ar wahân i dasgau craidd, ond roedd pennaeth y PDU yn disgwyl bod pob SPO yn gyfrifol am faterion cam-drin domestig a diogelu.

## 2.5. Arfogi staff i weithio gyda cham-drin domestig

### Ymarferwyr Prawf

Fel y gwelsom mewn llawer o arolygiadau diweddar, mae llwyth gwaith ymarferwyr yn rhy fawr mewn gormod o leoedd. Er enghraifft, roedd gan 19 o'r 45 ymarferydd y buom yn siarad â hwy lwyth gwaith o dros 131 y cant o'r lefelau targed, yn ôl adnodd rheoli llwyth gwaith y gwasanaeth ei hun, a dywedodd llawer wrthym fod ganddynt hefyd dasgau ychwanegol yn ymwneud â gwaith cydweithwyr a oedd yn absennol oherwydd salwch. Dangosodd ymarferwyr prawf ymrwymiad cadarn i leihau cam-drin domestig, ond nid oedd llawer yn gwybod beth oedd y ffordd orau o fynd o'i chwmpas hi neu ni allent weithio fel y mynnent oherwydd llwyth gwaith trwm. Roedd y pwysau sylweddol arnynt yn amlwg mewn sawl achos.

Dywedodd y rhan fwyaf o ymarferwyr prawf wrthym eu bod wedi cael digon o hyfforddiant a datblygiad i weithio'n effeithiol gyda chyflawnwyr cam-drin domestig. Fodd bynnag, roedd ein gwaith arolygu achosion yn codi pryderon ynghylch dyfnder dealltwriaeth ymarferwyr o waith cam-drin domestig. Er bod staff, yn gyffredinol, wedi cwblhau'r e-ddysgu gorfodol sy'n ymwneud â cham-drin domestig, dim ond tri oedd wedi mynychu unrhyw hyfforddiant aml-asiantaeth wyneb yn wyneb lleol ers uno'r gwasanaethau prawf. Dywedodd llawer o'r staff wrthym mai ychydig oeddent yn ei elwa drwy e-ddysgu neu ddarpariaeth ar-lein ac y byddai tasgau eraill yn aml yn tynnu eu sylw wrth ymgymryd â hyfforddiant fel hyn. Roeddent yn teimlo mai'r hyfforddiant mwyaf effeithiol fyddai wyneb yn wyneb, gyda chyfleoedd i drafod achosion a dysgu am ddiweddariadau i ddeddfwriaeth a'r adnoddau sydd ar gael i'w cefnogi i weithio gydag achosion cam-drin domestig. Roedd y rhan fwyaf o ymarferwyr wedi clywed am *Ddeddf Cam-drin Domestig 2021*, ond dim ond ychydig oedd wedi cael canllawiau penodol ar yr hyn roedd y ddeddfwriaeth yn ei olygu i'w hymarfer. Er enghraifft, pan ofynnwyd iddynt beth oeddent yn ei wybod am y Ddeddf hon, roedd rhai ymarferwyr yn ymwybodol ei bod wedi cyflwyno'r drosedd o dagu nad oedd yn angheuol a bod newidiadau'n ymwneud â chydnabod plant fel dioddefwyr ynddynt eu hunain; fodd bynnag, dywedodd bron i hanner wrthym nad oeddent yn gwybod dim, neu fawr ddim, am yr hyn yr oedd y Ddeddf wedi'i newid. Roedd ymarferwyr mewn rhai ardaloedd yn fwy gwybodus gan fod sesiynau briffio lleol ar y pwnc wedi cael eu cyflwyno yn ystod cyfarfodydd tîm.

Yn rhy aml o lawer, nid oedd ymarferwyr yn gwybod am sefydliadau eraill a oedd yn ymwneud â gwaith cam-drin domestig; dywedodd 41 y cant o'r ymarferwyr y buom yn siarad â hwy wrthym nad oeddent yn gwybod am wasanaethau cymorth lleol ar gyfer cam-drin domestig. Pan wnaethom ofyn i ymarferwyr prawf a oeddent erioed wedi cael cyfle i fynychu hyfforddiant gyda sefydliadau eraill yn eu hardal leol, i rannu gwybodaeth am eu gwaith a chael gwybod am wasanaethau eraill, ychydig a allai roi enghreifftiau, ac os gallent, roeddent yn ymwneud â digwyddiadau cyn Covid-19. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn hysbysebu hyfforddiant ar ddiogelu a cham-drin domestig,

ac yn croesawu presenoldeb gan asiantaethau partner; fodd bynnag, nid oedd staff y gwasanaeth prawf yn gwybod llawer am hyn. Mae'n anochel y bydd gweithio gydag achosion cam-drin domestig yn gofyn am gyswllt a gweithio mewn partneriaeth. Er mwyn bod yn effeithiol, mae angen i asiantaethau ddeall rolau a throthwyon ei gilydd. Felly, byddai manteision amlwg i staff prawf sy'n cymryd rhan mewn hyfforddiant aml-asiantaeth a chodi ymwybyddiaeth, i gefnogi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gam-drin domestig a'r gwasanaethau sydd ar gael, yn ogystal â rhannu gwybodaeth am y gwaith mae gwasanaethau prawf yn ei wneud i gynyddu gwybodaeth mewn asiantaethau partner.

Roedd y rhan fwyaf o ymarferwyr (41 allan o 44) wedi cwblhau hyfforddiant SARA; fodd bynnag, dywedodd 22 wrthym eu bod yn teimlo bod yr adnodd 'ddim yn ddefnyddiol iawn' (20) neu ddim yn ddefnyddiol 'o gwbl' (dau). Yr unig hyfforddiant sydd ar gael ar gyfer SARA yw cwrs ar-lein digidol, a dywedodd y rhan fwyaf o staff wrthym nad oedd yn eu harfogi i ddeall na gwerthfawrogi'r adnodd yn llawn. Roedd rhai rheolwyr ac uwch arweinwyr o dan yr argraff y byddai opsiwn wyneb yn wyneb llawnach ar gael i'r rheini sy'n ymgymryd â'r Cymhwyster Proffesiynol mewn Gwaith Prawf (PQiP) neu ymarferwyr newydd sy'n defnyddio SARA am y tro cyntaf, ond nid oedd hynny'n wir. Cyn uno'r gwasanaethau prawf, roedd rhai CRCs wedi mabwysiadu fersiwn wedi'i diweddaru o adnodd SARA, ac roedd yr ymarferwyr a oedd wedi'i ddefnyddio yn fwy cadarnhaol am werth yr asesiad hwnnw, ac yn dweud eu bod yn siomedig eu bod wedi gorfod dychwelyd i'r fersiwn flaenorol a oedd yn cael ei defnyddio yn y Gwasanaeth Prawf unedig. Ar ôl ystyried hyn, nid oes gan y Gwasanaeth Prawf unrhyw gynlluniau i gyflwyno'r fersiwn fwy newydd o'r adnodd, er ei fod yn edrych ar ddulliau eraill o asesu risg.

Roedd llwyth gwaith trwm hefyd yn cael effaith negyddol ar allu ymarferwyr i ymgyfarwyddo â deunyddiau newydd fel y SRT; dywedodd llawer wrthym fod angen mwy o amser neu gapasiti arnynt i archwilio'r deunyddiau ac felly nad oeddent wedi'u defnyddio eto. Ar ben hynny, nid oedd llawer yn ymddangos yn ymwybodol o'r briffiau cenedlaethol a oedd wedi cael eu cyflwyno ar y SRT, nac yn gallu cael gafael ar recordiadau ohonynt. Mewn rhai PDUs, rhoddodd hwyluswyr rhaglenni a swyddogion datblygu ansawdd sesiynau briffio i wella cynefindra â'r deunyddiau a meithrin hyder ymarferwyr, a gafodd dderbyniad da. Yn ogystal, dywedodd rhai staff wrthym y byddent yn gwerthfawrogi'r cyfle i gysgodi cydweithwyr mwy profiadol sy'n cyflwyno'r adnodd, i ddysgu oddi wrthynt; fodd bynnag, nid oedd hyn wedi cael ei gynnig eto. Yn olaf, oherwydd diffyg gwybodaeth am y SRT, roedd rhai ymarferwyr wedi ffurfio barn negyddol am y deunyddiau, yn seiliedig ar gamddealltwriaeth; er enghraifft, roedd rhai wedi penderfynu peidio â defnyddio'r pecyn gan eu bod yn teimlo bod yr animeiddiadau fideo yn nawddoglyd, ond nid oeddent yn ymwybodol bod gwylio'r rhain yn ddewisol.

Nid oedd ymarferwyr bob amser yn glir ynghylch yr hyn a ddisgwylid ganddynt wrth weithio gydag achosion cam-drin domestig. Lle'r oedd mesurau ar waith o dan y fframwaith blaenoriaethu ar gyfer rheoli dedfrydau, roedd y canllawiau'n aml yn cyfarwyddo staff i roi'r gorau i ddarparu ymyriadau a gweithio mewn partneriaeth, er mwyn rheoli adnoddau. Fodd bynnag, dim ond i rai aelodau o'r staff yr oedd yr addasiadau'n berthnasol, gan fod disgwyl i'r rheini a oedd yn ymgymryd â'r hyfforddiant PQiP barhau i weithredu o dan ganllawiau ymarfer arferol, a oedd yn achosi dryswch gan y byddent yn gofyn i gydweithwyr mwy profiadol am gyngor, ac roeddent yn gweithredu o dan wahanol reolau. Roedd rhai ymarferwyr yn bryderus am fethu â chyflawni gwaith sy'n canolbwyntio ar droseddau, a mynegwyd pryderon ynghylch sut y byddai eu hymarfer yn cael ei ystyried pe bai'r person ar brawf yn cyflawni SFO. Nid oedd ymarferwyr mewn ardaloedd lle'r oedd mesurau a oedd yn deillio o'r fframwaith blaenoriaethu ar gyfer rheoli dedfrydau wedi bod ar waith ers tro ac wedi cael eu hadolygu a'u newid, bob amser yn glir ynghylch y disgwyliadau presennol ac wedi penderfynu gwneud yr hyn a oedd yn gywir yn eu barn hwy, yn hytrach na'r hyn a gyfarwyddwyd gan eu rheolwyr. Pan nad oes digon o staff mewn PDUs, mae'n amlwg bod yn rhaid cymryd camau i reoli adnoddau; fodd bynnag, mae ymyriadau a gwaith partneriaeth yn elfennau hanfodol o waith cam-drin domestig effeithiol. Felly, roedd y penderfyniadau hyn yn cael effaith negyddol ar ansawdd

rheoli achosion. Ar ben hynny, mewn rhai achosion gallai cefnogaeth asiantaethau partner fod wedi rhyddhau'r ymarferydd prawf o rai tasgau.

Mae fframwaith polisi cam-drin domestig y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yn nodi'r darpariaethau sydd ar gael i gefnogi staff i weithio gyda cham-drin domestig, ac roeddem eisiau archwilio effeithiolrwydd y mesurau hyn. Gofynnwyd i ymarferwyr a oeddent yn cael digon o oruchwyliaeth a chefnogaeth gan reolwyr gydag achosion cam-drin domestig, a dywedodd 38 o'r 45 eu bod wedi cael hynny. Fodd bynnag, ychydig a ddywedodd fod y gwaith emosiynol o weithio gyda cham-drin domestig yn cael sylw penodol. Disgrifiodd rhai ymarferwyr bryderon am effaith emosiynol gweithio gydag achosion cam-drin domestig oherwydd eu profiadau bywyd eu hunain. O ystyried pa mor gyffredin yw cam-drin domestig yn y boblogaeth gyffredinol, mae'n debygol y bydd y mater hwn wedi effeithio ar lawer o staff yn eu bywydau personol. Mae canllawiau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gael i gefnogi gweithwyr sy'n profi cam-drin domestig, sy'n cynnwys cyngor i reolwyr, ac roedd rhai staff yn ymwybodol o hyn. Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn gwybod am y cynllun cymorth i weithwyr a oedd ar gael iddynt, a dywedodd rhai eu bod wedi cael profiadau cadarnhaol gyda hyn. Dywedodd rheolwyr wrthym eu bod yn holi staff am eu lles yn ystod goruchwyliaeth ffurfiol, ond eu bod hefyd yn disgrifio nifer o ddisgwyliadau ynghylch yr hyn sy'n cael sylw yn ystod goruchwyliaeth. Roedd ymarferwyr weithiau'n teimlo bod goruchwyliaeth yn cael ei llywio gan broses, a dywedodd un wrthym:

*"Nid yw'n gwneud i mi deimlo'n ddiogel; rydw i bob amser yn teimlo fy mod i wedi colli rhywbeth."*

Ychydig iawn o reolwyr oedd yn teimlo eu bod yn gallu cyflwyno sesiynau myfyriol, sy'n caniatáu i ymarferwyr ystyried eu teimladau am eu gwaith yn drylwyr. Ar ben hynny, roeddem wedi cwrdd â rheolwyr newydd nad oeddent wedi cael unrhyw hyfforddiant i gefnogi'r staff roeddent yn eu rheoli; roeddent yn dweud eu bod yn gwneud y defnydd gorau posibl o'u profiad fel ymarferwyr ond nid oedd ganddynt unrhyw fewnbwn arall i'w harfogi. Mewn un ardal, dywedodd rheolwyr wrthym eu bod yn teimlo bod uwch arweinwyr yn blaenoriaethu targedau perfformiad dros les staff.

### Swyddogion Diogelwch Cam-drin Domestig

Gwelsom fod hyfforddiant a chefnogaeth DASOs yn ddarlun cymysg. Er enghraifft, mewn rhai rhanbarthau mae'n ofynnol iddynt gwblhau hyfforddiant sy'n eu cymhwyso fel IDVAs; mewn eraill, nid oes hyfforddiant penodol ar sail rôl, a dim ond drwy gysgodi cydweithwyr y mae staff newydd yn dysgu. Mae trefniadau rheoli llinell hefyd yn amrywio, gyda rhai rhanbarthau'n cael rheolwr penodol ond eraill yn cael eu goruchwylio gan reolwyr sydd hefyd yn goruchwylio rhaglenni achredededig. Disgwylir i DASOs mewn rhai ardaloedd fynychu goruchwyliaeth glinigol a ddarperir yn allanol, tra na ddisgwylir i eraill wneud hynny. Adeg ein harolygiad, roedd rôl DASO a'r llawlyfrau canllawiau ategol yn cael eu hadolygu gan eu bod wedi cael eu cyhoeddi yn 2015 ac wedi dyddio. O ganlyniad, nid oedd gan DASOs ddigon o arweiniad ffurfiol ar eu gwaith, heblaw am ddysgu gan eu cydweithwyr. Roeddem o'r farn mai'r ymarferwyr mwyaf hyderus oedd y rhai a oedd wedi dilyn hyfforddiant IDVA, a oedd yn rhoi cymhwyster a statws ffurfiol iddynt, ac a oedd yn arbennig o ddefnyddiol wrth weithio gydag asiantaethau eraill. Roedd gan y staff hyn y wybodaeth a'r gallu i ddarparu cymorth pendant i'r rheini y buont yn gweithio gyda nhw, wedi'i ategu gan ymchwil a theori. Clywsom enghreifftiau lle'r oedd DASOs gyda'r cymhwyster hwn wedi gallu gwneud cais am waharddebau sifil a gorchmynion peidio â molestu, a fyddai fel arall yn costio miloedd o bunnoedd drwy gyfreithiwr. Mewn rhai ardaloedd lle nad oedd DASOs wedi cael hyfforddiant IDVA, gwelsom rai staff a oedd â bwriad da yn y rôl a oedd yn cyflawni'r hyn a oedd orau yn eu barn nhw, yn hytrach na gweithio i safonau cydnabyddedig.

### Hwyluswyr y rhaglen

Mae ymchwil academaidd (Renehen, 2020) wedi tynnu sylw at y ffaith bod rhai o staff y rhaglen yn teimlo eu bod yn cael eu dibrisio gan y penderfyniad i beidio â dyfarnu'r un raddfa gyflog i hwyluswyr BBR â'r rheini sy'n darparu rhaglenni triniaeth troseddau rhywiol. Clywsom am y pryder

hwn hefyd gan hwyluswyr rhaglenni, a ddywedodd wrthym fod darparu BBR yn arfer bod yn arbenigedd yr oedd hwyluswyr yn ymgymryd ag ef ar ôl iddynt gael profiad o gyflawni rhaglenni troseddu cyffredinol.

Er nad oedd rhai hwyluswyr wedi gweld problem o ran mynd yn syth at ddarpariaeth BBR, gan ei fod yn gwneud y rôl yn fwy amrywiol a diddorol, roedd llawer y buom yn siarad â nhw yn gweld problem. Roeddent yn mynegi pryder bod angen i hwyluswyr feithrin eu gwytnwch yn gyntaf a dysgu crefft cyflwyno gwaith grŵp cyn ymgymryd â phwnc cymhleth a heriol cam-drin domestig. Roedd yr hyfforddiant i gyflwyno rhaglenni achrededig yn gynhwysfawr, gan gynnwys hyfforddiant sgiliau gwaith grŵp a hyfforddiant penodol ar gyfer pob rhaglen. Mae'r strwythurau darparu ymyriadau yn rhoi amrywiaeth o gyfleoedd i hwyluswyr siarad am eu gwaith, gan gynnwys cael ôl-drafodaeth ar unwaith gyda chyd-hwyluswyr ar ôl sesiynau'r rhaglen, adborth gan reolwyr triniaeth, a goruchwyliaeth gyda'u rheolwr llinell. Yn yr un modd â DASOs, gwelsom ddarlun cymysg o ran goruchwyliaeth glinigol, nad yw'n arferol mwyach ym mhob ardal ond sy'n dal yn orfodol mewn rhai ardaloedd. Yng Nghaerdydd, dywedodd hwyluswyr wrthym fod ganddynt gwnsela gorfodol ddwywaith y flwyddyn, a ddarperir gan hwyluswyr allanol, a goruchwyliaeth gyda'u rheolwr llinell bob pedair i chwe wythnos, yn ogystal â bod eu rhaglen yn cael ei monitro gan reolwr triniaeth i sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chyflwyno'n gywir. Roedd hwyluswyr yng Nghaerdydd yn gadarnhaol iawn am y gefnogaeth a gawsant. Mewn rhai ardaloedd eraill, roedd y broses yn llai clir; er y dywedwyd wrthym fod gan staff fynediad at gymorth allanol, roedd y trefniadau'n llai pendant.

## 2.6. Casgliadau a goblygiadau


Mae'r arweinyddiaeth genedlaethol ar gam-drin domestig wedi gwella ers ein harolygiad diwethaf. Erbyn hyn, mae ymgyrch benodol i wneud gwelliannau drwy'r NDARG a chyfle i arweinwyr polisi a strategaeth ddod ynghyd â'r rheini sy'n gyfrifol am gyflawni gweithredol. Byddai strategaeth cam-drin domestig glir ar gyfer y Gwasanaeth Prawf yn canolbwyntio ymdrechion ymhellach ac yn darparu mecanwaith i brofi cynnydd. Mae angen i uwch arweinwyr adolygu ISAs cenedlaethol, i sicrhau nad oes unrhyw rwystrau rhag cael gwybodaeth gan heddluoedd, yn unol ag ysbryd cynlluniau trosfwaol y llywodraeth i fynd i'r afael â cham-drin domestig. Mae'r prosesau sydd ar waith i fonitro'r defnydd o ymyriadau yn aneffeithiol ac mae angen eu diwygio'n radical, er mwyn sicrhau bod cyfrannau'r bobl sy'n cael eu cynnig ac sy'n cwblhau pob ymyriad yn hysbys ac yn cael eu dadansoddi, i wneud yn siŵr eu bod yn bodloni proffil anghenion achosion cam-drin domestig yn llwyth achosion y gwasanaeth prawf. Dylid gwneud pob ymdrech i alluogi pobl ar brawf i gwblhau gwaith sydd â'r nod o leihau eu risg o ragor o gyflawni cam-drin domestig eto.

Mae ymarferwyr rheng flaen yn anghyfarwydd â chanllawiau a chynnyrch cenedlaethol a allai eu helpu gyda gwaith cam-drin domestig. Mae angen gwneud mwy o fewn rhanbarthau a PDUs i sicrhau bod y rhain yn cael eu defnyddio a bod ymarferwyr yn deall yr hyn y mae eu gwasanaeth yn ei ddisgwyl ganddynt. Ar ben hynny, nid yw anghenion hyfforddi ymarferwyr prawf yn cael eu diwallu, ac mae gormod yn anghyfarwydd â'r cyd-destun cam-drin domestig ehangach a gwaith sefydliadau eraill y gallent fod yn gweithio ochr yn ochr â nhw i gefnogi dioddefwyr yn well a lleihau cam-drin domestig. Rhaid i'r rheini sy'n cael eu cyflogi yn y rôl DASO fod wedi'u harfogi'n briodol i gyflawni'r rôl. Mae'r hyfforddiant IDVA presennol yn cynnig y cyfle gorau i gyflawni hyn ac mae hefyd yn darparu cymhwyster sy'n cael ei gydnabod gan sefydliadau eraill, sy'n rhoi hyder yn y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu.

# 3. Asesu a chynllunio

Yn y bennod hon, rydym yn adrodd ar waith y Gwasanaeth Prawf wrth ddarparu cyngor i'r llys i gefnogi dedfrydu cyflawnwyr cam-drin domestig. Rydym wedyn yn ystyried ansawdd y gwaith cyn-rhyddhau a chynllunio ar gyfer rhyddhau pobl sy'n cwblhau dedfrydau o garchar. Nesaf, rydym yn adrodd ar ansawdd asesiadau a chynlluniau ar gyfer unigolion sy'n cyflawni cam-drin domestig. Yn olaf, rydym yn rhoi sylwadau ar ansawdd rhannu gwybodaeth gydag asiantaethau eraill.

## 3.1. Cyngor i'r llys




Mae gan staff prawf rôl hanfodol yn cefnogi llysoedd i wneud penderfyniadau priodol ynghylch dedfrydu ac addasrwydd ar gyfer yr amrywiaeth o ymyriadau sydd ar gael i hyrwyddo newid ac ymatal rhag troseddu. Yn ein rhaglen graidd o arolygiadau prawf oedolion, rydym wedi arolygu 140 o achosion lle rhoddwyd cyngor i'r llys ynghylch pryderon bod y diffynnydd yn cyflawni cam-drin domestig. Yn gyffredinol, gwelsom fod ansawdd y cyngor i lysoedd ar gyfer y garfan hon yn debyg i ansawdd cyffredinol adroddiadau llys. Er bod cynnig priodol wedi'i roi i'r llys mewn 83 y cant o achosion, dim ond 44 y cant a ddarparodd wybodaeth cyn-dedfrydu digon dadansoddol i gefnogi penderfyniadau'r llys. Nid oedd yr holl ffynonellau gwybodaeth a oedd ar gael, gan gynnwys diogelu plant a cham-drin domestig, wedi cael eu defnyddio, gan arwain at fylchau yn y ddealltwriaeth ynghylch pwy oedd, neu a allai fod, mewn perygl oherwydd yr unigolyn.

Mewn 32 o'r 38 achos a adolygwyd gennym yn yr arolygiad hwn lle rhoddwyd cyngor i'r llys, roedd staff y llys naill ai wedi gwneud ymholiadau angenrheidiol gyda'r heddlu i gael gwybod am unrhyw hanes o gam-drin domestig neu roedd ganddynt wybodaeth ddigonol eisoes i wneud asesiad gwybodus o'r risg; fodd bynnag, mewn tri achos nid oedd tystiolaeth bod ymateb i'r ymholiadau wedi'i dderbyn. Yn ogystal ag ymholiadau i'r heddlu, gwelsom, mewn 31 o achosion lle'r oedd angen gwybodaeth gan wasanaethau gofal cymdeithasol i blant, fod ymholiadau priodol wedi'u gwneud mewn 25 o achosion, neu fod digon o wybodaeth eisoes yn hysbys, gan adael chwe achos lle nad oedd gwiriadau angenrheidiol wedi'u gwneud. Mewn pedwar achos, nid oedd unrhyw gofnod bod ymateb i'r ymholiadau wedi dod i law. Daeth yr adran o *Ddeddf Cam-drin Domestig 2021* sy'n cydnabod bod plant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt yn ddioddefwyr ynddynt eu hunain i rym ar 30 Ionawr 2022. Fodd bynnag, ar gyfer 14 o'r 17 achos lle nad oedd hyn wedi cael ei ystyried, roedd adroddiadau ar gyfer y llys wedi cael eu hysgrifennu ar ôl y dyddiad hwn, sy'n dangos nad oedd staff y llys prawf yn ystyried y newidiadau'n llawn eto.

Mewn 15 o'r 38 achos, ni fu dadansoddiad digonol mewn perthynas â'r risg o gam-drin domestig. Roedd y diffygion a nodwyd gennym yn cynnwys methiannau i ddadansoddi ymddygiad neu batrymau ymddygiad camdriniol blaenorol yn y cartref. Mewn rhai achosion, roedd methiant i gydnabod y troseddu fel cam-drin domestig, yn bennaf lle'r oedd y dioddefwr yn aelod o'r teulu yn hytrach na phartner agos. Mewn 16 o'r 26 achos lle y dylai SARA fod wedi'i gwblhau, nid oedd wedi

cael ei gwblhau. Mewn tri arall, roedd wedi'i gwblhau ond nid yn gywir, gan arwain at aseinio lefel risg isel yn amhriodol. Roedd ansawdd asesiadau SARA yn wael ar y cyfan, gyda phrin dim dadansoddiad i gefnogi'r sgoriau a ddarparwyd.

| Enghraifft o ymarfer gwael |
|---|
| Cafodd Arnold ei ddedfrydu i orchymyn cymunedol 12 mis gyda 15 diwrnod RAR yn dilyn trosedd o aflonyddu ar ei gyn-bartner ar ôl i'w perthynas ddod i ben. Nid oedd awdur yr adroddiad cyn-dedfrydu yn nodi'r troseddu fel cam-drin domestig. O ganlyniad, ni wnaed unrhyw ymholiadau gyda'r heddlu er mwyn gallu ystyried unrhyw batrymau mewn perthnasoedd neu ymddygiad, ac ni ychwanegwyd unrhyw gofrestriadau at system rheoli achosion nDelius i dynnu sylw at gam-drin domestig fel pryder. Ni chafodd SARA ei gwblhau, ac ni chafodd yr offeryn EPF ei ddefnyddio. |

Roedd ein harolwg yn dangos bod llysoedd, yn amlach na pheidio, yn dilyn cynigion dedfrydu'r gwasanaeth prawf; yn ein sampl, cafodd 24 eu dilyn yn llawn a chwech arall yn rhannol. Dywedodd dedfrydwyr wrthym eu bod yn gwerthfawrogi gwaith y staff prawf yn y llys a'u bod yn fodlon ar y cyfan ag ansawdd y wybodaeth a ddarparwyd. Fodd bynnag, mynegodd rhai dedfrydwyr bryder bod gormod o wybodaeth weithiau'n cael ei chynnwys mewn adroddiadau, a oedd, yn eu barn hwy, yn fwy er budd yr ymarferydd prawf yn y dyfodol a fyddai'n rheoli'r achos, yn hytrach na'r llys. Yn ogystal, mewn rhai llysoedd, gofynnwyd am ohiriad o bedair wythnos i ddarparu adroddiad dedfrydu. Teimlai dedfrydwyr fod hyn yn rhy hir, ac roedd yn eu poeni, o ystyried eu bod yn canolbwyntio ar symud achosion cam-drin domestig yn gyflym drwy'r llysoedd, er budd dioddefwyr.

Yr enghreifftiau gorau o gyngor i'r llys oedd y rhai a oedd yn defnyddio'r holl wybodaeth a oedd ar gael, gan gynnwys ymatebion blaenorol i oruchwyliaeth, i wneud cynnig cwbl wybodus a realistig. Rhoddir enghraifft isod.

| Enghraifft o ymarfer da |
|---|
| Dedfrydwyd Chris i 16 mis o garchar ar ôl torri gorchymyn atal. Dangosodd ei hanes o euogfarnau nifer o droseddau yn erbyn yr un dioddefwr am fwy na 12 mlynedd. Roedd yr adroddiad cyn-dedfrydu a ysgrifennwyd ar gyfer y trosedd hwn yn defnyddio'r holl ffynonellau gwybodaeth a oedd ar gael, gan gynnwys asesiadau blaenorol a gwybodaeth gan yr heddlu a gwasanaethau gofal cymdeithasol plant. Rhoddodd wybodaeth briodol am fregusrwydd, camddefnyddio sylweddau a grŵp cymheiriaid negyddol Chris ei hun. Roedd yr awdur yn nodi'n glir effaith troseddu Chris ar y dioddefwr. Roedd gan Chris hanes o gydymffurfio gwael â dedfrydau blaenorol, a chafodd hyn ei ystyried wrth ystyried pa mor effeithiol fyddai opsiynau dedfrydu posibl o ran cynnig cyfleoedd i ailsefydlu ac amddiffyn y dioddefwr. |

## 3.2. Cyn rhyddhau

Mae paratoi ar gyfer rhyddhau o'r carchar yn hanfodol er mwyn sicrhau bod cynlluniau ar waith i gefnogi'r unigolyn ac amddiffyn dioddefwyr. Yn ddiweddar, rydym wedi adrodd am bryderon am weithgarwch cyn-rhyddhau, yn ein harolwg thematig ar y cyd o reoli troseddwyr yn y ddalfa (Arolygiaethau Prawf a Charchardai EF, 2023), lle gwelsom ddiffyg gwaith paratoi ar gyfer unigolion sy'n cael eu rhyddhau o'r ddalfa. Yn yr arolygiad hwn, gwnaethom arolygu 28 o achosion ar ôl rhyddhau a chanfod mai dim ond hanner oedd wedi gwneud digon o waith cyn rhyddhau. Daethom o hyd i enghreifftiau lle nad oedd llawer o ystyriaeth na chynllunio ar gyfer rhyddhau. Mewn naw achos, roedd hyn wedi arwain at fethu â gosod amodau trwydded hanfodol. Roedd ailddyrannu'r achos i ymarferydd newydd yn agos at ddyddiadau rhyddhau wedi cael effaith negyddol ar gynllunio


cyn rhyddhau rhai unigolion. Gwelsom hefyd achosion lle'r oedd cynllunio cyn rhyddhau wedi digwydd ond yn canolbwyntio'n unig ar risgiau sy'n gysylltiedig â'r brif drosedd, gan ddiystyru pryderon am gam-drin domestig. Roedd yr achos a amlinellir isod yn cynrychioli rhai o'r materion a welsom mewn ymarfer cyn-rhyddhau.

| **Enghraifft o ymarfer gwael** |
|---|
| Rhoddwyd dedfryd o 14 wythnos i Ed yn y carchar am dorri gorchymyn atal yn erbyn ei gyn-bartner. Roedd yn rhannu plant gyda'r dioddefwr ac roedd ganddo hanes o droseddau yn ei herbyn, ac roedd wedi cael ei oruchwylio gan y Gwasanaeth Prawf o ganlyniad i'r troseddau hynny. Aseswyd ei fod yn peri risg uchel o niwed difrifol i'r dioddefwr ac i bartneriaid yn y dyfodol. Cafodd achos Ed ei ddyrannu'n gyflym, ond ni wnaeth yr ymarferydd prawf unrhyw gyswllt ag ef cyn iddo gael ei ryddhau. Ychydig a wnaed i gynllunio ar gyfer rhyddhau, ar wahân i gyfeirio am gymorth tai. Roedd sgriniad a gwblhawyd yn y ddalfa yn awgrymu ei fod mewn perthynas newydd, ond nid oedd yr ymarferydd prawf wedi sylwi ar hyn, ac felly ni wnaed unrhyw ymholiadau gyda'r heddlu na'r gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant ynghylch ei bartner newydd. Roedd troseddau Ed yn gysylltiedig ag alcohol, ond ni chafodd hyn ei ystyried yn ei gynllun rhyddhau. Ar ôl ei ryddhau, symudodd Ed ei gyfeiriad cartref sawl gwaith heb ganiatâd, ac ni wnaed unrhyw archwiliadau ynghylch addasrwydd y cyfeiriadau. Dywedodd ei fod yn defnyddio alcohol yn rheolaidd, ac er gwaethaf y cysylltiadau â'i droseddu blaenorol, nid oedd hyn wedi ysgogi adolygiad. Caniatawyd i drwydded Ed lithro, gydag ychydig iawn o weithgarwch ystyrlon yn digwydd i leihau'r risg o droseddu pellach tebyg. |

Yn gyffredinol, gwelsom fod cynllunio'n mynd i'r afael â risgiau cam-drin domestig yn ddigonol mewn dim ond 12 o'r 28 achos trwydded a arolygwyd gennym. Roedd yr enghreifftiau gorau a welsom yn ystyried yr holl wybodaeth a oedd ar gael am yr unigolyn yn llawn ac yn defnyddio'r holl gyfleoedd perthnasol i ddiogelu dioddefwyr ac atal rhagor o droseddu. Mae enghraifft o achos cadarnhaol yn cael ei rhannu isod.

| **Enghraifft o ymarfer da** |
|---|
| Cafodd Brendan ei ddedfrydu i'r ddalfa am drais difrifol yn erbyn ei wraig. Newidiwyd ei ymarferydd prawf dri mis cyn ei ryddhau, ac er bod hyn wedi digwydd yn hwyrach nag a fyddai'n ddelfrydol, roedd ffocws da ar gynllunio ar gyfer rhyddhau. Cafodd rheolwr troseddwyr y carchar a'r rheolwr troseddwyr cymunedol gyfarfod trosglwyddo cynhwysfawr, a chynhaliwyd ymweliadau cyn rhyddhau gyda Brendan. Cysylltodd yr ymarferydd prawf â'r swyddog cyswllt dioddefwyr i sicrhau ei fod yn ystyried anghenion y dioddefwr yn drylwyr. Ar ben hynny, fe wnaethant ymholiadau drwy'r ganolfan ddiogelu aml-asiantaeth, i gael gwybodaeth am y plant y gallai Brendan fod mewn cysylltiad â nhw ac i sicrhau bod mesurau diogelu priodol ar waith. Cyfeiriwyd achos Brendan at gynadleddau asesu risg aml-asiantaeth, er mwyn sicrhau bod yr holl asiantaethau perthnasol yn ystyried diogelwch y dioddefwr. Roedd yr ymarferydd wedi asesu bod angen lleoliad mewn adeilad cymeradwy ac y dylid trafod achos Brendan o dan MAPPA hefyd, a chwblhau atgyfeiriadau ar gyfer y ddau. Cynhaliwyd cyfarfod gweithwyr proffesiynol a chyfarfod MAPPA lefel 3 cyn rhyddhau, gan sicrhau bod amodau trwydded priodol yn cael eu gosod a bod mesurau diogelu ar waith ar gyfer y dioddefwr. Ymgynghorodd yr ymarferydd prawf â thîm y llwybr anhwylder personoliaeth i sefydlu'r ffyrdd mwyaf effeithiol o ymgysylltu â Brendan. Roeddent wedi defnyddio'r canllawiau a ddarparwyd ac wedi trafod cynlluniau ar gyfer rhyddhau gyda Brendan, i osod disgwyliadau, ac wedi egluro amodau ei drwydded yn llawn. Cyfeiriwyd Brendan am gymorth gyda gwasanaethau tai a chamddefnyddio sylweddau. Er gwaethaf ailddyrannu achos Brendan yn hwyr, cymerwyd pob cam priodol i reoli'r risgiau a berodd ac i'w gefnogi i gael cyfnod trwydded llwyddiannus. |

## 3.3. Asesiad




Mae asesiad cynhwysfawr sy'n ystyried yr holl wybodaeth berthnasol am y person sydd ar brawf yn hanfodol er mwyn cynllunio'n effeithiol i leihau'r risg o gam-drin domestig pellach. Yn ein harolygiadau craidd, rydym wedi bod yn poeni'n rheolaidd am ansawdd asesiadau. Yn ein rhaglen arolygu PDU lleol bresennol, dim ond 34 y cant o'r holl achosion sydd wedi cael asesiad a oedd yn canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl yn ddiogel. Nid oes llawer o wahaniaeth rhwng ansawdd yr asesiadau ar gyfer unigolion sydd â phryderon ynghylch cam-drin domestig a'r rheini lle nad yw hyn yn nodwedd. Yn ein harolwg thematig blaenorol o gam-drin domestig (Arolygiaeth Prawf EF, 2018), gwelsom fod yr asesiadau'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw dioddefwyr yn ddiogel mewn 58 y cant o'r achosion. Yn bryderus, yn yr arolygiad thematig hwn, gwelsom mai dim ond 28 y cant o'r achosion a oedd ag asesiad a oedd yn darparu dadansoddiad digon clir o risgiau cam-drin domestig.

Yn gyffredinol, roedd asesiadau'n ystyried amgylchiadau personol y person ar brawf a sut roedd y rhain yn effeithio ar allu'r unigolyn i gydymffurfio â'i ddedfryd, er nad oedd effaith nodweddion gwarchodedig yn cael ei hystyried gystal. Ychydig o dystiolaeth a welsom fod hil, ethnigrwydd, rhyw neu ddiwylliant yn cael eu hystyried fel mater o drefn wrth ystyried sut y gallai unigolyn ymgysylltu â'i ddedfryd. Mewn rhai achosion, roedd pobl ar brawf wedi nodi eu bod yn ofalwr, weithiau i'w dioddefwr, ac nid oedd goblygiadau hyn bob amser yn cael eu hystyried yn llawn.

Mae'r fframwaith polisi cam-drin domestig yn nodi y dylid cwblhau SARA ym mhob achos lle mae cam-drin personol gan bartneriaid wedi cael ei nodi mewn ymddygiad presennol neu flaenorol, er mwyn asesu'r tebygolrwydd o droseddu pellach sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig, ac felly mae'n elfen allweddol mewn asesiadau. Mae Tabl 2 yn dangos ein canfyddiadau ynghylch cwblhau SARA yn y 60 achos a arolygwyd gennym.

*Tabl 2*

| A gwblhawyd SARA fel rhan o'r asesiad? | Nifer | % |
|---|---|---|
| Eisoes wedi'i gwblhau a'i ddiweddaru | 4 | 7% |
| Do, ac mae'n gywir | 24 | 40% |
| Do, ond nid yw'n gywir | 10 | 17% |
| Na, a dylid fod wedi gwneud hynny | 13 | 22% |
| Na, dim angen | 9 | 15% |

Er bod asesiadau SARA fel arfer yn nodi'r lefel risg gywir, nid oedd y rhan fwyaf a arolygwyd wedi cael digon o waith dadansoddi i wneud yr asesiad yn ystyrlon. Roedd yr anghywirdebau a nodwyd gennym yn aml yn cynnwys peidio â chynnwys ymddygiad cam-drin domestig blaenorol a manylion anghywir am statws perthynas bresennol yr unigolyn. Weithiau nid oedd yr ymarferwyr prawf y buom yn eu cyfarfod yn glir ynghylch a oedd yr adnodd SARA yn addas i'w ddefnyddio gyda

menywod sy'n cyflawni cam-drin domestig, ac roedd hyn yn wir am rai o'r asesiadau a oedd ar goll; mewn eraill, roedd yr asesiad wedi'i farcio i ddweud nad oedd asesydd addas ar gael, er bod naw yn swyddogion prawf cymwysedig y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt fod wedi ymgymryd â'r hyfforddiant priodol. Gan fod SARA yn cael ei ddefnyddio i bennu ymyriadau priodol, mae'n annerbyniol ei fod yn cael ei gwblhau'n wael mewn cynifer o achosion.

Nid oedd dros hanner (57 y cant) yr asesiadau OASys yn dadansoddi pryderon penodol am ddioddefwyr gwirioneddol a dioddefwyr posibl sy'n oedolion yn ddigonol. Dim ond 43 y cant o'r asesiadau oedd yn defnyddio'r holl ffynonellau gwybodaeth a oedd ar gael yn ddigonol. Mewn rhai achosion, er bod ymholiadau wedi'u gwneud gyda'r heddlu i ddeall unrhyw gam-drin domestig blaenorol, nid oedd y wybodaeth wedi'i chynnwys yn yr asesiad. Mewn gormod o achosion, nid oedd yr ystod lawn o ddioddefwyr neu ddioddefwyr posibl wedi cael eu hystyried. Lle'r oedd troseddau wedi'u cyflawni yn erbyn aelodau o'r teulu, nid o fewn perthynas agos, nid oedd y risgiau ehangach a berid gan yr unigolyn yn cael eu hystyried bob amser. Rhoddir enghraifft isod.

**Enghraifft o ymarfer gwael**

Rhoddwyd gorchymyn cymunedol 12 mis i Dev am drosedd treisgar yn erbyn ei dad, a ddigwyddodd yng nghartref y teulu, lle'r oedd yn byw gyda'i rieni a brodyr a chwiorydd sy'n agored i niwed. Symudodd Dev allan o gartref y teulu yn dilyn y trosedd. Ni chafodd asesiad cychwynnol ei gwblhau tan bedwar mis ar ôl ei ddedfryd, ac erbyn hynny roedd Dev wedi dychwelyd i gartref y teulu. Gwnaed ymholiadau gyda'r heddlu a gwasanaethau gofal cymdeithasol plant; fodd bynnag, nid fu cyswllt gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion, er i Dev adrodd ei fod yn ofalwr i'w frawd. Nodwyd mai'r sbardunau ar gyfer troseddu oedd y pwysau yn y cartref teuluol a'r defnydd o alcohol. Roedd hanes o gam-drin domestig, ac roedd gorchymyn atal trais domestig wedi'i roi hefyd. Roedd gan Dev bartner, ac ni wnaed asesiad o'r risgiau iddi.

Weithiau roedd ymarferwyr prawf yn ymddangos fel pe baent yn neilltuo unigolion i un math o droseddu ac yn methu â thynnu cymariaethau rhwng gwahanol fathau o ymddygiad camdriniol yn y cartref. Er enghraifft, lle'r oedd cam-drin wedi digwydd yn wreiddiol yn erbyn aelod o'r teulu yng nghartref y teulu, ni roddwyd digon o ystyriaeth i risgiau a allai fod wedi cynyddu pan symudodd y sawl a gyflawnodd y trosedd i mewn gyda phartner agos. Yn yr un modd, roedd rhai ymarferwyr o'r farn bod y gamdriniaeth wedi'i hynysu i un berthynas ac wedi methu ag ystyried y potensial ar gyfer rhagor o gam-drin mewn perthnasoedd newydd. Gall canllawiau ymarfer fod yn cyfrannu'n anfwriadol at hyn. Yn yr offeryn OASys, wrth asesu risg, mae'n ofynnol i ymarferwyr osod lefel mewn pedwar categori: oedolion hysbys, plant, y cyhoedd a staff. Mae canllawiau cyfredol y Gwasanaeth Prawf yn cyfarwyddo:

**Nid yw "partner yn y dyfodol" (mewn geiriau eraill, person yn y dyfodol y mae'n ffurfio perthynas ag ef) yn oedolyn hysbys gan nad yw'r berthynas honno wedi digwydd eto ac nid oes modd eu hadnabod. Dylech gofnodi'r grŵp hwnnw o dan risg i'r cyhoedd.'[19]**

(Assessing Domestic Abuse within OASys Guidance, Mawrth 2022)

Drwy drafodaethau gydag ymarferwyr a rheolwyr prawf, daethom i'r casgliad nad yw'r canllawiau hyn yn ddefnyddiol a'u bod yn gwanhau'r asesiad o gam-drin domestig. Mae nodi'r unigolyn fel risg i'r cyhoedd yn dangos ei fod yn peri risg fwy anwahaniaethol na risg benodol wrth ffurfio perthynas bersonol newydd. Byddai diffiniad amgen o oedolyn hysbys, fel rhywun sy'n hysbys iddynt ar y

[19]Assessing Domestic Abuse within OASys Guidance, Mawrth 2022 gyda dolen drwy HMPPS Domestic Abuse Policy Framework 2020.

pwynt lle mae risg yn bodoli, yn darparu asesiad mwy manwl ac yn eu cefnogi i ganfod bod perthynas newydd (ac ar yr adeg honno, mae’r oedolyn yn dod yn hysbys) yn sbardun ar gyfer risg, a bod angen gweithredu.


Gwnaethom asesu bod lefel gyffredinol y risg a neilltuwyd i'r achosion a arolygwyd gennym yn gywir mewn 82 y cant o'r achosion a adolygwyd gennym; mewn un asesiad, roedd yn rhy uchel, ac mewn 10 achos, yn rhy isel. Roedd y themâu ymysg yr asesiadau lle’r oedd y risg wedi cael ei thanamcangyfrif yn cynnwys methiant i ystyried ymddygiad treisiol blaenorol yn y cartref a pheidio â cheisio gwybodaeth bwysig. Hefyd, nid oedd rhai achosion yn cynnwys dioddefwyr gwirioneddol neu ddarpar ddioddefwyr yn yr asesiad. Yn aml, roedd enbydrwydd yn cael ei danamcangyfrif; er enghraifft, roedd y sawl a gyflawnodd y trosedd yn dal i fyw gyda’r dioddefwr ac nid oedd fawr ddim wedi newid ers amgylchiadau’r prif drosedd.

### Asesu risgiau i blant

Mae cam-drin domestig yn effeithio ar les plant, pa un a ydynt yn dyst i ddigwyddiadau’n uniongyrchol neu’n byw gydag oedolion sy’n ddioddefwyr neu’n gyflawnwyr. I gydnabod hyn, o 30 Ionawr 2022 ymlaen, mae *Deddf Cam-drin Domestig 2021* yn ei gwneud yn ofynnol i blant sy’n profi effeithiau cam-drin domestig gael eu hystyried yn ddioddefwyr ynddynt eu hunain, ac roeddem yn gobeithio gweld ymarfer prawf yn ystyried hyn wrth asesu risgiau i blant. Yn ein harolwg blaenorol, gwelsom fod 43 y cant o’r asesiadau, lle’r oedd angen hynny, yn canolbwyntio’n ddigonol ar gadw plant yn ddiogel. Yn yr arolygiad presennol, roeddem wedi ystyried a oedd yr asesiad yn dadansoddi pryderon penodol am ddioddefwyr gwirioneddol a dioddefwyr posibl sy’n blant yn ddigonol, a gwelsom mai dim ond mewn 45 y cant o’r achosion perthnasol y gwnaed hynny. O ystyried y ffocws deddfwriaethol diweddar ar gydnabod yr angen i ystyried plant, roedd hyn yn destun pryder mawr i ni.

Nid yw’r arfer a welsom yn cynnig sicrwydd bod pob cyfle yn cael ei gymryd i ddiogelu plant rhag risgiau cam-drin domestig. Nid yw ymarferwyr prawf eto’n cydnabod plant fel dioddefwyr ynddynt eu hunain nac yn ystyried yn gyson eu rôl o ran lles plant sy’n gysylltiedig ag unigolion sy’n cyflawni cam-drin domestig.

## 3.4. Cynllunio




Rydym yn disgwyl bod gan bobl ar brawf gynlluniau cynhwysfawr ar waith sy’n mynd i’r afael â’r risgiau a nodwyd yn yr achos. Roedd ein canfyddiadau bod yr asesiad o’r risg o gam-drin domestig yn annigonol mewn gormod o achosion yn amlwg yn gysylltiedig ag ansawdd y cynllunio, er bod rhai agweddau ar gynllunio yn fwy cadarnhaol. Ystyriwyd barn y person ar brawf wrth gynllunio mewn bron i dri chwarter yr achosion a arolygwyd gennym, ac roedd cynlluniau fel arfer yn nodi patrwm a math o gyswllt a oedd yn ddigonol i gefnogi ymyriadau a gynlluniwyd

Roedd cynlluniau rheoli risg yn fwy tebygol o nodi cyfyngiadau a mesurau i amddiffyn dioddefwyr na chynnwys gweithgareddau adeiladol. Yn gyffredinol, mewn 74 y cant o’r achosion lle’r oedd angen gwneud hynny, roedd y cynllunio’n nodi cyfyngiadau a mesurau i amddiffyn dioddefwyr. Mewn 52 y cant o achosion, roedd y cynllunio’n cynnwys gweithgareddau adeiladol i fynd i’r afael â cham-drin domestig. Mae enghraifft o gynllunio o ansawdd da wedi’i chynnwys isod.

| Enghraifft o ymarfer da |
| --- |
| Derbyniodd Greg orchymyn cymunedol am ddifrod troseddol a gyflawnwyd yng nghyfeiriad cartref ei bartner yng ngŵydd eu plentyn ifanc. Nid oedd ganddo unrhyw euogfarnau blaenorol, ond roedd yr heddlu wedi dod i’r cyfeiriad ar achlysuron blaenorol oherwydd adroddiadau o gam-drin domestig. Yn dilyn yr asesiad, cafodd cynllun cadarn ei greu, gyda mewnbwn Greg. Gan gydnabod bod magwraeth Greg wedi bod yn anodd, a’i fod wedi treulio amser yn y system ofal, nodwyd ffynonellau cymorth i’w helpu. Roedd y cynllun yn cynnwys manylion perthnasol am weithgareddau’r gwasanaeth gofal cymdeithasol i blant a chamau gweithredu i’r ymarferydd prawf a Greg eu cyflawni, gan gynnwys apwyntiadau a chyfarfodydd. Amlinellodd y cynllun y gwaith ymyrryd yr oedd disgwyl i Greg ei gwblhau, ac roedd yn amlwg bod hyn wedi cael ei drafod gydag ef. Roedd ei waith a’i ymrwymiadau eraill wedi cael eu hystyried gyda’r amserlenni arfaethedig. Roedd y cynllun wrth gefn yn cynnwys camau gweithredu a fyddai’n cael eu cymryd pe bai risgiau hysbys yn ailymddangos – er enghraifft, perthnasoedd newydd neu ailddechrau perthynas â’r dioddefwr, colli llety, neu ddiweithdra. Roedd y cynllun yn rhoi sylfaen gadarn i Greg weithio gyda’i ymarferydd prawf, gan wybod beth oedd disgwyl iddo ei wneud. Roedd hefyd yn rhoi sylfaen gadarn i’r ymarferydd prawf adolygu cynnydd ac ystyried a oedd y risgiau wedi cynyddu neu leihau yn ystod ei ddedfryd. |

Mae gwaith cam-drin domestig bron bob amser yn mynnu bod ymarferwyr prawf yn gweithio gydag asiantaethau eraill, fel yr heddlu neu wasanaethau gofal cymdeithasol plant, i sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu hamddiffyn. O’r 55 achos lle’r oeddem yn disgwyl cynlluniau i nodi camau gweithredu ac amserlenni gwaith asiantaethau eraill, mewn chwe achos roedd hyn wedi’i gynnwys yn llawn, mewn 24 wedi’u cynnwys yn rhannol, ac mewn 25 achos arall roedd hyn ar goll. Mewn 42 y cant o’r achosion a arolygwyd gennym, fe wnaethom asesu y dylid bod wedi cyfeirio at ryw fath o fforwm aml-asiantaeth, ond ni chafodd hyn ei gynnwys. Roeddem yn ansicr mewn rhai achosion a oedd hyn yn ymwneud â diffyg cynllunio i gynnwys fforymau o’r fath neu a oedd hyn yn fater cofnodi. Er bod canllawiau mwy diweddar wedi cadarnhau na ddylid cyfeirio at y gynhadledd asesu risg aml-asiantaeth (MARAC) mewn asesiad OASys (er enghraifft, rhag ofn i’r person ar brawf ofyn am fynediad at ei gofnodion, a allai ddatgelu gwybodaeth am ddioddefwr yn anfwriadol), dylid cofnodi gweithgarwch o’r fath yn nDelius, gan ddefnyddio confensiynau cofnodi priodol i ddiogelu’r wybodaeth. Roedd ymarferwyr prawf yn ymwybodol bod angen iddynt fod yn ofalus ynghylch cynnwys cyfeiriadau at MARAC, ond roedd hyn yn golygu nad oedd rhai ymarferwyr yn cofnodi gwybodaeth bwysig. Ar ben hynny, gwelsom naw achos lle’r oeddem yn asesu y byddai rheolaeth MAPPA wedi ychwanegu gwerth yn yr achos, ond nid oedd hyn wedi cael ei ystyried.

Dylai cynlluniau rheoli risg gynnwys cynllun wrth gefn sy’n darparu ar gyfer risgiau rhagweladwy a allai godi yn y dyfodol, er nad ydynt yn bodoli ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gwelsom fod gan lai na hanner yr achosion a arolygwyd gennym gynlluniau wrth gefn a oedd yn rhoi digon o sylw i’r posibilrwydd o gam-drin domestig.


Daethom i’r casgliad mai dim ond mewn 37 y cant o’r achosion a arolygwyd yr ymdriniwyd â risgiau cam-drin domestig yn ddigonol.

## 3.5. Rhannu gwybodaeth

Yn gyffredinol, gwelsom ddiffyg rhannu gwybodaeth effeithiol rhwng gwasanaethau prawf ac asiantaethau eraill, sy’n peri pryder. Roedd hyn wedi cael ei wneud yn ddigon da i reoli’r risg o gam-drin domestig mewn 34 y cant yn unig o’r achosion.

Mae ISA ar waith rhwng Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a HMPPS[20] i gefnogi’r gwaith o rannu gwybodaeth rhwng yr heddlu a’r gwasanaethau prawf. Fodd bynnag, mae trefniadau lleol i hwyluso hyn yn amrywio ar draws Cymru a Lloegr, ac mae’r rhan fwyaf o heddluoedd yn darparu gwybodaeth yn ychwanegol at yr hyn a nodir yn y ddogfen honno. Rydym wedi adrodd o’r blaen[21] ar broblemau a brofwyd yn ardal yr Heddlu Metropolitan, lle darperir gwybodaeth gan yr heddlu dim ond pan all yr ymarferydd prawf ddangos hanes hysbys o drais. Gwelsom fod gan ymarferwyr prawf yn Llundain ddealltwriaeth amrywiol o’r meini prawf presennol. Felly, nid ydynt bob amser yn gofyn am wybodaeth pan fyddant yn rhagweld y bydd hyn yn cael ei wrthod, ac nid ydynt yn herio nac yn uwchgyfeirio ceisiadau a wrthodir gan eu bod yn teimlo na fydd hyn yn llwyddiannus. Mae Ffigur 1 yn dangos cyfran yr achosion yn ein hadroddiadau arolygu PDU a gyhoeddwyd rhwng mis Ionawr 2022 a mis Mawrth 2023 lle dylai ymholiadau cam-drin domestig fod wedi cael eu gwneud, ond heb gael eu cynnal.

*Ffigur 1*




Mewn mannau eraill, mae rhai ardaloedd prawf wedi datblygu trefniadau effeithiol iawn gyda heddluoedd lleol, gan ganiatáu iddynt dderbyn gwybodaeth ddyddiol neu wythnosol am ddigwyddiadau neu arestiadau yn achos pobl ar eu baich achosion. Yn PDU Henffordd, Swydd Amwythig a Telford, mae ymarferwyr prawf yn gallu rhannu’r rhestr o achosion y maent yn pryderu amdanynt â Heddlu Gorllewin Mersia a byddant wedyn yn cael unrhyw wybodaeth am arestio neu ddigwyddiad am yr unigolion hynny. Yr enghraifft fwyaf cynhwysfawr a welsom oedd yng Nghaerdydd, fel y manylir isod.

---

[20]Adeg ysgrifennu’r adroddiad hwn, roedd yr ISA yn cael ei adolygu.
[21]Mae ein harchwiliadau o chwe PDU yn Llundain a gwblhawyd yn 2022 ar gael ar ein gwefan: https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/inspections/.

**Enghraifft o ymarfer da – Caerdydd**

Mae gan y gwasanaeth prawf a'r heddluoedd yng Nghymru broses o gofnodi digwyddiadau lled-awtomatig y cytunwyd arni ar gyfer cyfnewid llwyth achosion y gwasanaeth prawf a data digwyddiadau'r heddlu. Y nod yw sicrhau bod yr heddlu'n cael eu hysbysu am bob troseddwr dan oruchwyliaeth statudol y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru, a bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo o'r heddlu i'r Gwasanaeth Prawf mewn perthynas â throseddwyr sy'n gysylltiedig â digwyddiad hysbysadwy. Mae'r model hwn yn cefnogi rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol. Ei nod yw sicrhau bod staff prawf yn gwybod am wybodaeth berthnasol am risg a'u bod yn gallu cymryd camau priodol i reoli'r risg honno. Mae gweinyddwyr achos yn derbyn gwybodaeth ac yn ei throsglwyddo i system rheoli achosion y gwasanaeth prawf. Disgwylir wedyn i ymarferwyr prawf gymryd camau ynghylch y digwyddiad drwy ymgynghori â'u rheolwyr, a chofnodi penderfyniadau sy'n deillio ohono.

Yn ogystal ag unrhyw gyfnewid gwybodaeth yn rhagweithiol, gall ymarferwyr prawf wneud ymholiadau gyda heddluoedd yn gyfnodol drwy gydol y ddedfryd wrth adolygu risgiau neu pan fydd ganddynt bryder bod risgiau'n cynyddu. Mewn rhai PDUs, gwelsom fod cytundebau lleol ar waith i hwyluso ymholiadau rheolaidd yn ystod cyfnod y cytunwyd arno – er enghraifft, bob 12 wythnos. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, roedd hyn wedi arwain at wrthod ymholiadau rhwng yr adegau hyn, er bod pryderon wedi codi, fel partner newydd neu gamddefnyddio mwy o sylweddau. Ni chafodd yr holl broblemau gyda chyfnewid gwybodaeth eu huwchgyfeirio at reolwyr er mwyn mynd i'r afael â nhw.

Fel rhan o'r arolygiad, drwy ein hail sampl achosion, gofynnwyd am wybodaeth gan yr heddlu am yr unigolion, i ddeall a oeddent wedi dod i sylw'r heddlu ers dechrau ymyriad prawf. Ar ben hynny, roeddem eisiau deall a oedd ymarferwyr prawf yn gwybod a oedd unrhyw gam-drin domestig neu bryderon eraill wedi bod. Mewn 61 y cant o achosion lle bu rhywfaint o gysylltiad â'r heddlu, roedd yr ymarferydd prawf yn ymwybodol o hyn, mewn 10 y cant nid oeddent ac mewn 29 y cant nid oedd yn glir o'r ffeil achos a oeddent yn gwybod am hynny ai peidio. Lle'r oedd systemau rhagweithiol ar waith, fel yn enghraifft Cymru, roedd ymarferwyr fel arfer yn cael manylion am unrhyw ddigwyddiad yn gyflym. Mewn achosion eraill, daethant o hyd i fanylion am ddigwyddiad rai wythnosau ar ôl iddo ddigwydd, a oedd yn golygu bod cyfleoedd i weithredu yn cael eu colli. Pan wnaeth ymarferwyr prawf ymholiadau gyda'r heddlu, dim ond system wybodaeth yr heddlu lleol a gafodd ei gwirio fel arfer. Goblygiadau hyn yw pe bai'r unigolyn yn dod i sylw'r heddlu mewn heddlu cyfagos, ni fyddai archwiliadau lleol yn datgelu hyn. Mae'r achos isod yn dangos y broblem hon.

**Enghraifft o ymarfer gwael**

Rhoddwyd gorchymyn cymunedol i Logan gyda gofyniad i gwblhau BBR yn dilyn ymosodiadau ar ei bartner. Rhan o'r ffordd drwy ei ddedfryd, datgelodd ei fod wedi dechrau perthynas newydd. Ni wnaeth yr ymarferydd prawf unrhyw ymholiadau gyda'r heddlu nac asiantaethau eraill am ei bartner newydd na'i chyfeirio at y DASO, a allai fod wedi darparu cymorth. Fis ar ôl iddo ddatgelu'r berthynas, cafodd ei arestio a'i gyhuddo o droseddau tagu nad oedd yn angheuol ac ymosodiadau eraill yn erbyn ei bartner newydd. Ar y pwynt hwn, gwnaeth yr ymarferydd prawf gais am wybodaeth i'r heddlu lleol a ddychwelwyd, gan nodi nad oeddent wedi cael cyswllt â Logan. Datgelodd ymchwiliad pellach fod ei bartner newydd yn byw mewn ardal heddlu wahanol ac felly ni fyddai gwiriadau yn erbyn system wybodaeth yr heddlu lleol ar ei ben ei hun wedi datgelu'r digwyddiad hwn.

Mae Cronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu (PND) yn storfa ddata genedlaethol o wybodaeth am blismona gweithredol a ddarperir gan heddluoedd unigol. Mae'n cynnwys copïau o gofnodion yr heddlu a gedwir yn lleol, gan gynnwys gwybodaeth am gam-drin domestig a diogelu plant. Petai

ymatebion i geisiadau gan y gwasanaeth prawf am wybodaeth yn cynnwys gwiriadau yn erbyn y PND, byddai hyn yn lleihau'r risg o golli gwybodaeth hanfodol.

Wrth ofyn am wybodaeth gan yr heddlu, nid oedd ymarferwyr prawf bob amser yn glir ynghylch yr hyn yr oedd ei angen. Fel mae'r achos isod yn ei ddangos, gwelsom rai enghreifftiau o ymarferwyr yn gofyn i weinyddwyr achosion gynnal yr ymholiad heb roi cyfarwyddyd digonol ynghylch yr hyn oedd ei angen.

| **Enghraifft o ymarfer gwael** |
| --- |
| Dedfrydwyd Fraser i orchymyn cymunedol 18 mis gyda gofyniad i gwblhau gwaith di-dâl a diwrnodau RAR, yn dilyn torri gorchymyn blaenorol. Yr oedd ei drosedd wreiddiol yn ymosodiad ar ei fam tra'i bod yn dal ei mab blwydd oed; yr oedd ei phlentyn ifanc arall hefyd yn bresennol ac yn dyst i'r ymosodiad. Nid oedd yn glir o'r cofnodion achos a oedd y plant hyn wedi cael eu cyfeirio at wasanaethau gofal cymdeithasol plant, a pharhaodd Fraser i gael cyswllt â'i frodyr ifanc. Yn ystod y gorchymyn cymunedol, datgelodd Fraser ei fod wedi dechrau 'gweld rhywun' ond dywedodd nad oedd yn 'berthynas eto'. Derbyniodd yr ymarferydd prawf y disgrifiad hwn ac ni phwysodd am fanylion am y fenyw na holi a oedd ganddi blant. Ychydig yn ddiweddarach, dywedodd Fraser wrth ei ymarferydd prawf fod gan ei bartner blant a'u bod yn destun cynllun amddiffyn plant. Roedd partner Fraser yn byw mewn ardal awdurdod lleol wahanol, a gofynnodd yr ymarferydd i weinyddwr achos gyflwyno ffurflen ymholiad i wasanaethau gofal cymdeithasol plant; fodd bynnag, dim ond manylion Fraser a roddwyd, ac nid manylion ei bartner neu ei phlant. Nid oedd Fraser erioed wedi cael unrhyw gysylltiad ag ardal leol ei bartner, felly'r ymateb i'r ymholiad oedd nad oedd yn hysbys. Ni wnaed unrhyw ymholiadau pellach i gywiro'r camgymeriad hwn ac i holi am ei bartner a'i phlant. Yn ogystal, cyflwynwyd nifer o ffurflenni ymholiadau'r heddlu, ond nid oedd yr un ohonynt yn cynnwys cais clir nac yn egluro'r rhesymeg drosto. O ganlyniad, nid oedd yr ymatebion yn darparu gwybodaeth glir nac yn ychwanegu gwerth at yr asesiad risg. |

Mewn llawer o PDUs, nid oedd y berthynas weithredol â gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn gweithio'n dda. Lle'r oedd hybiau diogelu aml-asiantaeth yn cynnwys staff prawf, roedd y berthynas waith yn well ac roedd gwybodaeth yn cael ei rhannu'n fwy effeithiol. Fodd bynnag, roedd lle i wella o hyd i sicrhau bod staff prawf yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i rannu gwybodaeth am yr holl blant sydd mewn cysylltiad ag unigolion y gwyddys eu bod yn peri risg o gam-drin domestig. Mewn gormod o achosion, roedd gorddibyniaeth ar hunan-adroddiad y person ar brawf – er enghraifft, yr unigolyn yn dweud wrth ei ymarferydd nad oedd ganddo gysylltiad â'i blant ei hun na phlant partner newydd – ac ni wnaed unrhyw ymholiadau i ymchwilio i weld a oedd hyn yn wir. Ar ben hynny, daethom o hyd i achosion lle, er gwaethaf arwyddion clir bod y cyflawnwr mewn cysylltiad â phlant, nad ymchwiliwyd i hyn er mwyn deall a oedd y plant dan sylw eisoes yn cael eu cynnwys mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol plant neu a oedd y cyswllt wedi cael ei asesu i ystyried eu diogelwch. Rhoddir enghraifft isod.

| **Enghraifft o ymarfer gwael** |
| --- |
| Cafwyd Ellen yn euog o affráe; roedd manylion y trosedd yn cynnwys ymgais i drywanu ei dau fab sy'n oedolion yng nghartref y teulu. Roedd Ellen yn feddw adeg y trosedd a dywedodd nad oedd yn gallu ymdopi oherwydd y straen yng nghartref y teulu. Yn ystod y cam llys, dywedodd Ellen nad oedd ganddi unrhyw gyswllt ag unrhyw blant, felly ni wnaed unrhyw ymholiadau gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol plant. Ar ddechrau ei goruchwyliaeth, dywedodd Ellen wrth ei hymarferydd prawf ei bod yn gofalu am ddau o'i hwyrion a'i hwyresau yn ystod yr wythnos a bod hyn yn achosi straen iddi. Cyflwynodd yr ymarferydd prawf yr wybodaeth hon i wasanaethau gofal cymdeithasol plant ond ni ofynnodd am asesiad, ac ni chynhaliwyd trafodaeth ddilynol i asesu diogelwch nac addasrwydd y trefniant hwn. Yn ystod ei goruchwyliaeth, dywedodd Ellen fod ei pherthynas â'i gŵr yn gamdriniol a'i bod hefyd yn dioddef cam-drin domestig; er y ceisiwyd |

cefnogaeth iddi drwy fudiadau'r trydydd sector, ni archwiliwyd diogelwch y plant a oedd yn derbyn gofal yn y cartref.

Dywedodd ymarferwyr prawf mewn rhai ardaloedd wrthym fod eu perthynas â gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn wael, a'u bod yn cael eu nodweddu gan beidio â chael eu gwahodd i gyfarfodydd strategaeth neu gynadleddau amddiffyn plant, er eu bod yn ymwneud â rhiant y plentyn perthnasol. Mewn un PDU, disgrifiodd ymarferwyr prawf y berthynas fel a ganlyn:

"*Cywilyddus. Dydyn ni byth yn cael ein gwahodd i gyfarfodydd ac anaml iawn y byddwn ni'n clywed yn ôl ganddyn nhw."*

Mewn rhai PDUs, gwelsom ymdrechion cadarnhaol i feithrin cyd-ddealltwriaeth rhwng gwasanaethau prawf a gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant – er enghraifft, drwy gwblhau archwiliad misol o'r achosion a gyfeiriwyd, i ystyried ansawdd y wybodaeth a ddarparwyd a'r ymateb a gafwyd. Fodd bynnag, ni welsom lawer o dystiolaeth bod materion pwysig yn cael eu huwchgyfeirio i reolwyr, a hyd yn oed pan oeddent, ni chafwyd ateb. Mewn un ardal, roedd gennym bryderon difrifol nad oedd plant yn cael eu cyfeirio at wasanaethau gofal cymdeithasol plant oherwydd bod yr awdurdod lleol angen caniatâd y ddau riant i dderbyn atgyfeiriad. Mewn llawer o achosion cam-drin domestig, gall un rhiant fod dan oruchwyliaeth y Gwasanaeth Prawf, a gallai'r llall fod yn ddioddefwr y prif drosedd. Mewn achosion o'r fath, byddai'n gwbl amhriodol i'r ymarferydd prawf gysylltu â'r dioddefwr; fodd bynnag, heb hyn, byddai'r atgyfeiriad yn cael ei wrthod. Yn yr ardal hon, roedd rhai ymarferwyr wedi rhoi'r gorau i wneud atgyfeiriadau, gan adael plant mewn perygl o bosibl. Dywedodd y staff yma wrthym fod y sefyllfa wedi bod yn parhau ers dros bum mlynedd. Dywedodd uwch arweinwyr wrthym eu bod yn ymwybodol bod hyn wedi bod yn broblem yn y gorffennol, ond roeddent yn meddwl ei fod wedi cael ei ddatrys; fe wnaethant ymgymryd i fynd i'r afael ag ef eto. Mewn ardaloedd eraill, oherwydd ansawdd gwael yr ymatebion pan oedd ymarferwyr prawf yn gwneud ymholiadau i sefydlu a oedd plentyn eisoes yn hysbys i wasanaethau gofal cymdeithasol plant, roedd rheolwyr prawf yn cynghori ymarferwyr yn lle hynny i wneud atgyfeiriad llawn am yr achos, i sicrhau bod gwasanaethau prawf wedi cyflawni eu cyfrifoldeb i amddiffyn plant yn ddigonol. Gallai hyn arwain at waith diangen, a gwell ateb fyddai i arweinwyr gytuno ar y ffordd fwyaf effeithiol o rannu gwybodaeth, ac felly datrys y broblem sylfaenol.

Clywsom gan uwch swyddog prawf:

*"Dim ond ar ôl brwydr y cyfnewidir gwybodaeth, yn enwedig os yw'n wybodaeth hanesyddol. Mae'n bosibl nad ydynt yn deall rôl y Gwasanaeth Prawf, ond mae'n llesteirio eu gallu, a'n gallu ni, i reoli risg."*

## 3.6. Casgliadau a goblygiadau

Yn rhy aml, nid yw ymarferwyr prawf yn ystyried gwybodaeth bwysig yn llawn wrth asesu risgiau unigolion sy'n ymwneud â cham-drin domestig. Mae dadansoddi'r ffactorau allweddol yn aml yn annigonol, ac mae'r hepgorion hyn yn arwain at gynlluniau llai effeithiol nad ydynt yn mynd i'r afael â'r ystod lawn o risgiau i bob dioddefwr posibl, nac yn eu lliniaru. Nid yw prosesau sicrhau ansawdd a chydlofnodi yn gwneud fawr ddim i fynd i'r afael â'r diffygion. Mae asesu risg i blant yn faes pwysig nad yw wedi'i ddatblygu'n ddigonol mewn ymarfer prawf. Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos bod angen i ymarferwyr prawf ddeall natur gymhleth cam-drin domestig a'r ffactorau sy'n cyfrannu at ymddygiad o'r fath, er mwyn asesu a chynllunio'n gywir, a thrwy hynny leihau'r posibilrwydd o ragor o ddigwyddiadau.


Nid yw ISAs gyda'r heddlu bob amser yn sicrhau bod ymarferwyr prawf yn gwybod am ddigwyddiadau newydd. Yn ogystal, mae'r trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn broblemus mewn sawl ardal, a nodweddir gan ddiffyg cyd-ddealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau ei gilydd. O ganlyniad, mae taer angen i'r gwasanaethau

prawf gymryd rhan mewn hyfforddiant aml-asiantaeth a chodi ymwybyddiaeth, er mwyn hyrwyddo dull mwy cydlynol o reoli cam-drin domestig.

# 4. Cyflawni dedfrydau ac ymyriadau

Yn y bennod hon, rydym yn ystyried pa mor effeithiol y mae dedfrydau'n cael eu cyflawni, gan gynnwys barn pobl ar brawf am eu profiadau. Rydym wedyn yn archwilio'r gwaith o ddarparu ymyriadau cam-drin domestig yn yr achosion a arolygwyd gennym. Ar ben hynny, rydym yn adrodd ar ein canfyddiadau ynghylch gorfodi dedfrydau pan na fydd pobl ar brawf yn cydymffurfio, a pha mor dda mae'r gwaith adolygu yn cael ei gwblhau. Yn olaf, rydym yn adolygu sut mae'r Gwasanaeth Prawf yn cefnogi dioddefwyr cam-drin domestig.

## 4.1. Cyflawni dedfrydau




Ein cwestiwn cyffredinol ynghylch cyflawni dedfrydau oedd a oedd gweithredu'r gorchymyn neu'r drwydded yn rheoli risgiau cam-drin domestig yn effeithiol. Ni all y Gwasanaeth Prawf fyth ddileu'r risgiau a berir gan bobl ar brawf, ond rydym yn disgwyl i ymarferwyr gymryd pob cam rhesymol i reoli risgiau ac amddiffyn dioddefwyr. Yn bryderus, daethom i'r casgliad mai dim ond mewn 27 y cant o'r 60 o achosion a arolygwyd gennym y darparwyd dedfryd ddigon effeithiol.

Mewn gormod o achosion, nid oedd digon o sylw'n cael ei roi i'r achos, na digon o ymgysylltu. Fel y nodwyd yn gynharach, roedd gan rai PDUs broblemau staffio sylweddol, gyda llwyth achosion cyfatebol uchel. Roedd mesurau ar waith i reoli'r galw, a arweiniodd at bobl ar brawf yn cael eu gweld yn llai aml a gyda llai o bwrpas mewn rhai achosion. Roedd gan y ddau PDU lle'r oeddem yn teimlo bod rheoli dedfrydau'n fwy cyson effeithiol lefelau staffio gwell.

Mewn 58 y cant o'r achosion, ni fu digon o gyswllt â'r person ar brawf i ddarparu goruchwyliaeth effeithiol. Roedd yr angen am ymgysylltiad cyson ac ystyrlon gan yr ymarferydd prawf hefyd yn thema yn y safbwyntiau a fynegwyd gan bobl ar brawf. Dywedodd un person:

*"Rydw i wedi cael tua 10 i 12 o swyddogion prawf mewn blwyddyn. Pan fydda i'n cyrraedd yno, rydw i'n dweud 'helo' ac rydw i allan o'r fan honno o fewn chwe munud. Fe wnes i deithio wyth milltir i ddweud 'helo' ac yna gadael."*

Mae cam-drin domestig yn bwnc sensitif; mae llawer o bobl sydd wedi cael eu dyfarnu'n euog yn teimlo cywilydd am eu gweithredoedd ac yn gyndyn o siarad yn onest am y rhesymau dros eu hymddygiad. Gall meithrin perthynas waith gydag ymarferydd prawf wneud gwahaniaeth sylweddol i gynnydd unigolyn yn ei ddedfryd. Mewn rhai achosion, cyflawnwyd hyn, fel y mae'r sylw isod yn dangos:

*"Yn gynnar ar ddechrau fy nedfryd, roeddwn i'n cael problemau gyda fy nghyn-bartner, ac roedd llawer o'r wybodaeth roeddwn i'n ei chael gan fy nghyn-bartner yn bwydo i fy PO, ac roedd hi'n fy helpu i [...] 14 mis ar brawf, gyda'r un swyddog drwy gydol y cyfnod, roedd yn help mawr, rwy'n cyd-dynnu'n dda iawn â fy PO."*

Mewn achosion eraill, nid oedd unigolion yn teimlo'n ddigon hyderus yn eu hymarferydd, nid oeddent yn teimlo'n ddiogel oherwydd newidiadau yn yr ymarferydd, ac nid oedd ganddynt ffydd yng ngallu eu hymarferydd i'w cefnogi. Mae'r sylwadau isod yn crynhoi rhai o'r safbwyntiau a fynegwyd:

***"Yn anffodus, nid yw'r swyddog prawf yn gwybod sut i helpu gyda'r teimladau a'r meddyliau sydd wedi dod i'r wyneb, ac rydych chi'n cael eich gadael am wythnos neu ddwy tan eich apwyntiad nesaf, gan geisio delio â'r meddyliau hynny nad ydynt o fudd i'ch lles cyffredinol. Mae angen i swyddogion prawf allu helpu i roi'r emosiynau hynny yn ôl mewn trefn. Cefais bedwar swyddog prawf gwahanol mewn chwe mis, sy'n eich gadael yn ofidus ac yn bryderus iawn, ac nid yw'n hawdd. Rhaid cael ffordd o gael yr un swyddog prawf yn gyson. Dylai'r gwasanaeth prawf gael ei hyfforddi'n fwy effeithlon ym maes iechyd meddwl – os ydynt yn mynd i'w drafod, dylent allu ei gefnogi."***

***"Bob tro rydw i'n mynd yno, rydw i'n mynd ac mae'r person rydych chi'n delio ag ef yn esgus gofalu am yr hyn sy'n digwydd yn eich bywyd. Maen nhw'n eistedd yno, ac maen nhw'n eich annog i ateb cwestiynau eto, fel ail-wneud taflenni gwaith i weld a ydych chi'n dweud celwydd. Roedd yn rhaid i mi roi gwên ar fy wyneb ond yn meddwl 'nid yw'r swydd hon yn cael ei gwneud yn iawn'. Maen nhw'n bobl gefnogol yn gyffredinol, ond maen nhw'n eistedd i lawr ac yn ymddangos eu bod nhw eisiau mynd yn ddwfn, ond maen nhw'n gofyn pethau sylfaenol i mi, felly rydych chi'n eistedd i lawr, ac mae'r berthynas eisoes wedi chwalu beth bynnag."***

***"Byddaf yn dod allan yn meddwl 'beth oedd pwynt hynny'? Er enghraifft, bythefnos yn ôl roeddwn i yno, yn cael yr un cwestiynau, yn llythrennol roeddwn i yno am 10 munud. Mae hi'n gofyn beth rydw i wedi bod yn ei wneud, sut mae pethau rhyngof i a fy mhartner, sut rydw i wedi bod yn ymdopi; mae hi'n ailadrodd yr un cwestiynau drosodd a throsodd. Mae fel petai hi'n darllen allan o lyfr. Mewn ffordd, mae'r apwyntiadau'n teimlo'n frysiog, dim ond ddwywaith yr wyf wedi'i gweld am nad oedd yn gallu bod yn bresennol, ac mae ei chydweithiwr yn gofyn cwestiynau mor sylfaenol. Rwy'n teimlo fy mod yn mynd o gwmpas mewn cylchoedd ac yn fwy tebygol o aildroseddu."***

Yn gynharach yn yr adroddiad hwn, fe wnaethom ddisgrifio bod y rhan fwyaf o ymarferwyr yn teimlo'n hyderus wrth siarad am gam-drin domestig â phobl ar brawf. Fodd bynnag, mae ein canfyddiadau'n dangos y gallai hyn fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth rhy arwynebol o'r pwnc. Yn ein harolwg thematig blaenorol o gam-drin domestig (Arolygiaeth Prawf EF, 2018), fe wnaethom adrodd:

**'Nid oedd llawer o asesu a chynllunio i ddeall a lliniaru effeithiau digwyddiadau trawmatig blaenorol ar y defnyddiwr gwasanaeth, fel eu profiadau eu hunain fel dioddefwr cam-drin domestig neu brofedigaeth.'**

Yn siomedig, ychydig o dystiolaeth a welsom fod hyn wedi gwella. Mae cam-drin domestig yn faes gwaith amlochrog cymhleth, ond roedd llawer o ymarferwyr yn ymddangos yn amharod i ddeall neu weithio gyda'r cymhlethdod hwn. Er enghraifft, daethom o hyd i rai achosion lle'r oedd y person ar brawf yn gyflawnwr ac yn ddioddefwr cam-drin domestig. Weithiau roedd ymarferwyr yn cael trafferth gweithio gyda'r ddeuoliaeth honno ac yn canolbwyntio ar fod yn un neu'r llall wrth reoli'r ddedfryd, gan arwain at danamcangyfrif y risgiau. Mae'r enghraifft isod yn dangos y pwynt hwn.

| Enghraifft o ymarfer gwael |
| --- |
| Dedfrydwyd Helen i orchymyn cymunedol gyda diwrnodau RAR, cyfnod o waith di-dâl, a gofyniad monitro ymatal rhag alcohol yn dilyn ymosodiad ar ei merch ifanc. Tynnwyd ei phlant oddi arni a'u rhoi yng ngofal eu nain. Roedd Helen yn cael galwadau ffôn dyddiol gyda'i phlant, a chyswllt wyneb yn wyneb dan oruchwyliaeth unwaith yr wythnos. Roedd Helen hefyd wedi dioddef cam-drin domestig. Roedd apwyntiadau goruchwylio'n canolbwyntio bron yn gyfan gwbl ar ei phrofiadau fel dioddefwr, ar draul mynd i'r afael â'i hymddygiad a'r risgiau a berid ganddi i'w phlant. O ganlyniad, roedd diffyg cyswllt â gwasanaethau gofal cymdeithasol plant, tanamcangyfrif o'r risgiau i blant, ac ychydig o feddwl o sut y byddai risgiau'n cael eu rheoli yn y dyfodol. Disgrifiodd yr ymarferydd yn yr achos nad oedd yn ddigon hyderus i wybod sut i ymdrin ag achos o'r fath. |

Mae fframwaith polisi ymweliadau cartref[22] y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yn dangos gwerth ymweld â phobl ar brawf yn eu cartrefi eu hunain ac mae'n argymell defnyddio hyn fel cymorth i reoli risg. Mae'r fframwaith polisi cam-drin domestig yn cadarnhau, mewn achosion lle ceir pryderon am gam-drin domestig, y dylid ymweld â'r cartref o fewn 15 diwrnod gwaith i ddechrau'r oruchwyliaeth ar gyfer unigolion yr aseswyd eu bod yn peri risg uchel neu uchel iawn o niwed difrifol, ac o fewn chwe wythnos i ddechrau'r oruchwyliaeth ar gyfer pob achos arall. Ar ben hynny, os bydd pryderon yn gwaethygu, neu os bydd pryderon newydd am gam-drin domestig yn codi, dylid cwblhau ymweliad o fewn 10 diwrnod. Fodd bynnag, gwelsom mai dim ond 40 y cant o'r achosion a oedd wedi cael ymweliadau cartref lle'r oedd angen hynny. Roeddent yn tueddu i gael eu defnyddio'n fwy rheolaidd yn y PDUs gyda lefelau staffio gwell, er bod y defnydd yn dal yn is na'r hyn y byddem yn ei ddisgwyl.

Yn ogystal â rheoli gofynion gorchymyn neu amodau trwydded, dylai ymarferwyr prawf hefyd fod yn effro i orchmynion ategol y gall unigolyn fod yn ddarostyngedig iddynt. Pan wnaed gorchymyn atal fel rhan o'r ddedfryd ar gyfer y prif drosedd, canfuom fod yr ymarferydd fel arfer yn gwybod am fanylion y gorchymyn. Fodd bynnag, yn rhy aml nid oedd llawer o dystiolaeth eu bod yn monitro cydymffurfiad â'r cyfyngiadau. Nid oedd manylion gorchmynion a wnaed mewn achosion llys teulu mor hysbys yn aml. Nid oes cronfa ddata ganolog i wirio yn ei herbyn, sy'n ei gwneud yn anodd i ymarferwyr gael manylion oni bai fod IDVA neu DASO wedi tynnu eu sylw at orchmynion, er enghraifft.

Tra dan oruchwyliaeth, roedd 71 y cant o'r bobl ar brawf y buom yn adolygu eu hachosion yn cael cymorth gydag amrywiaeth o anghenion, gan gynnwys tai, iechyd meddwl, cyflogaeth, materion ariannol a chamddefnyddio sylweddau. Gwelsom waith da yn cael ei wneud mewn rhai achosion i ddatblygu sgiliau cymdeithasol, lleihau unigrwydd, a hyrwyddo gweithgareddau pro-gymdeithasol drwy fentrau cymunedol.

## 4.2. Cyflawni ymyriadau

Yn yr un modd â rheoli dedfrydau, roedd diffyg adnoddau'n cael effaith ar ddarparu ymyriadau prawf. Roedd pobl ar brawf yn cael eu blaenoriaethu yn ôl risg, i benderfynu pryd, neu a wnaethant ddechrau rhaglenni achrededig; o ganlyniad, ni fyddai rhai pobl yr aseswyd eu bod yn peri risg isel neu ganolig o niwed a ddedfrydwyd i BBR yn cael cynnig hynny. Fodd bynnag, yn ôl y fframwaith, dylid rhoi ymyriad amgen iddynt drwy ymyriad strwythuredig neu'r SRT.

[22] HM Prison and Probation Service. Home Visit Policy Framework 2021. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1034080/home-visit-pf.pdf

Yn ein prif sampl, roedd 28 y cant o'r achosion wedi cael ymyriad cam-drin domestig gan y Gwasanaeth Prawf, ac roedd dau wedi cymryd rhan yn y rhaglen Drive a oedd yn cael ei darparu'n allanol. Mae Tabl 3 yn dangos y mathau o ymyriadau a gyflawnwyd yn yr achosion hyn.

*Tabl 3*

| Math o ymyriad | Nifer |
|---|---|
| Rhaglen achrededig Meithrin Perthnasoedd Gwell | 7 |
| Ymyriad strwythuredig | 1 |
| Pecyn Cymorth Sgiliau ar gyfer Perthnasoedd | 6 |
| Arall (gan gynnwys llyfrau gwaith a ddefnyddiwyd cyn uno gwasanaethau) | 3 |

Mewn 27 y cant arall o'r achosion, nid oedd unrhyw ymyriad wedi'i wneud eto; fodd bynnag, roedd hyn yn briodol – er enghraifft, oherwydd bod anghenion cymorth eraill yn cael eu diwallu'n gyntaf, neu roedd gwaith cymell neu baratoadol yn cael ei gwblhau cyn yr ymyriad. Fodd bynnag, mewn 45 y cant o'r achosion, fe wnaethom asesu y dylai ymyriad fod wedi cael ei gyflawni ond nad oedd wedi cael ei gyflawni.

O'r 17 achos a oedd wedi dechrau ymyriad, roeddem wedi asesu bod naw wedi gwneud cynnydd digonol ac nad oedd wyth wedi gwneud hynny; er enghraifft, roedd oedi wedi bod o ran cyflawni y gellid bod wedi'i osgoi. Ym mron pob achos lle'r oedd yr ymyriad yn cael ei gyflawni gan rywun ar wahân i'r ymarferydd prawf, roeddent wedi cadw lefel dda o gyswllt gyda hwyluswyr y rhaglen. Mewn tri chwarter o'r achosion, roeddent wedi cefnogi cydymffurfio â'r ymyriadau a ddarparwyd.

**Cyfraddau cwblhau ar gyfer y rhai y gwyddys eu bod wedi cael cynnig ymyriad cam-drin domestig**

Roeddem hefyd wedi arolygu ail sampl o 83 o bobl ar brawf yr oedd eu cofnodion yn dangos eu bod wedi dechrau ymyriad cam-drin domestig; yn y rhan fwyaf o achosion, BBR oedd hynny. Nod adolygu'r sampl hwn oedd deall mwy am gyfran y bobl sy'n cwblhau ymyriadau, unrhyw rwystrau rhag symud ymlaen, a pha mor llwyddiannus fu'r ymyriad o ran atal rhagor o achosion o gam-drin domestig. O ganlyniad i arferion cofnodi annigonol ar gyfer ymyriadau, nid yw bob amser yn bosibl deall y cynnydd a wnaed gan unigolyn.

Dengys Tabl 4 statws ymyrryd y sampl.

*Tabl 4*

| Statws ymyrryd | # | % |
|---|---|---|
| Wedi'i gwblhau | 26 | 31% |
| Parhaus | 32 | 39% |
| Wedi methu cwblhau oherwydd diffyg cydymffurfio | 10 | 12% |
| Wedi methu cwblhau gan nad oedd yr ymyriad ar gael/wedi'i ddarparu | 1 | 1% |
| Tynnwyd yn ôl – anaddas | 2 | 2% |
| Aneglur | 7 | 8% |
| Arall (er enghraifft, dedfryd wedi'i diddymu/bellach yn y ddalfa) | 5 | 6% |

Cofnodwyd bod 12 achos yn y sampl hwn o 83 wedi dechrau ail ymyriad; fodd bynnag, nid oedd yr un o'r sampl wedi cwblhau dau ymyriad yn llawn; yn fwy nodweddiadol, roeddent wedi cael eu symud o un i'r llall neu wedi cael eu cofnodi fel rhai a oedd wedi dechrau ond heb wneud hynny mewn gwirionedd. Roeddem wedi asesu bod y ddarpariaeth wedi bod yn amserol mewn ychydig o dan hanner yr achosion; roedd 21 o bobl yn y sampl hwn wedi aros dros flwyddyn i ddechrau ymyriad.

Nid oedd tua hanner y bobl yn y sampl hon wedi dod i sylw'r heddlu yn y cyfnod ers dechrau ymyriad; fodd bynnag, roedd 37 y cant (31 achos) wedi'u cysylltu â mwy o gam-drin domestig, a 14 ar gyfer mathau eraill o droseddu. Roedd tri o bobl wedi'u cael yn euog o gam-drin domestig pellach yn yr un cyfnod. Roedd barn pobl ar brawf yn amrywio, ond roedd mwy yn gadarnhaol am eu hymyriad na fel arall. O'r 20 o bobl o'r sampl hwn a gytunodd i drafod eu profiad, dywedodd pedwar nad oedd yr ymyriad yr oeddent yn ei fynychu nad oedd yn ddefnyddiol iawn, neu ddim o gwbl, o ran osgoi rhagor o ddigwyddiadau cam-drin domestig, rhoddodd pedwar ymateb niwtral, a dywedodd 12 ei fod wedi bod yn eithaf defnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn.

**Meithrin Perthnasoedd Gwell**

Yn ein prif sampl o 60 o achosion, roedd 16 â BBR ynghlwm wrth eu gorchymyn neu eu trwydded, ac roedd saith wedi dechrau hyn pan arolygwyd eu hachos. Roedd yr amseroedd aros yn amrywio: dechreuodd un person y rhaglen o fewn un i bum wythnos, pedwar person o fewn 11 i 20 wythnos, a dau berson o fewn 21 i 25 wythnos. Nid oedd y berthynas rhwng ymarferwyr prawf a thimau ymyrryd bob amser yn gydweithredol ac, mewn rhai achosion, roedd yn rhwystro pobl ar brawf rhag cael mynediad at BBR. Gwelsom oedi wrth i ymarferwyr prawf gwblhau'r gwaith papur angenrheidiol er mwyn i unigolyn allu dechrau'r rhaglen. Gan fod hwyluswyr y rhaglen yn aml yn gweithio gyda'r nos, ac mewn rhai ardaloedd o swyddfeydd gwahanol, nid oedd timau'n gyfarwydd â'i gilydd. Mewn rhai achosion, gwnaed tybiaethau di-fudd am lwyth gwaith ei gilydd, a arweiniodd at ddrwgdeimlad. Dywedodd rhai ymarferwyr prawf wrthym eu bod yn cyfeirio at raglenni ac nad oeddent yn clywed dim yn ôl. Nid oedd disgwyliadau bob amser yn glir ynghylch beth ddylai ddigwydd cyn i unigolyn ddechrau BBR, ac nid oes dealltwriaeth gyffredin bob amser o beth mae bod yn barod ar gyfer rhaglen yn ei olygu. Crynhodd un hwylusydd rhaglen bethau drwy ddweud:

*"Dydyn ni ddim bob amser ar yr un ddalen pan fyddwn ni'n rhoi pobl ar raglenni."*

Mewn rhai PDUs, clywsom am well cydweithio a chydweithredu; fel arfer, roedd hyn yn cael ei gefnogi drwy weithio o'r un swyddfeydd a chael cyfleoedd rheolaidd i drafod eu hachosion. Nid oedd rhai ymarferwyr yn ymwybodol yn gyffredinol o raglenni achrededig a'r hyn y byddai pobl ar brawf yn ei brofi pan oeddent yn eu mynychu. Mae ymarferwyr sy'n ymgymryd â PQiP yn cael rhywfaint o fewnbwn am raglenni achrededig. Fodd bynnag, nid oes yn rhaid iddynt hyfforddi mwyach i'w darparu ac felly nid oes ganddynt lawer o gyfle i gael dealltwriaeth fanwl o'r maes gwaith hwn. Dywedodd hwyluswyr y rhaglen wrthym fod pobl ar brawf sydd wedi cael sesiwn gynefino gynhwysfawr fel rhan o'u gorchymyn neu drwydded gan ymarferydd sy'n gyfarwydd â gofynion rhaglenni achrededig wedi'u paratoi'n well ac yn fwy tebygol o gwblhau'r BBR.

Roedd gennym rai pryderon am bobl ag anghenion amrywiol yn cael eu rhoi ar BBR heb roi digon o ystyriaeth i'w gallu i ymgysylltu – er enghraifft, lle nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf. Gwelsom ddau achos lle'r oedd yn ymddangos nad oedd gan unigolion ddigon o ddefnydd o'r Saesneg i allu cymryd rhan ystyrlon yn y BBR ond eu bod wedi cael eu hasesu fel rhai addas ar ei chyfer.

Disgrifiodd rhai pobl a fynychodd BBR newidiadau cadarnhaol yr oeddent wedi'u gwneud o ganlyniad i'r rhaglen. Rhoddir rhai enghreifftiau isod.

*"Cyn mynd ar y cwrs, roedd fy meddylfryd yn mynd i un cyfeiriad ac ar ôl y cwrs roedd yn mynd i gyfeiriad arall. Fe wnaeth i mi gymryd cam yn ôl a sylweddoli fy mod yn*

*anghywir. Felly, bydd bwrw ymlaen â hynny yn fy helpu. Fy rhwystro rhag mynd i'r carchar. Drwy sylweddoli efallai nad fy ffordd i o feddwl oedd y ffordd iawn."*

*"Roedd y ffordd yr eglurodd fy nhiwtor bethau yn wych. Roedd y ffordd y siaradodd â'r grŵp yn glir iawn. Roedd y dulliau ymdopi yn rhagorol. Pe bawn i wedi dysgu hyn yn gynt, fyddwn i ddim wedi bod yn y sefyllfa hon. Yr oedd hefyd yn gadael imi siarad a chael barn, sy'n bwysig. Roedd yn wych."*

Roedd cyfranogwyr eraill yn llai cadarnhaol am eu profiadau ac roedd rhai yn teimlo ei bod yn anghyfforddus rhannu manylion eu bywydau personol mewn sefyllfa grŵp. Mae'r sylwadau isod yn adlewyrchu rhai o'r safbwyntiau negyddol a fynegwyd.

*"Diflas, mae'n rhyfedd y ffordd maen nhw'n ei eirio, mae'n eithaf plentynaidd. Mae angen iddyn nhw ei wneud yn fwy aeddfed."*

*"... llwyth o sbwriel. [...] Dwi'n swil a dydw i ddim eisiau i bobl eraill wybod beth yw fy musnes. Fy musnes i yw fy musnes i, mae'n gyfrinachol ar ddiwedd y dydd. Rydw i'n gwybod eu bod nhw wedi dweud bod pethau'n gyfrinachol yn yr ystafell honno rhyngom ni i gyd, ond ar ddiwedd y dydd dydw i ddim eisiau i'r 10 dyn arall wybod am fy s***."*

Mynegodd rhai pobl ar brawf a hwyluswyr rhaglenni bryderon am ddiffyg cefnogaeth ar ôl i bobl gwblhau'r BBR. Er bod disgwyl i ymarferwyr prawf gwblhau gwaith ar ôl y rhaglen i atgyfnerthu dysgu, ychydig o dystiolaeth a welsom fod hyn yn digwydd yn rheolaidd. Mewn gormod o achosion, ar ôl cwblhau BBR nid oedd ymarferwyr yn adrodd mor aml, ac nid oedd apwyntiadau'n llawer mwy na threfniadau cofrestru. Roedd un aelod o'r grŵp wedi mynd ati ei hun i gefnogi aelodau eraill y grŵp, a dywedodd wrthym:

*"Yr unig broblem y byddwn i'n ei mynegi yw y gallai rhai pobl elwa o help ar ôl hynny. Rydw i'n bersonol yn ymdopi â llawer o bethau ond roedd rhai o'r bechgyn ar y cwrs gyda mi a gymerodd fy rhif ffôn a dweud y gwir. Roedden nhw'n cadw cysylltiad â mi, ac roedden nhw'n gofyn i mi am help a phethau. Fe'u cynghorais gystal ag y gallwn."*

**Ymyriadau strwythuredig**
Yn ein prif sampl, dim ond un achos y daethom o hyd iddo lle'r oedd unrhyw ymyriad strwythuredig wedi'i gyflawni; roedd hyn wedi cynnwys dim ond dwy sesiwn, ac yna roeddent wedi dechrau BBR. Roedd llawer o ymarferwyr prawf yn ansicr ynghylch pa bobl ar brawf oedd yn gymwys i gael ymyriadau strwythuredig cam-drin domestig, gan fod y maen prawf yn nodi y dylent fod yn rhai sy'n cael eu hasesu fel rhai risg isel yn ôl adnodd SARA. Dywedodd ymarferwyr wrthym fod hyn yn brin ymysg pobl y nodwyd eu bod yn gyflawnwyr neu'n gyn-gyflawnwyr cam-drin domestig. Yn y rhan fwyaf o PDUs, dim ond yn ddiweddar yr oedd ymyriadau strwythuredig ar gael; mewn eraill, ni chafwyd darpariaeth. Yn Llundain, dywedwyd wrthym fod pob achos ar restrau aros ar gyfer rhaglenni achrededig yn cael eu sgrinio i weld a ydynt yn addas ar gyfer ymyriadau strwythuredig. O ganlyniad, cynhyrchwyd 500 o atgyfeiriadau (ar draws yr holl ymyriadau strwythuredig, nid dim ond rhai sy'n ymwneud â cham-drin domestig). Fodd bynnag, er bod rhai achosion a welsom wedi cael eu cyfeirio, nid oedd yr un ohonynt wedi dechrau, gan eu bod wedi dechrau BBR yn y cyfamser.

**Pecyn Cymorth Sgiliau ar gyfer Perthnasoedd**
Daethom o hyd i chwe achos yn ein prif sampl lle'r oedd sesiynau SRT wedi cael eu darparu. O'r rhain, cafwyd dim ond un lle defnyddiwyd y pecyn yn gyson ac yn ystyrlon; yn y rhan fwyaf o'r lleill,

dim ond un neu ddau sesiwn a ddarparwyd ac nid oedd unrhyw arwyddion bod rhagor o sesiynau wedi'u cynllunio. Mewn un achos, roedd yr ymarferydd wedi cyflwyno pedair sesiwn ond dywedodd wrthym eu bod yn bwriadu rhoi'r gorau i'w cyflwyno gan eu bod yn teimlo bod y deunyddiau'n nawddoglyd. Er bod sesiynau briffio cenedlaethol ar gael ar y SRT, dywedodd llawer o ymarferwyr wrthym nad oeddent yn hyderus nac yn gyfarwydd â'r deunyddiau ac felly nad oeddent wedi ceisio eu danfon, er bod ganddynt achosion addas ar eu llwyth achosion. I gydnabod hynny, roedd sawl rhanbarth wedi dechrau sesiynau briffio i gefnogi staff, a oedd yn aml yn cael eu harwain gan hwyluswyr rhaglenni a swyddogion datblygu ansawdd, ac roedd ymarferwyr yn canmol y sesiynau hyn.

Roedd rhai ymarferwyr yn teimlo'n anghyfforddus ynghylch y cyfarwyddiadau a roddwyd i beidio â darparu ymyriadau dan y fframwaith blaenoriaethu ar gyfer trefniadau rheoli dedfrydau. Dywedodd un wrthym:

"*Nid ydym i fod i ddarparu'r pecyn oherwydd llwyth gwaith, ond rwy'n poeni sut y byddai'n edrych pe bai yna SFO ac nad oeddwn wedi gwneud dim.*"

## 4.3. Gorfodi

Yn ein harolygiadau achos, gwelsom fod ymarferwyr prawf, yn gyffredinol, yn ceisio cefnogi cydymffurfio ag ymyriadau, a bod gorfodaeth yn cael ei defnyddio mewn 70 y cant o'r achosion lle'r oedd ei hangen. Gwelsom enghreifftiau lle caniatawyd i achosion lithro, gyda gormod o absenoldebau'n cael eu derbyn heb reswm dilys. Mewn rhai achosion, daeth hyn yn batrwm a oedd yn gwanhau pwrpas y ddedfryd. Mae'r achos isod yn enghraifft.

| Enghraifft o ymarfer gwael |
|---|
| Cafodd Karol ei ddedfrydu i orchymyn cymunedol 18 mis gyda gofynion i gymryd rhan mewn triniaeth alcohol a mynychu BBR. Prin oedd dealltwriaeth Karol o'r Saesneg. Cafwyd llawer o alwadau gan yr heddlu i ddigwyddiadau domestig cyn iddo gael ei ddyfarnu'n euog o aflonyddu ar ei gyn-bartner yng ngŵydd ei blentyn ifanc. Nid oedd cynlluniau yn yr achos yn darparu amserlenni clir ar gyfer camau gweithredu ac nid oeddent yn nodi sut y byddai'n cael ei gefnogi ar y rhaglen, o ystyried ei ddealltwriaeth gyfyngedig o'r Saesneg. Bu oedi hir cyn cwblhau'r atgyfeiriad i'r DASO, a oedd yn golygu bod cyfleoedd i gefnogi ei gyn-bartner wedi cael eu colli. O'r 19 o apwyntiadau a gynigiwyd iddo, dim ond pump oedd Karol wedi'u mynychu. Cofnodwyd bod deg absenoldeb yn dderbyniol, y rhan fwyaf heb sail resymegol glir dros y penderfyniad, ac ni chofnodwyd canlyniad ar gyfer un. Cafodd Karol ei arestio wedyn am droseddau pellach yn erbyn yr un partner. |

Clywsom am densiynau rhwng hwyluswyr rhaglenni ac ymarferwyr prawf ynghylch y ffordd yr ymdriniwyd ag absenoldebau cyfranogwyr. Dywedodd ymarferwyr prawf wrthym eu bod yn teimlo bod rheolau'r rhaglen yn anhyblyg; er enghraifft, os bydd person ar brawf yn colli mwy na dwy sesiwn rhaglen oherwydd salwch gwirioneddol, cânt eu tynnu o'r grŵp. Fodd bynnag, gan fod disgwyl i gyfranogwyr fynychu ddwywaith yr wythnos yn aml, gall hyn ddigwydd oherwydd cyfnod byr o salwch. Pan fydd BBR yn cael ei redeg fel rhaglen dreigl, gall cyfranogwyr ailymuno â'r grŵp yn y modiwl nesaf; fodd bynnag, gall fod oedi sylweddol os yw'n grŵp caeedig. Clywsom hefyd bryderon gan ddedfrydwyr ynghylch a oedd gorfodaeth yn cael ei defnyddio'n briodol. Weithiau roeddent yn gweld achosion yn cael eu dychwelyd i'r llys yn y pen draw, a'u barn hwy oedd y dylid bod wedi cymryd camau'n llawer cynt ac yn unol â'r disgwyliadau yr oeddent wedi'u gosod wrth basio dedfrydau.

## 4.4. Adolygu

Roedd adolygu ymarfer yn wael yn gyffredinol, ac yn rhy aml nid oedd yn rhoi sylw i newidiadau mewn ffactorau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig nac yn gwneud addasiadau i waith sy'n mynd rhagddo. Mae'r achos isod yn rhoi enghraifft lle dylai derbyn gwybodaeth bwysig fod wedi arwain at adolygiad cynhwysfawr, ond ni ddigwyddodd hyn.

| Enghraifft o ymarfer gwael |
| --- |
| Cafwyd Jay yn euog o dorri gorchymyn peidio â molestu a chafodd ei ddedfrydu i orchymyn cymunedol 18 mis gyda gofynion i gwblhau diwrnodau RAR a gwaith di-dâl. Roedd ganddo euogfarnau blaenorol am droseddau cam-drin domestig eraill yn erbyn yr un partner. Roedd rhywfaint o'i droseddu blaenorol wedi cael ei sbarduno pan aeth ei bartner yn feichiog, ac roedd yn anhapus ynghylch hynny. Rhan o'r ffordd drwy ei ddedfryd, dywedodd Jay wrth ei ymarferydd prawf fod ei bartner newydd yn feichiog, ac nad oedd yn hapus ynghylch y sefyllfa. Nid oedd y wybodaeth hon wedi ysgogi unrhyw adolygiad o'i achos nac unrhyw weithgaredd i asesu diogelwch ei bartner newydd. Rai wythnosau'n ddiweddarach, dywedodd Jay fod ei bartner wedi terfynu ei beichiogrwydd. Ni wnaed unrhyw ymholiadau i wirio ei lles. |

Mewn dros hanner yr achosion lle'r oedd angen hynny, nid oedd gwybodaeth wedi'i chasglu gan asiantaethau eraill i lywio'r gwaith adolygu. Gwelsom nad oedd cofrestriadau risg ar nDelius yn gyfredol nac yn briodol mewn 35 y cant o achosion. Mewn sawl achos lle'r oedd yr ymarferydd prawf wedi asesu nad oedd y risgiau'n gyfredol mwyach, roedd cofrestriad y cyflawnwr cam-drin domestig wedi cael ei ddileu, ond nid oedd hynny wedi cael ei amnewid â marciwr hanes o gam-drin domestig priodol.

Nid oedd digon o ymholiadau wedi'u gwneud gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol plant a'r heddlu i oleuo adolygiadau o achosion. Mewn achosion lle'r oedd gwybodaeth wedi'i chasglu, ni chafodd ei dadansoddi na'i defnyddio'n ddigonol i lywio'r gwaith o reoli achosion. Mewn dros hanner ein sampl achosion, nid oedd adolygiad o'r dosbarthiad risg o niwed difrifol lle roedd angen hyn. Mewn chwe achos, cafodd y lefel risg ei newid am ddim rheswm amlwg; mewn un achos, cafodd y lefel risg ei gostwng pan oedd y person ar brawf ran o'r ffordd drwy'r BBR. Yn gyffredinol, roeddem wedi asesu bod yr adolygiad yn canolbwyntio'n ddigonol ar y risg o gam-drin domestig mewn dim ond 23 y cant o'r achosion.

## 4.5. Rheoli datgeliadau

Mae fframwaith polisi cam-drin domestig y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yn nodi bod yn rhaid i ymarferwyr, ym mhob achos lle mae cam-drin domestig wedi cael ei nodi fel ffactor perthnasol:

***'...ystyried datgelu ym mhob achos lle mae person sydd wedi'i gael yn euog o gam-drin domestig yn dechrau perthynas newydd, gan gynnwys tra'i fod yn y ddalfa.'***

Mae'r fframwaith polisi yn mynd ymlaen i ddweud bod yn rhaid i ymarferwyr prawf benderfynu a oes angen datgelu, a dyma pryd y bydd yr angen i hysbysu ac amddiffyn dioddefwr posibl yn bwysicach na hawl y cyflawnwr i breifatrwydd. Mae canllawiau pellach yn mynnu bod ymarferwyr yn ystyried y risgiau o beidio â datgelu a'r niwed a allai ddeillio o'r datgeliad. Mae'n annog ymarferwyr i ofyn am gyngor gan eu rheolwr llinell pan fyddant yn ansicr. Unwaith y penderfynir y dylid datgelu, mae'r fframwaith polisi'n darparu dulliau y gellir eu defnyddio, gan gynnwys sgwrs anffurfiol, defnyddio'r cynllun datgelu trais domestig, neu ddatgelu ar unwaith lle mae risg ar fin digwydd. Mae'r ddogfen hefyd yn pwysleisio ei bod yn bwysig bod y rheini sy'n cael datgeliad yn gallu cael gafael ar gyngor a chymorth arbenigol, a allai gynnwys atgyfeiriad at y DASO os yw'r person ar

brawf yn mynychu BBR. Yn olaf, mae'r fframwaith polisi yn datgan y dylid cofnodi'r broses o wneud penderfyniadau ac unrhyw ddatgeliad yn system rheoli achosion nDelius.

Roedd yr ymarfer o ran datgelu yn amrywio'n sylweddol, ac mewn rhai achosion roeddem wedi asesu ei fod yn beryglus. Lle'r oedd achosion yn gyfredol i MAPPA neu MARAC, neu'n cael eu cyfeirio at y cynllun datgelu trais domestig lleol, gwnaed penderfyniadau aml-asiantaeth ynghylch a oedd angen datgelu ac, os felly, beth ddylai'r cynnwys fod. Lle'r oedd datgeliadau'n cael eu gwneud y tu allan i'r fforymau hynny, ni welsom unrhyw dystiolaeth o ddull systematig o ystyried datgeliadau. Clywsom am enghreifftiau lle'r oedd ymarferwyr wedi darparu gwybodaeth i bartneriaid newydd yn ystod galwadau ffôn lle'r oedd y person ar brawf yn bresennol, ac yn methu rheoli'r canlyniadau. Mewn achosion eraill, dywedodd ymarferwyr wrthym eu bod wedi rhannu gwybodaeth yr heddlu â phartneriaid newydd heb ymgynghori â chydweithwyr yn yr heddlu i gael caniatâd. Nid oedd y canllawiau cenedlaethol a ddarparwyd yn ddigonol i gefnogi penderfyniadau neu ddarpariaeth yn ddigonol. Mynegodd ymarferwyr amrywiaeth o safbwyntiau am ddatgelu, gyda rhai yn nodi'n glir nad oeddent yn teimlo ei fod yn rhan o'u rôl, ac eraill yn dweud wrthym eu bod yn rhoi gwybodaeth yn rheolaidd i bartneriaid newydd troseddwyr heb ymgynghori â rheolwyr am gynnwys y wybodaeth hon na sut y gellid ei rhannu'n ddiogel. Mewn rhai achosion lle'r oedd staff prawf wedi datgelu, ni welsom lawer o dystiolaeth bod bregusrwydd posibl y person a oedd yn derbyn y wybodaeth wedi cael ei ystyried neu fod gwasanaethau a allai eu cefnogi wedi cael eu defnyddio.

Lle mae cyflawnwyr cam-drin domestig hysbys yn dechrau perthynas newydd, dylid ymdrechu i ddiogelu eu partneriaid; fodd bynnag, mae angen ystyried hyn yn ofalus, er mwyn sicrhau bod y wybodaeth a rennir yn gymesur â'r risgiau ac nad yw'n cynyddu'r risg o niwed yn anfwriadol. Yn ein barn ni, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, ni ddylai ymarferwyr prawf wneud penderfyniadau ynghylch gwneud datgeliad, na chynnwys y datgeliad ei hun, heb gyfraniad yr heddlu a gwasanaethau arbenigol eraill.

Ers ein gwaith maes arolygu, mae canllawiau newydd wedi cael eu cyhoeddi i staff prawf, i egluro na ddylent fod yn gwneud datgeliadau eu hunain ond y dylent fod yn gweithio gyda'r heddlu a gwasanaethau gofal cymdeithasol plant i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r rheini sydd ei hangen, gyda mesurau priodol ar waith i'w cefnogi.

## 4.6. Cefnogi dioddefwyr

Yn ogystal â rheoli dedfrydau, mae'r Gwasanaeth Prawf yn gyfrifol am ddau wasanaeth i gefnogi dioddefwyr: y cynllun cyswllt dioddefwyr, sy'n cael ei ddarparu gan VLOs, a gwasanaeth DASO. Mae VLOs yn cynnig gwasanaeth cyswllt i ddioddefwyr pan fo cyflawnwr eu trosedd yn cael eu dedfrydu i ddedfryd o 12 mis neu fwy yn y carchar am droseddau treisgar neu rywiol penodol. Gallant roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gamau allweddol dedfryd y carcharor a chyfeirio dioddefwyr at ffynonellau cymorth emosiynol. Mae DASOs yn cynnig cymorth i ddioddefwyr neu bartneriaid newydd i ddynion sy'n ymgymryd â'r rhaglen BBR neu bobl sy'n cwblhau ymyriadau strwythuredig sy'n ymwneud â cham-drin domestig. Yn ogystal â'r gwasanaethau a ddarperir gan y Gwasanaeth Prawf, gall dioddefwyr y credir eu bod yn wynebu risg uchel o niwed ac a drafodir yn MARAC hefyd gael eu cefnogi gan IDVA, sydd â'r rôl o gefnogi'r dioddefwr a datblygu cynlluniau diogelwch. Caiff IDVAs eu cyflogi gan sefydliadau trydydd sector sy'n annibynnol ar asiantaethau statudol, i ddarparu asesiadau risg i ganfod lefel risg dioddefwr o gael ei gam-drin, i gynrychioli eu llais, ac i weithredu fel eiriolwr. Mae gwasanaethau trydydd sector eraill hefyd yn cefnogi dioddefwyr nad aseswyd eu bod mewn risg uchel. Yn ein gwaith arolygu achosion, gwelsom mewn wyth o'r naw achos lle'r oedd VLO yn rhan o'r achos, bod yr ymarferydd prawf mewn cysylltiad digonol drwy gydol y ddedfryd i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu am newidiadau yn yr achos – er enghraifft, i ganiatáu i'r dioddefwr ofyn am ychwanegu amodau penodol i drwyddedau rhyddhau, er mwyn cynnig diogelwch iddynt. Dim ond 15 o'r achosion a arolygwyd gennym a oedd yn bodloni'r

meini prawf ar gyfer gwasanaeth DASO; [23]o'r rhain, gwrthododd un ymgysylltu â'r gwasanaeth. O'r 14 achos lle'r oedd dioddefwyr neu bartneriaid newydd yn agored i DASOs, fe wnaethom asesu bod y cyswllt rhwng yr ymarferydd a'r DASO yn ystod y cyfnod goruchwylio wedi bod yn ddigonol mewn dim ond chwe achos; mewn rhai achosion, nid oedd yr ymarferydd prawf wedi cael unrhyw gyswllt o gwbl. Nid oedd atgyfeiriadau amserol bob amser yn cael eu gwneud i'r gwasanaeth DASO, a arweiniodd at golli cyfleoedd i gynnig cymorth a chynllunio diogelwch yn gynharach. Pan gysylltwyd beth amser ar ôl i'r cyflawnwyr gael eu dedfrydu, dywedodd DASOs wrthym fod dioddefwyr yn fwy tebygol o wrthod y gwasanaeth gan eu bod wedi ceisio symud ymlaen. Gwelsom hefyd achosion lle'r oedd newidiadau pwysig a pherthnasol mewn perthynas wedi cael eu methu oherwydd diffyg cyswllt. Mae'r achos isod yn enghraifft o hyn.

**Enghraifft o ymarfer gwael**

Cafodd Ian orchymyn dedfryd ohiriedig gyda diwrnodau BBR a RAR yn dilyn ymosodiad ar ei bartner a'r swyddogion heddlu a oedd yn bresennol i ymyrryd. Cyhoeddwyd gorchymyn atal ar adeg y ddedfryd, gan atal Ian rhag cysylltu â'i bartner. Trafodwyd eu hachos yn y MARAC. Roedd Ian a'i bartner wedi bod gyda'i gilydd ers saith mlynedd, a chafwyd adroddiadau o gam-drin drwy gydol y berthynas. Roedd partner Ian yn ymgysylltu â gwasanaeth DASO; fodd bynnag, nid oedd cyswllt rhwng y DASO a'r ymarferydd prawf am rai misoedd, ac yn ystod y cyfnod hwnnw roedd partner Ian wedi gwneud cais i ddiddymu'r gorchymyn atal, ac nid oedd yr ymarferydd prawf yn ymwybodol o hynny. Roedd Ian yn cael cyswllt â'i bartner a'i phlant. Gan nad oedd yr ymarferydd yn gwybod am y datblygiadau hyn, ni wnaed unrhyw ymholiadau i'r heddlu nac i wasanaethau gofal cymdeithasol plant. Sefydlwyd cyswllt â'r DASO yn ddiweddarach, ar ôl i Ian ddechrau BBR, a oedd yn golygu bod modd rhannu gwybodaeth a chael dealltwriaeth lawnach o amgylchiadau Ian, er mwyn gallu eu monitro'n briodol.

Nid oedd ymarferwyr prawf yn cael fawr o gyswllt ag IDVAs. Mewn 12 o'n 15 achos sampl lle'r oedd IDVA yn gysylltiedig, nid oedd digon o gyswllt wedi bod â nhw, ac mewn saith achos nid oedd yn glir a oedd unrhyw gysylltiad wedi bod. Nid oedd rhai ymarferwyr yn gwybod digon am y gwasanaeth IDVA ac nid oeddent yn glir ynghylch ffiniau na phriodoldeb rhannu gwybodaeth. Ym mhob PDU, roeddem wedi cwrdd â'r rheini a oedd yn darparu'r gwasanaethau IDVA, ac roeddent wedi cael profiadau cymysg o ran cyswllt ag ymarferwyr prawf. Dywedodd rhai wrthym mai anaml iawn y cawsant gyswllt ag ymarferwyr prawf ar wahân i gyfarfodydd MARAC; roedd cyfathrebu rheolaidd mewn ardaloedd eraill. Yn yr un modd, mewn rhai ardaloedd, roedd y cyswllt rhwng DASOs ac IDVAs yn brin, ond roedd yn well mewn ardaloedd eraill, ac mewn rhai achosion roedd trosglwyddo yn digwydd rhwng y ddau wasanaeth. Clywsom gan rai gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr eu bod yn gweithio gyda dioddefwyr cyflawnwyr a oedd ar brawf, ac yn cael trafferth cael gafael ar wybodaeth i'w cefnogi yn eu gwaith.

Buom yn siarad â phedwar o bobl a oedd wedi cael eu cefnogi gan wasanaeth DASO, ac roedd pob un yn siarad yn gadarnhaol am eu profiad. Y ffactorau allweddol a oedd wedi arwain at eu barn gadarnhaol oedd cael gwybodaeth ac opsiynau ond eu bod yn cael gwneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch pa gamau yr oeddent am eu cymryd, heb unrhyw ymdeimlad o gael eu barnu. Mewn un achos, ar ôl i'r cyflawnwr gwblhau gwaith ymyrryd, roedd y dioddefwr wedi penderfynu ailgydio yn ei pherthynas a dywedodd wrthym:

***"Fe wnaethon nhw fy nghefnogi i newid y gorchymyn atal er mwyn gallu ailadeiladu'r berthynas. Nid oedd [DASO] yn fy meirniadu ond fe'm cefnogodd i gael mesurau diogelu priodol ar waith. Roedden nhw'n rhoi'r hyder i mi wybod nad ydw i ar fy mhen fy hun.***

---

[23]Yn wreiddiol roedd gan 17 yn ein sampl ofyniad neu amod BBR ond roedd dau wedi cael eu tynnu.

*Dydyn nhw erioed wedi rhoi barn nac wedi beirniadu ond wedi dilysu fy nheimladau, gan adael i mi wneud fy newisiadau fy hun ond wedi rhoi cefnogaeth i mi."*

Mae'r hyn y mae pobl ei eisiau gan wasanaethau DASO yn amrywio; dim ond gwybodaeth am BBR y mae rhai am ei chael, ac mae eraill yn gwerthfawrogi agwedd cynllunio diogelwch y rôl. Ar ben hynny, mae'r gwasanaeth DASO yn cael ei ddarparu'n wahanol ledled Cymru a Lloegr, gyda rhai ardaloedd yn cynnig cyswllt dros y ffôn yn unig. I'r gwrthwyneb, mae eraill yn cyfarfod wyneb yn wyneb; mae hyn fel arfer yn dibynnu ar yr ardal ddaearyddol y mae'n rhaid iddynt ei gwasanaethu a'r adnoddau sydd ar gael.

## 4.7. Gwaith aml-asiantaeth

Mae ymarferwyr prawf yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o fforymau aml-asiantaeth sy'n cefnogi rheoli cam-drin domestig. Yn y rhan fwyaf o PDUs, mae cynrychiolwyr dynodedig MARAC yn mynychu cyfarfodydd ar ran eu cydweithwyr. Cyflawnir y rôl hon fel arfer gan ymarferwyr prawf, er bod SPOs yn mynychu yng Nghymru. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd asiantaethau partner sy'n cadeirio cyfarfodydd MARAC yn gadarnhaol am gyfraniadau staff prawf. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, roedd bylchau wedi bod o ran presenoldeb neu roedd cynrychiolwyr wedi mynychu heb wybodaeth lawn am yr achos. Pan mai'r Gwasanaeth Prawf oedd yr asiantaeth gyfeirio, dywedodd cadeiryddion MARAC ei bod yn fuddiol i'r ymarferydd a oedd yn atgyfeirio gyflwyno'r achos hwnnw, ond nid oedd hyn bob amser yn digwydd. Nid oedd ymarferwyr prawf bob amser yn glir ynghylch sut i gofnodi gwybodaeth MARAC yn eu cofnodion achos, a oedd weithiau'n arwain at ddiffyg eglurder ynghylch a oedd achosion wedi cael eu trafod, yn enwedig pan oeddent wedi cael eu trosglwyddo rhwng ymarferwyr.

Yn ein cydarolygiad thematig o MAPPA (Arolygiaeth Prawf EF, et al., 2022), gwelsom nad oedd pob achos a ddylai fod wedi cael ei gyfeirio at MAPPA fel achosion dewisol yn cael eu trin fel hyn. Yn yr arolygiad hwn, gwelsom fod ymarferwyr yn fwy ymwybodol o'r llwybr hwn, a gwelsom rywfaint o dystiolaeth o achosion cam-drin domestig yn elwa o reolaeth MAPPA, er ein bod yn dal wedi nodi naw achos lle byddai cyfeirio at MAPPA wedi ychwanegu gwerth, ond ni ddigwyddodd hynny.

Mewn rhai PDUs lle nodwyd bod cam-drin domestig yn flaenoriaeth leol, roedd troseddwyr yn dod o dan y trefniadau rheoli troseddwyr integredig (IOM) ac yn cael eu rheoli ar y cyd gan yr heddlu a'r gwasanaethau prawf, a oedd yn rheoli dedfrydau yn dda. Gwnaeth gwaith y tîm Wisdom yng Nghaerdydd argraff arbennig arnom, lle mae staff yr heddlu a'r gwasanaeth prawf yn gweithio ar y cyd â seicolegwyr fforensig a phartneriaid lleol eraill i reoli carfan risg uchel sy'n cynnwys achosion o gam-drin domestig â blaenoriaeth uchel. Mae'r tîm wedi'i gydleoli, sy'n sicrhau cyfathrebu da a dull gweithredu cydgysylltiedig ar draws pob asiantaeth. I gydnabod risg a chymhlethdod yr achosion y mae'n eu rheoli, mae gan y tîm Wisdom fel arfer lwyth achosion llai na'r rhan fwyaf o ymarferwyr prawf. Rydym wedi tynnu sylw at waith y tîm hwn yn y Canllaw Ymarfer Effeithiol a gyhoeddir ochr yn ochr â'r adroddiad hwn. Mae'r achos isod yn enghraifft o achos positif a reolir gan y tîm hwn.

| **Enghraifft o ymarfer da** |
| --- |
| Cafodd Nigel ei ddedfrydu i 10 mis yn y ddalfa am droseddau o ymddygiad sy'n gorfodi ac yn rheoli, ymosodiadau, a difrod troseddol yn erbyn ei bartner. Roedd y troseddau wedi digwydd dros gyfnod estynedig yn ystod eu perthynas am flwyddyn. Darparwyd asesiad llawn o'r achos, a oedd yn nodi pryderon blaenorol am gam-drin domestig. Oherwydd lefel y risg roedd yn ei pheri, nodwyd bod Nigel yn addas i'w reoli gan y tîm Wisdom. Roedd y gwasanaeth seicoleg fforensig yn hysbysu dull gweithredu pob asiantaeth drwy ffurfio achosion manwl a oedd yn hysbysu'r ffordd y gellid addasu gwaith sy'n canolbwyntio ar droseddu i gyd-fynd ag anghenion Nigel. Roedd apwyntiadau gyda'i ymarferydd prawf yn cynnwys gwaith penodol ar berthnasoedd, gwneud penderfyniadau ac agweddau. Roedd yr holl asiantaethau perthnasol yn monitro ymddygiad Nigel yn ofalus, a chymerwyd camau cyflym i roi rhybuddion yn erbyn ei drwydded |

pan gafwyd ei fod yn torri amod a oedd yn cyfyngu ar fynediad at gyfryngau cymdeithasol. Cafodd Nigel gymorth i ddod o hyd i ffyrdd o leihau ei ynysu cymdeithasol a dod o hyd i waith. Cafodd gyfle hefyd i gymryd rhan mewn gweithgareddau pro-gymdeithasol i leihau straen a rhoi cyfle i ymlacio. Ar ôl cyfnod o gynnydd parhaus, cafodd lefel risg Nigel ei gostwng i risg ganolig o niwed, a lleihawyd amlder ei apwyntiadau. Fodd bynnag, roedd cynllun wrth gefn cadarn ar waith o hyd, a oedd yn nodi'r camau i'w cymryd pe bai'r risgiau'n cynyddu.

Gwelsom hefyd enghraifft o gyngor a ddarparwyd gan Ganolfan Asesu Bygythiadau Ystelcio'r Heddlu Metropolitan, a oedd yn cefnogi'r ymarferydd prawf i weithio gydag achos heriol a chanfod ffynonellau cymorth ychwanegol. Mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei gomisiynu gan Swyddfa'r Maer ar gyfer Plismona a Throseddu ac mae'n cael ei redeg fel partneriaeth gan Wasanaeth Heddlu'r Metropolitan, y Gwasanaeth Prawf, ac Ymddiriedolaeth Suzy Lamplugh.

## 4.8. Defnyddio adnoddau cymunedol

Mae'r Gwasanaeth Prawf yn rheoli pobl sydd â bywydau cymhleth sydd yn aml wedi profi amrywiaeth o ddigwyddiadau trawmatig. Bydd rhai pobl ar brawf oherwydd materion nad ydynt yn gysylltiedig â cham-drin domestig wedi wynebu'r broblem hon, a bydd rhai pobl wedi cael eu nodi fel dioddefwyr a chyflawnwyr. Ochr yn ochr â llinellau cymorth cenedlaethol, mae sefydliadau mewn cymunedau lleol sy'n cynnig gwasanaethau cymorth arbenigol i bobl sy'n profi cam-drin domestig. Fel rhan o'r arolygiad hwn, roeddem eisiau deall sut roedd staff prawf yn ymgysylltu â'r gwasanaethau hyn ac a oeddent yn eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi pobl ar brawf. Yn ein cyfweliadau ag ymarferwyr prawf, dywedodd 41 y cant nad oeddent yn gwybod am wasanaethau cymorth lleol ar gyfer cam-drin domestig. Hyd yn oed ymysg y rhai a deimlai fod ganddynt ymwybyddiaeth dda, nid oedd llawer yn gwybod am wasanaethau arbenigol ar gyfer unigolion lleiafrifol. Roedd gan y rhan fwyaf o PDUs gyfeiriadur o wasanaethau ar gael, ond nid oedd staff yn gyfarwydd â gwaith llawer o'r sefydliadau a restrwyd. Drwy gyfarfodydd partneriaeth, clywsom gan rai sefydliadau mai yn anaml maent yn derbyn atgyfeiriadau gan ymarferwyr prawf; dywedodd un gwasanaeth sy'n darparu cymorth i ddioddefwyr risg ganolig o gam-drin domestig eu bod, ar y mwyaf, yn derbyn un cyfeiriad bob tri mis ond ar y cyfan nid ydynt yn derbyn dim.

Fe wnaethom arolygu tri PDU lle roedd y prosiect Drive[24] yn cael ei ddarparu. Cafodd Drive ei ddatblygu yn 2015 gan Respect, SafeLives, a Social Finance i fynd i'r afael â bwlch mewn gwaith gyda phobl sy'n cyflawni cam-drin domestig ac sy'n peri risg uchel. Datblygwyd y prosiect oherwydd bod angen rhoi sylw i'r nifer fawr o gyflawnwyr a oedd yn troseddu dro ar ôl tro gyda'r un dioddefwr neu ddioddefwyr newydd. Mae cymhwysedd ar gyfer Drive yn cael ei nodi drwy MARAC neu, mewn rhai achosion, drwy banel cyflawnwyr cam-drin domestig. Os asesir bod unigolyn yn gymwys, mae Drive yn defnyddio dull amlasiantaeth o fynd i'r afael â'r risgiau yn yr achos, gan gynnwys cymorth i ddioddefwyr a gweithgarwch tarfu penodol gan yr heddlu, yn ogystal ag ymyriad gyda'r cyflawnydd. Mae gwerthusiad o Drive wedi arwain at ganlyniadau addawol. Mae'r Cynllun Taclo Cam-drin Domestig (Llywodraeth EF, 2022) yn nodi:

**'Mae gwerthusiad o'r Prosiect Drive yn dangos bod cymryd rhan wedi arwain at ostyngiad mewn camdriniaeth a risg ymysg defnyddwyr y gwasanaeth, gyda cham-drin corfforol yn gostwng 82 y cant ac ymddygiad cenfigennus a rheoli wedi gostwng 73 y cant. Mae cost darparu Drive, sydd wedi'i amcangyfrif i fod yn £2,400 am bob cyflawnwr, yn cymharu'n ffafriol â chost gymdeithasol ac economaidd cyflawnwyr risg uchel i gymdeithas, sef £63,000 am bob cyflawnwr.'**

---

[24]Mae rhagor o wybodaeth am y prosiect Drive ar gael yn: http://driveproject.org.uk/.

Yn y safleoedd lle'r oedd Drive yn weithredol, gwelsom gydweithio da gyda staff prawf a chyfnewid gwybodaeth briodol am risg. Mae enghraifft o achos cadarnhaol wedi'i nodi isod.

| Enghraifft o arfer da – PDU Henffordd, Swydd Amwythig a Telford |
| --- |
| Dedfrydwyd Russ i orchymyn cymunedol 18 mis gyda diwrnodau RAR a gwaith di-dâl yn dilyn troseddau o ddifrod troseddol ac ystelcio. Roedd hefyd wedi cyflawni troseddau cam-drin domestig yn erbyn aelod o'r teulu. Roedd ei ymgysylltu cychwynnol â'i ddedfryd yn wael, a mynegodd safbwyntiau anhyblyg ac agweddau gwahaniaethol tuag at fenywod, grwpiau lleiafrifoedd ethnig, a'r gymuned LGBTQ+. Ar y dechrau, roedd y safbwyntiau hyn wedi ysgogi ei ymarferydd prawf i'w gyfeirio at y tîm Prevent. Er nad oedd Russ yn bodloni'r meini prawf ar gyfer yr ymyriad hwnnw, darparwyd rhai camau a chanllawiau defnyddiol, gan gynnwys ymgynghori â llwybr anhwylder personoliaeth y troseddwr, sgrinio am awtistiaeth, a chysylltu â gwasanaethau gofal cymdeithasol plant, i gael gwybodaeth am brofiadau Russ fel plentyn. Drwy'r gweithgareddau hyn, roedd gan yr ymarferydd well dealltwriaeth o ymddygiad Russ a chafodd ddealltwriaeth o'i droseddu. Cafodd Russ ei fabwysiadu ar y cynllun IOM lleol, ac yn dilyn arweiniad gan fewnbwn seicoleg, mabwysiadodd yr ymarferydd ddull gwahanol gydag ef, i ddatblygu perthynas well. O ganlyniad, cytunodd Russ i weithio'n wirfoddol gyda'r rhaglen Drive i fynd i'r afael â'i ymddygiad troseddol o ran cam-drin domestig. Rhannwyd gwybodaeth reolaidd rhwng Drive a'r ymarferydd prawf. Roedd Drive yn cynnig ymyriadau mewn ffordd hyblyg a oedd yn ymateb i anghenion Russ, gan ganiatáu i'r ymarferydd prawf gydlynu gweithgareddau a chanolbwyntio ar reoli risg. Arweiniodd y newid mewn dull gweithredu at ymddygiad mwy parchus ganddo, gan beidio â dangos agweddau a chredoau negyddol. Ar ben hynny, roedd y rheolaethau a'r monitro drwy'r cynllun IOM a'r rhaglen Drive yn cefnogi gweithgareddau adeiladol a rheoli risg ychwanegol. |

Yn PDUs Croydon, Henffordd, Swydd Amwythig a Telford, roedd yn rhaid i'r cyfranogwyr gymryd rhan yn wirfoddol yn yr ymyriad Drive, er y byddai gweithgareddau tarfu gan yr heddlu'n cael eu defnyddio hyd yn oed pe bai unigolion yn dewis peidio ag ymgysylltu. Fodd bynnag, yng Nghaerdydd, defnyddiwyd dull gwahanol ac roedd y prosiect yno'n cydweithio i ddefnyddio diwrnodau RAR ar gyfer gweithgareddau Drive, a oedd, yn eu barn nhw, yn rhoi'r ysgogiad cychwynnol i unigolion ymgysylltu. Siaradodd y rhai a oedd yn gyfrifol am ddarparu Drive yng Nghaerdydd yn gadarnhaol am y berthynas gyda staff prawf, a ddatblygwyd dros y saith mlynedd y buont yn gweithredu. Rydym wedi tynnu sylw at ragor o enghreifftiau o waith Drive yn ein Canllaw Ymarfer Effeithiol.

## 4.9. Casgliadau a goblygiadau

Mewn gormod o achosion, nid yw darparu dedfrydau'n canolbwyntio'n ddigonol ar risgiau cam-drin domestig. Mewn llawer o achosion, mae apwyntiadau prawf yn rhy anaml ac nid ydynt yn cynnig gwaith ystyrlon i leihau troseddu pellach. Mae newid swyddogion prawf yn effeithio ar barodrwydd rhai pobl ar brawf i ymddiried yn eu swyddog goruchwylio. Yn gyffredinol, nid oes digon o bobl ar brawf yn cymryd rhan mewn ymyriadau cam-drin domestig ac maent yn aml yn aros yn rhy hir cyn dechrau. Er bod ymyriadau strwythuredig a phecynnau cymorth i ymarferwyr wedi bod drwy broses i gymeradwyo eu cynnwys, ni welsom lawer o dystiolaeth bod eu defnydd yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Mae gormod o gyfleoedd wedi'u colli i amddiffyn dioddefwyr a dioddefwyr posibl cam-drin domestig. Nid yw'r trefniadau ar gyfer datgelu i bartneriaid newydd cyflawnwyr cam-drin domestig yn ddigon manwl i sicrhau bod gwybodaeth briodol yn cael ei rhannu'n ddiogel. Mae mynediad at y gefnogaeth sydd ar gael i ddioddefwyr a phartneriaid troseddwyr yn cael ei ohirio weithiau oherwydd atgyfeiriadau hwyr i'r cynllun DASO a diffyg ymwybyddiaeth o adnoddau cymunedol. Ar

ben hynny, anaml iawn y bydd ymarferwyr prawf yn cysylltu ag IDVAs, sy'n aml yn dal gwybodaeth bwysig am reoli risg a allai wneud gwahaniaeth sylweddol i asesiadau risg. Fodd bynnag, lle mae ymarferwyr prawf yn gweithio mewn timau amlddisgyblaethol arbenigol gyda llwythi achosion llai, mae ansawdd gwaith cam-drin domestig yn gwella'n ddramatig.

# Cyfeiriadau


Criminal Justice Joint Inspection. (2022). *Twenty years on, is MAPPA achieving its objectives?* Manchester: HM Inspectorate of Probation. Ar gael yn: Twenty years on, is MAPPA achieving its objectives? A joint thematic inspection of Multi-Agency Public Protection Arrangements (justiceinspectorates.gov.uk).

Llywodraeth EF. (2022). *Tackling Domestic Abuse Plan.* Llundain: Llywodraeth EF. Ar gael yn: Tackling Domestic Abuse Plan – CP 639 (publishing.service.gov.uk).

HM Inspectorate of Probation. (2018). *Domestic abuse: the work undertaken by Community Rehabilitation Companies (CRCs).* Manchester: HM Inspectorate of Probation. Ar gael yn: Quality & Impact Inspection (justiceinspectorates.gov.uk).

HM Inspectorate of Probation. (2022). *The use of electronic monitoring as a tool for the Probation Service in reducing reoffending and managing risk.* Manchester: HM Inspectorate of Probation. Ar gael yn: Electronic-monitoring-thematic-inspection.pdf (justiceinspectorates.gov.uk).

HM Inspectorate of Probation and HM Inspectorate of Prisons. (2022). *Offender Management in Custody – pre-release*. Manchester: HM Inspectorate of Probation. Ar gael yn: A thematic inspection of Offender Management in Custody – pre-release (justiceinspectorates.gov.uk).

HM Inspectorate of Probation. (2023). *Independent serious further offence review of Damien Bendall.* Manchester: HM Inspectorate of Probation. Ar gael yn: Independent serious further offence review of Damien Bendall (justiceinspectorates.gov.uk).

Hughes, W. (2017). 'Lessons from the Integrated Domestic Abuse Programme, for the implementation of Building Better Relationships'. *Probation Journal*, 64(2), pp. 129-145.

Ofsted, HM Inspectorate of Constabulary and Fire & Rescue Services, HM Inspectorate of Probation and Care Quality Commission. (2017). *The multi-agency response to children living with domestic abuse: prevent, protect and repair*. Manchester: Ofsted. Ar gael yn: The multi-agency response to children living with domestic abuse (publishing.service.gov.uk).

Renehan, N. (2020). *Building Better Relationships? Interrogating the 'Black Box' of a Statutory Domestic Violence Perpetrator Programme*. PhD. The University of Manchester. Ar gael ar-lein yn: FULL_TEXT.PDF (manchester.ac.uk).

# Atodiad 1: Geirfa

| | |
|---|---|
| **Rhaglen Achrededig** | Rhaglen waith a gyflwynir i droseddwyr mewn grwpiau neu'n unigol drwy ofyniad mewn gorchymyn cymunedol neu orchymyn dedfryd ohiriedig, neu ran o ddedfryd o garchar neu amod mewn trwydded carchar. Mae rhaglenni achrededig yn cael eu hachredu gan banel achrededig y gwasanaethau cywirol fel rhai sy'n effeithiol o ran lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu. |
| **Meithrin Perthnasoedd Gwell (BBR)** | Mae BBR yn rhaglen gwaith grŵp sydd wedi'i hachredu'n genedlaethol a'i nod yw lleihau aildroseddu ymysg dynion sy'n cyflawni trais ar bartneriaid agos. |
| **Amddiffyn plant** | Gwaith i sicrhau bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i sicrhau cyn lleied â phosibl o risg y bydd plentyn yn dioddef niwed. |
| **CRC** | Cwmni Adsefydlu Cymunedol. Roedd gan y sefydliadau hyn gontractau i ddarparu rhai gwasanaethau prawf, gan gynnwys rheoli pobl yr aseswyd eu bod yn peri risg isel neu ganolig o niwed, a chyflwyno rhaglenni achrededig a gwaith di-dâl. Roedd Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn gweithredu rhwng mis Mehefin 2014 a mis Mehefin 2021, pan oedd gwasanaethau prawf wedi'u huno'n rhan o'r Gwasanaeth Prawf. |
| **Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM (HMPPS)** | Yr asiantaeth sy'n gyfrifol am wasanaethu'r carchardai a phrawf. Gweler y nodyn isod am y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS). |
| **IDVA** | Cynghorwyr trais domestig annibynnol: darparu cymorth i oroeswyr cam-drin domestig sy'n byw yn y gymuned ac yr aseswyd eu bod yn wynebu risg uchel o ddioddef rhagor o gam-drin domestig. |
| **Rheoli Troseddwyr yn Integredig (IOM)** | Mae rheoli troseddwyr yn integredig yn cyflwyno ymateb traws-asiantaethol i'r bygythiadau troseddu ac aildroseddu a wynebir gan gymunedau lleol. Mae'r troseddwyr mwyaf mynych a phroblemus yn cael eu nodi a'u rheoli ar y cyd gan asiantaethau partner sy'n gweithio gyda'i gilydd. |
| **MAPPA** | Trefniadau Amlasiantaeth ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd: lle mae'r gwasanaeth prawf, heddlu, carchar ac asiantaethau eraill yn gweithio gyda'i gilydd yn lleol i reoli troseddwyr sy'n peri risg uwch o niwed i bobl eraill. Lefel 1 yw rheolaeth asiantaeth arferol, lle gall y risgiau a berir gan y troseddwr gael eu rheoli gan yr asiantaeth sy'n gyfrifol am oruchwylio neu reoli achos y troseddwr. Mae hyn yn cymharu â lefelau 2 a 3, sy'n gofyn am reoli aml-asiantaeth gweithredol. |
| **Hyb diogelu aml-asiantaeth** | Hybiau diogelu aml-asiantaeth yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ymholiadau neu bryderon newydd am ddiogelu. Maent fel arfer yn cynnwys cynrychiolwyr o'r awdurdod lleol (gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant ac oedolion), yr heddlu, cyrff iechyd, gwasanaethau prawf ac asiantaethau eraill. |

| | |
|---|---|
| **Y Weinyddiaeth Gyfiawnder** | Yn gyfrifol am rannau sylweddol o'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys llysoedd, carchardai, gwasanaethau prawf a chanolfannau ymbresenoli. |
| **nDelius** | National Delius: y system rheoli achosion gymeradwy a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru a Lloegr. |
| **Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr** | Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr: tan fis Ebrill 2017, hon oedd yr un asiantaeth oedd yn gyfrifol am y gwasanaeth carchardai a'r gwasanaeth prawf, a elwir bellach yn Wasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS). |
| **Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol** | Un gwasanaeth cenedlaethol a oedd yn bodoli rhwng mis Mehefin 2014 a mis Mehefin 2021. Ei rôl oedd darparu gwasanaethau i lysoedd a rheoli grwpiau penodol o droseddwyr, gan gynnwys y rhai sy'n peri risg uchel neu risg uchel iawn o niwed difrifol a'r rhai sy'n destun Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd. |
| **OASys** | System asesu troseddwyr sy'n cael ei defnyddio yng Nghymru a Lloegr gan y Gwasanaeth Prawf ar hyn o bryd i fesur risgiau ac anghenion troseddwyr dan oruchwyliaeth. |
| **Partneriaid** | Mae'r partneriaid yn cynnwys sefydliadau statudol ac anstatudol, sy'n gweithio gyda'r cyfranogwr/troseddwr drwy gytundeb partneriaeth gyda'r Gwasanaeth Prawf. |
| **PDU** | Uned Cyflawni'r Gwasanaeth Prawf. |
| **Darparwyr** | Mae darparwyr yn darparu gwasanaeth neu fewnbwn a gomisiynir ac a ddarperir dan gontract i'r Gwasanaeth Prawf. |
| **Adroddiad Cyn-Dedfrydu** | Mae hyn yn cyfeirio at unrhyw adroddiad a baratoir ar gyfer llys, boed ar lafar neu ar ffurf ysgrifenedig. |
| **Swyddog prawf** | Dyma'r term ar gyfer swyddog cyfrifol 'cymwys' sydd wedi dilyn cwrs addysg uwch ac wedi ennill y cymhwyster perthnasol. Mae enw'r cymhwyster a chynnwys yr hyfforddiant yn amrywio, yn dibynnu ar pryd y cafodd ei gynnal. Maent yn rheoli achosion mwy cymhleth. |
| **Swyddog Gwasanaethau Prawf (PSO)** | Dyma'r term ar gyfer swyddog cyfrifol a gafodd ei recriwtio'n wreiddiol heb unrhyw gymhwyster. Gallant gael hyfforddiant a bennir yn lleol i 'gymhwyso' fel swyddog gwasanaethau prawf neu adeiladu ar hyn i gymhwyso fel swyddog prawf. Efallai y byddant yn rheoli pob achos heblaw yr achosion mwyaf cymhleth, yn dibynnu ar lefel eu hyfforddiant a'u profiad. Mae rhai PSOs yn gweithio yn y llys, lle mae eu dyletswyddau'n cynnwys ysgrifennu adroddiadau cyn-dedfrydu. |
| **Gofyniad Gweithgaredd Adsefydlu (RAR)** | O fis Chwefror 2015, pan roddwyd y Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr ar waith, gall llysoedd bennu nifer o ddiwrnodau RAR mewn gorchymyn; mater i'r gwasanaethau prawf yw penderfynu ar yr union waith sydd i'w wneud yn ystod y diwrnodau RAR a ddyfarnwyd. |

| | |
|---|---|
| **SARA** | Asesiad Risg o Ymosodiad ar Briod, i'w ddefnyddio pan fydd cam-drin personol gan bartneriaid wedi cael ei nodi mewn ymddygiad presennol neu flaenorol. Gellir defnyddio SARA i asesu dynion a menywod sydd mewn perthnasoedd agos heterorywiol, o'r un rhyw a thrawsrywiol. |

# Atodiad 2: Methodoleg

Roedd yr arolygiad hwn yn ceisio ateb y cwestiynau canlynol:

**A yw'r arweinwyr yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r gwaith o ddarparu gwasanaeth ymatebol, personol o ansawdd uchel i'r holl gyflawnwyr a dioddefwyr cam-drin domestig?**

- A yw gwneud penderfyniadau strategol yn gwella ac yn galluogi ymarfer effeithiol?
- A yw strwythurau a modelau gweithredu yn cefnogi ymarfer effeithiol?
- A oes cytundebau rhannu gwybodaeth priodol ar waith gyda'r holl asiantaethau perthnasol i lywio gwaith cam-drin domestig?
- A yw'r cynlluniau ar gyfer monitro, sicrhau a gwerthuso ymyriadau yn ddigonol?

**A yw staff y Gwasanaeth Prawf wedi'u grymuso i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'r holl gyflawnwyr a dioddefwyr cam-drin domestig?**

- A yw lefelau staffio a llwyth gwaith yn cefnogi darparu gwasanaeth cam-drin domestig o ansawdd uchel?
- Ydy achosion cam-drin domestig yn cael eu rheoli gan ymarferwyr sydd â'r lefel briodol o wybodaeth a sgiliau?
- A yw ymarferwyr yn cael arweiniad, datblygiad, cefnogaeth a goruchwyliaeth briodol i reoli achosion cam-drin domestig yn fedrus?

**A oes ystod gynhwysfawr o wasanaethau ac ymyriadau ar waith i ymgymryd â gwaith gydag achosion cam-drin domestig?**

- Pa ddadansoddiad y mae'r Gwasanaeth Prawf yn ei wneud i nodi a darparu ystod briodol o ymyriadau?
- A yw'r Gwasanaeth Prawf yn darparu nifer, ystod ac ansawdd y gwasanaethau i ddiwallu'r angen a nodwyd?
- A oes ymyriadau priodol ar gael i ddarparu ar gyfer anghenion amrywiol defnyddwyr gwasanaeth?
- A yw'r ymyriadau cam-drin domestig yn cyd-fynd yn ddigonol â'r sylfaen dystiolaeth bresennol?
- A oes mesurau sicrhau ansawdd priodol ar waith ar gyfer pob ymyriad cam-drin domestig?

**Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cefnogi ymatal rhag ymddygiad cam-drin domestig?**

- A yw'r ymarferwyr yn ymgysylltu'n ddigonol â'r person sydd ar brawf ym mhob cam o achos?
- A yw asesu, cynllunio ac adolygu yn ddigon da i gefnogi'r gwaith o ddarparu ymyriadau o ansawdd da, wedi'u personoli a'u cydlynu'n dda?
- Ydy defnyddwyr gwasanaeth yn cymryd rhan mewn ymyriadau priodol ac amserol ac yn eu cwblhau?
- A roddir digon o sylw i baratoi defnyddwyr gwasanaeth ar gyfer ymyriadau a rheoli cynnydd a chydymffurfiad drwy gydol y ddedfryd?

**Sut mae dioddefwyr a'u plant yn cael eu cefnogi a'u hamddiffyn?**

- A oes cyfnewid gwybodaeth briodol, lle bo angen, gyda dioddefwyr neu eu heiriolwyr ar gamau perthnasol mewn achos?
- A roddir digon o flaenoriaeth i anghenion dioddefwyr ar lefel strategol ac ymarfer?
- Pa mor dda y mae ymarferwyr yn monitro gorchmynion peidio ag aflonyddu, gorchmynion atal a gorchmynion eraill?
- A yw ymarferwyr yn defnyddio datgeliad yn briodol ac yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'r cynllun datgelu trais domestig (DVDS; y cyfeirir ati'n aml fel Cyfraith Clare)?

**A yw trefniadau â phartneriaid statudol, darparwyr ac asiantaethau eraill yn cael eu sefydlu, eu cynnal a'u defnyddio'n effeithiol i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel?**

- Pa mor dda y mae'r Gwasanaeth Prawf yn cymryd rhan mewn cynlluniau, cytundebau a pholisïau partneriaeth strategol sy'n ymwneud â cham-drin domestig?
- A yw'r Gwasanaeth Prawf yn cyfrannu'n effeithiol at drefniadau aml-asiantaeth (e.e. (MARAC)/gwaith a chydlynu aml-asiantaeth (MATAC), cynadleddau amddiffyn plant)?
- A yw ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau eraill i amddiffyn a chefnogi dioddefwyr, ac i helpu'r cyflawnwyr i ymatal?
- A yw gwybodaeth am gam-drin domestig yn cael ei chasglu a'i rhannu gyda'r holl asiantaethau perthnasol, gan gynnwys yr heddlu a gwasanaethau gofal cymdeithasol plant, mewn modd amserol ar adegau priodol o'r gwaith asesu, darparu dedfrydau ac adolygu?

## Grŵp cyfeirio arbenigol

Cyfrannodd grŵp cyfeirio arbenigol at yr adroddiad hwn drwy gynghori ar faterion strategol a gweithredol sy'n gysylltiedig â gwaith cam-drin domestig. Roedd y grŵp yn cynrychioli safbwyntiau rhanddeiliaid ac yn gwneud sylwadau ar ganfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg a'r argymhellion terfynol. Roedd aelodau'r grŵp yn cynnwys:

**Rachel Nicholas** – Pennaeth Gwasanaeth, Cymorth i Ddioddefwyr
**Nicole Jacobs** – Comisiynydd Cam-drin Domestig
**Jessica Eagleton** – Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus, Refuge
**Jo Todd CBE** – Prif Swyddog Gweithredol, Respect
**Suzanne Jacob OBE** – Prif Weithredwr, SafeLives
R**osie Jarvis** – Pennaeth Rhaglen ac Ymarfer, Respect
**Sara Kirkpatrick** – Prif Swyddog Gweithredol, Cymorth i Fenywod Cymru
**Farah Nazeer** – Prif Swyddog Gweithredol, Cymorth i Fenywod Lloegr
**Paul d'Inverno** – Cynghorydd Arbenigol HMI, Amddiffyn Plant, Ofsted
**Stephen Thomas** – Dirprwy Gyfarwyddwr Portffolio, Portffolio Arolygiadau Heddlu ar y Cyd a Chenedlaethol, Arolygiaeth Cwnstabliaeth EF a Gwasanaethau Tân ac Achub
**Yr Athro Marianne Hester OBE FAcSS**, Prifysgol Bryste
**Suki Binning** – Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfiawnder a Gofal Cymdeithasol, Cynghrair Ymyriadau
**Comisiynydd Cynorthwyol Louisa Rolfe OBE** – Arweinydd Cam-drin Domestig, Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu
**DCC Maggie Blyth** – Arweinydd Cenedlaethol Trais yn erbyn Menywod a Merched, Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu
**Davina James-Hanman** – Aelod Cyswllt Cefnogi Cyfiawnder
**Yr Athro Gail Gilchrist**, King's College Llundain
**Yr Athro David Gadd**, Prifysgol Manceinion
**Yr Athro Elizabeth Gilchrist**, Prifysgol Caeredin

## Gwaith Maes

Roedd ein gwaith maes yn archwilio gwaith chwe uned darparu prawf (PDU): Dwyrain Swydd Gaerhirfryn, Surrey, Croydon, Caerdydd a'r Fro, Henffordd, Swydd Amwythig a Telford, a Swydd Rhydychen. Roedd ein safleoedd gwaith maes yn cynnwys ardaloedd metropolitan a mwy gwledig, i sicrhau ein bod yn cael darlun cyflawn. Cafodd y gwaith maes ei gwblhau rhwng mis Rhagfyr 2022 a mis Chwefror 2023, ac yna wythnos arall i ystyried y trefniadau ar lefel genedlaethol.

Bu i ni archwilio dau sampl yn ystod y gwaith maes; y cyntaf oedd sampl o 60 o achosion a ddechreuodd orchymyn neu drwydded chwech i saith mis cyn ein gwaith maes, gyda throseddwr cam-drin domestig neu â fflag hanes o gam-drin domestig ynghlwm wrth eu cofnod. Ar gyfer yr achosion hyn, roeddem wedi arolygu ansawdd y gwaith rheoli achosion ac wedi cyfweld yr ymarferydd prawf, lle bo hynny'n bosibl.

Yn ein hail sampl, roeddem wedi edrych ar 83 o achosion lle cofnodwyd bod y person ar brawf wedi dechrau ymyriad rhwng saith a naw mis cyn ein gwaith maes. Roeddem wedi archwilio a oedd yr ymyriad wedi cael ei gyflawni'n llawn ac a oedd unrhyw resymau dros beidio â'i gwblhau. Yn ystod pob wythnos gwaith maes, fe wnaethom gynnal cyfarfodydd ag amrywiaeth o staff, rheolwyr, uwch arweinwyr a phartneriaid gweithredol a strategol. Buom hefyd yn siarad â nifer fach o ddedfrydwyr a phedair menyw a oedd yn derbyn gwasanaethau swyddogion diogelwch cam-drin domestig (DASOs).

Ym mhob ardal gwaith maes, fe wnaethom gynnal cyfarfodydd a grwpiau ffocws, oedd yn cynnwys: ymarferwyr prawf, uwch swyddogion prawf, hwyluswyr rhaglenni a rheolwyr triniaeth, partneriaid strategol a gweithredol, penaethiaid PDU, a swyddogion diogelwch cam-drin domestig (DASOs). Ar ben hynny, roeddem yn gallu arsylwi cyfarfodydd MARAC mewn un PDU a recordiad o sesiwn Meithrin Perthnasoedd Gwell. Buom hefyd yn siarad â phedwar o bobl a oedd yn cael eu cefnogi gan wasanaeth DASO.

Yn ystod wythnos olaf ein gwaith maes, fe wnaethom gwrdd â'r rhai sy'n gyfrifol am bolisi a strategaeth cam-drin domestig ar lefel genedlaethol.

Fe wnaethom gomisiynu Llais Defnyddwyr i gynnal cyfweliadau lled-strwythuredig o bell gyda phobl ar brawf. Casglodd ymgynghorwyr gyda phrofiad bywyd o'r system cyfiawnder troseddol farn 55 o unigolion a nodwyd fel rhai a oedd yn cyflawni cam-drin domestig ac a oedd wedi cael eu rheoli gan y Gwasanaeth Prawf.

**Nodweddion y prif sampl achosion**

| Rhyw | Nifer | % |
|---|---|---|
| Gwryw | 54 | 90% |
| Benyw | 6 | 10% |
| Categori hil ac ethnigrwydd | Nifer | % |
| Gwyn | 50 | 83% |
| Pobl Dduon a lleiafrifoedd ethnig | 10 | 17% |
| Heb ei gofnodi'n glir | 0 | 0% |

| Dedfryd | Nifer | % |
|---|---|---|
| Gorchymyn cymunedol | 22 | 37% |
| Gorchymyn dedfryd ohiriedig | 10 | 17% |
| Trwydded | 28 | 47% |

| Gradd yr ymarferydd prawf presennol neu ddiwethaf | Nifer | % |
|---|---|---|
| Swyddog prawf (aelod o staff sydd â chymhwyster prawf cydnabyddedig) | 40 | 67% |
| Hyfforddai (aelod o staff sydd ar raglen hyfforddi ffurfiol ar hyn o bryd er mwn ennill cymhwyster swyddog prawf) | 7 | 12% |

| | | |
|---|---|---|
| Swyddog gwasanaeth prawf (aelod o staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda defnyddwyr gwasanaeth, heb gymhwyster swyddog prawf cydnabyddedig) | 13 | 22% |

| Faint o ddioddefwyr cam-drin domestig y mae'r cyflawnwr wedi'u cael? | Nifer | % |
|---|---|---|
| 1 | 25 | 42% |
| 2 | 20 | 33% |
| 3 | 10 | 17% |
| 4 | 2 | 3% |
| 5 | 0 | 0% |
| 6 neu fwy | 3 | 5% |

| Ers sawl blwyddyn mae'r person ar brawf wedi cael ei nodi fel un sy'n peri risg o gam-drin domestig? | Nifer | % |
|---|---|---|
| <1 | 4 | 7% |
| 1 – 3 | 20 | 33% |
| 4 -6 | 14 | 23% |
| 7 – 9 | 12 | 20% |
| 10+ | 10 | 17% |

# Atodiad 3: Tablau data[25]

Mae'r tablau isod yn dangos data o rai o'n cwestiynau allweddol a'n dyfarniadau cryno.

**Gwaith llys**

| A wnaeth y wybodaeth cyn-dedfrydu i'r llys ddadansoddi'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig yn ddigonol er mwyn hwyluso dedfrydu diogel? | Nifer | % |
|---|---|---|
| Do | 17 | 45% |
| Naddo | 21 | 55% |

**Asesiad**

| A yw'r asesiad yn dadansoddi nodweddion gwarchodedig a'r effaith y gallai'r rhain ei chael ar ymgysylltu? | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ydy | 38 | 63% |

[25]Oherwydd talgrynnu, efallai na fydd y canrannau'n dod i 100 y cant.

| | | |
|---|---|---|
| Nac ydy | 22 | 37% |
| A yw'r asesiad yn defnyddio digon ar yr holl ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael? | Nifer | % |
| Ydy | 26 | 43% |
| Nac ydy | 34 | 57% |
| Yn gyffredinol, a oedd yr asesiad yn darparu dadansoddiad digon clir a thrylwyr o risgiau cam-drin domestig? | Nifer | % |
| Oedd | 17 | 28% |
| Nac oedd | 43 | 72% |

**Cynllunio**

| A yw'r gwaith cynllunio'n nodi gweithgareddau adeiladol sydd â'r nod o fynd i'r afael â cham-drin domestig, gan gynnwys amserlenni? | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ydy | 31 | 52% |
| Nac ydyw, a dylai fod wedi gwneud hynny | 29 | 48% |
| A yw'r gwaith cynllunio'n nodi'r cyfyngiadau a'r mesurau sydd ar waith i ddiogelu dioddefwyr? | Nifer | % |
| Ydy | 34 | 74% |
| Nac ydyw, a dylai fod wedi gwneud hynny | 12 | 26% |
| Nid oedd angen cyfyngiadau yn yr achos | 14 | – |
| Yn gyffredinol, a wnaeth y gwaith cynllunio fynd i'r afael yn ddigonol â risgiau cam-drin domestig? | Nifer | % |
| Do | 22 | 37% |
| Naddo | 38 | 63% |

**Gweithredu a chyflawni**

| A oes unrhyw ymyriadau cam-drin domestig wedi cael eu darparu yn yr achos hwn? | Nifer | % |
|---|---|---|
| Oes | 17 | 28% |
| Nac oes, ac roedd hyn yn dderbyniol | 16 | 27% |
| Nac oes, a dylid fod wedi gwneud hynny | 27 | 45% |
| Drwy gydol y ddedfryd, a rannwyd gwybodaeth yn ddigonol ag asiantaethau eraill sy'n ymwneud â rheoli'r risg o gam-drin domestig? | Nifer | % |
| Do | 18 | 34% |
| Naddo | 35 | 66% |
| Ddim yn berthnasol, dim asiantaeth arall yn gysylltiedig | 7 | – |
| A oedd natur a lefel y cyswllt yn ddigonol i gefnogi'r gwaith o reoli'r achos yn gyffredinol? | Nifer | % |
| Oedd | 25 | 42% |

| | | |
|---|---|---|
| Nac oedd | 35 | 58% |
| Yn gyffredinol, a yw'r gweithredu a'r darparu yn rheoli risgiau cam-drin domestig yn effeithiol? | Nifer | % |
| Ydy | 16 | 27% |
| Nac ydy | 44 | 73% |

**Adolygu**

| A yw'r gwaith adolygu'n nodi ac yn mynd i'r afael â newidiadau mewn ffactorau cysylltiedig â cham-drin domestig, gyda'r addasiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i'r cynllun gwaith parhaus? | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ydy | 26 | 49% |
| Nac ydy | 27 | 51% |
| Ddim yn berthnasol, dim angen addasu | 7 | – |
| A gasglwyd gwybodaeth gan asiantaethau eraill a oedd yn gysylltiedig â'r achos ac a ddefnyddiwyd hi fel sail ar gyfer adolygu? | Nifer | % |
| Do | 28 | 48% |
| Naddo | 30 | 52% |
| Ddim yn berthnasol, dim asiantaeth arall yn gysylltiedig | 2 | – |
| A wnaed ymholiadau diogelu plant yn ôl yr angen gydol y ddedfryd? | Nifer | % |
| Do | 19 | 36% |
| Naddo | 34 | 64% |
| Ddim yn berthnasol, dim angen | 7 | – |
| A wnaed ymholiadau am gam-drin domestig yn ôl yr angen gydol y ddedfryd? | Nifer | % |
| Do | 26 | 44% |
| Na, a dylid fod wedi gwneud hynny | 33 | 56% |
| Na, dim angen | 1 | – |
| A gasglwyd gwybodaeth gan asiantaethau eraill a oedd yn gysylltiedig â'r achos ac a ddefnyddiwyd hi fel sail ar gyfer adolygu? | Nifer | % |
| Do | 28 | 48% |
| Naddo | 30 | 52% |
| Ddim yn berthnasol, dim asiantaeth arall yn gysylltiedig | 2 | – |
| Yn gyffredinol, a yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar risgiau cam-drin domestig? | Nifer | % |
| Ydy | 14 | 23% |
| Nac ydy | 46 | 77% |